

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
02/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
31/01/2017

Ymchwil Ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg

Adroddiad Cam 2

Ymchwil Ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg:

Adroddiad Ton 2

Ymchwil Arad



Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Hayley Collicott

Is-adran Plant a Theuluoedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3111

E-bost: hayley.collicott@wales.gsi.gov.uk

Tabl cynnwys

Geirfa	2
1. Cyflwyniad/Cefndir	5
2. Methodoleg	10
3. Ymgysylltu.....	18
4. Profiadau.....	29
5. Canlyniadau ac effeithiau tybiedig.....	46
6. Casgliadau	61
Atodiad B: Canllaw Trafod Buddiolwyr Drafft Dechrau'n Deg Ton 2	81

Rhestr o'r tablau

Tabl 1. Sampl terfynol y teuluoedd fesul categori ar gyfer Ton 1 a 2	15
--	----

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
Hawl EHV	Mae'r hawl Ymweliadau Iechyd Estynedig yn mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu un Ymwelydd Iechyd cyfwerth ag amser llawn fesul 110 o blant dan 4 oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cynrychioli llwyth achosion is na'r gwasanaeth cyffredinol a'i ddiben yw sicrhau bod cymorth dwys yn cael ei ddarparu i blant Dechrau'n Deg a'u teuluoedd. Prif swyddogaeth Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg yw cynorthwyo'r teulu yn y cartref, gan asesu'r plentyn a'r teulu (o ran risg uchel, canolig ac isel) a gwneud cyfeiriadau priodol.
Hawl gofal plant	Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o ansawdd, a gynigir i rieni pob plentyn 2-3 oed sy'n gymwys, am 2 awr a hanner y dydd, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos. Yn ogystal, dylai o leiaf 15 sesiwn o ddarpariaeth fod ar gael i'r teulu yn ystod y gwyliau ysgol.
Hawl rhianta	Rhaid i bob teulu sy'n cynnwys plentyn Dechrau'n Deg gael cynnig cymorth rhianta ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae modd i hwn fod mewn grwpiau neu mewn sefyllfa un-i-un yn y cartref, gyda chymysgedd o gymorth ffurfiol ac anffurfiol, gan ddibynnu ar yr angen. Caiff y cynnig rhianta ei seilio ar y 3 thema ganlynol: • amenedigol a chymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar • dulliau gweithredu ymyrraeth gynnar er mwyn cynorthwyo rhieni agored i niwed • rhaglenni er mwyn cynorthwyo rhieni gyda

rhianta cadarnhaol.

Hawl SLC	Hawl Lleferydd, iaith a Chyfathrebu. Mae Dechrau'n Deg yn cynnig amrediad o gyfleoedd i fanteisio ar grwpiau a chysiau (e.e. iaith a Chwarae), yn ogystal â chymorth gan Therapyddion iaith a Lleferydd a staff eraill sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad iaith a lleferydd. Yn flaenorol, galwyd yr hawl SLC yn hawl Datblygiad iaith Gynnar (ELD) (tan 2015) ac fe'i galwyd yn hawl iaith a Chwarae yn flaenorol hefyd. Newidiwyd hawl ELD i 'Lleferydd, iaith a Chyfathrebu' (SLC) ar ôl cyhoeddi canllawiau SLC Dechrau'n Deg yn 2015. Mae Lleferydd, iaith a Chyfathrebu yn ddisgrifiad ehangach ac mae'n cynnwys yr holl sgiliau sy'n ofynnol er mwyn i blant fod yn gyfathrebwyr cymwys a hyderus.
SLT	Therapi/Therapydd iaith a Lleferydd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyflogi staff SLT trwy Ddechrau'n Deg. Fodd bynnag, mae modd i deuluoedd gael eu cyfeirio gan staff Dechrau'n Deg i wasanaethau SLT cyffredinol hefyd.
IaCh	Iaith a Chwarae. Mae IaCh yn rhan o hawl SLC Dechrau'n Deg ac mae'n ymyriad SLC cyffredinol, anffurfiol. Yn aml, cynhelir sesiynau IaCh fel sesiynau 'galw heibio' ar draws awdurdodau lleol, ond mae modd eu cynnig fel cwrs hefyd (fel arfer rhwng pedair a chwe sesiwn). Mae IaCh yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwarae er mwyn helpu i feithrin sgiliau iaith a rhyngweithio rhwng rhieni a'u plant.
Teuluoedd Ton 1, 2 neu 3	Teuluoedd sy'n cael eu cyfweld yn ystod y tri cham blynyddol, neu donnau ymchwil. Ton 1 (yn 2015), 2 (2016) neu 3 (yn 2017).
Asesiad SoGS	Y Rhestr Sgiliau Tyfu. Mae SoGS yn offeryn asesu datblygiadol safonol a ddefnyddir gan weithwyr

proffesiynol y mae angen iddynt ddarganfod lefelau datblygiadol plant. Mae ymarferwyr Dechrau'n Deg yn defnyddio'r offeryn i asesu lefel ddatblygiadol plant dwy a thair oed.

Teuluoedd mewn
angen Uchel/
Canolig/Isel

Teuluoedd sy'n cael eu diffinio gan dîm Dechrau'n Deg eu hawdurdod lleol fel rhai y mae angen cymorth arnynt ar lefel uchel/canolig/isel. Mae'r union ddiffiniadau o lefelau'r angen yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, ond maent yn ystyried ffactorau megis problemau iechyd, amddifadedd, oedran y rhiant, iaith ac argaeledd rhwydweithiau cymorth. Yn yr adroddiad hwn, caiff lefel angen y teulu ei chynnwys wrth ymyl dyfyniadau er mwyn rhoi cyd-destun i sefyllfa'r teulu (pan oedd y wybodaeth hon ar gael i'r tîm ymchwil).

1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg. Cynhelir yr astudiaeth hydredol hon mewn tri cham (a ddisgrifir fel Tonau 1, 2 a 3) rhwng 2015 a 2017. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau Ton 2 y gwaith ymchwil, ar sail y gwaith maes a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Awst 2016.¹

Trosolwg o Ddechrau'n deg

- 1.2 Lansiwyd rhaglen Dechrau'n Deg yn 2006/7 ac mae'n darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a theuluoedd mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, er mwyn gwneud gwahaniaeth pendant i'w bywydau. Mae'n canolbwyntio ar adnabod anghenion ac ar ymyriadau cynnar er mwyn gwella datblygiad ieithyddol, datblygiad gwybyddol a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, ynghyd â'u hiechyd corfforol.
- 1.3 Mae Dechrau'n Deg yn cynnig pedair prif hawl:
- gwasanaeth ymweliadau iechyd estynedig (EHV);
 - gofal plant rhan-amser ac o ansawdd uchel am ddim i blant dwy i dair oed;
 - y cyfle i fanteisio ar gymorth rhianta; a
 - cymorth ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC).²
- 1.4 Mae'r hawliau hyn ar gael yn gyffredinol i deuluoedd sy'n cynnwys plant o ddim i bedair oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, a gall teuluoedd ddewis pa hawliau yr hoffent fanteisio arnynt. Yn ychwanegol i'r hawliau craidd hyn, mae cymorth wedi'i deilwra, gan ddibynnu ar anghenion teuluoedd unigol, yn elfen bwysig o'r rhaglen. Er enghraifft, mae rhai rhieni'n cael cymorth un-i-un a/neu'n cael eu cyfeirio

¹ Mae modd troi at adroddiad Ton 1 (Llywodraeth Cymru, 2016a) yma <http://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?lang=cy>

² Newidiwyd yr hawl Datblygiad Iaith Gynnar (ELD) i Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC) ar ôl cyhoeddi canllawiau SLC Dechrau'n Deg yn 2015 (Llywodraeth Cymru, 2015c).

at ddarpariaeth wedi'i thargeddu neu gymorth arbenigol fel Therapi Iaith a Lleferydd. Er 2012, mae'r rhaglen wedi cynnwys elfen o waith allgymorth, gan ganiatáu i awdurdodau lleol gynnig cymorth Dechrau'n Deg i ganran fach o deuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg dynodedig lle y gwelir angen a nodwyd.

- 1.5 Yn 2012, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i'r cam o ehangu rhaglen Dechrau'n Deg, gyda'r nod o ddyblu nifer y plant sy'n manteisio ar yr hawliau o 18,000 i 36,000 erbyn 2016. Yn 2015-16, roedd 38,269 o blant yn cael gwasanaethau Dechrau'n Deg, cynnydd o 3% o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2014-15.³
- 1.6 Darparir hawliau Dechrau'n Deg gan awdurdodau lleol ar draws Cymru, wrth iddynt weithio mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd Lleol a rhanddeiliaid eraill. Mae gan bob awdurdod lleol gydlynnydd Dechrau'n Deg sy'n rheoli tîm craidd o staff sy'n darparu'r rhaglen yn lleol. Mae aelodau'r tîm craidd hwn yn gwahaniaethu ar draws awdurdodau lleol, ond fe allai gynnwys: Ymwelwyr Iechyd; Gweithwyr Rhianta; Gweithwyr Gofal Plant; Bydwagedd; a Therapyddion Iaith a Lleferydd (SLTs). Yn ystod blynyddoedd 2015/16 a 2016/17, mae awdurdodau lleol wedi darparu cynlluniau blynyddol i Lywodraeth Cymru ynghylch darparu Dechrau'n Deg, wedi'u seilio ar y pedair hawl graidd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i sicrhau ansawdd a chysondeb y gwaith cynllunio a darparu yn lleol. Mae'r union feganweithiau darparu yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, ar sail y cyd-destun lleol.
- 1.7 Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu hawliau Dechrau'n Deg, mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrediad o ganllawiau. Mae hyn yn cynnwys canllawiau strategol cyffredinol (gan gynnwys egwyddorion allweddol y rhaglen) a chanllawiau ynghylch rheolaeth ariannol, yn ogystal â chanllawiau unigol ar gyfer pob hawl (gan gynnwys gwaith allgymorth a phontio)⁴. Mae'r canllawiau ar gyfer pob

³ Gweler <http://gov.wales/statistics-and-research/flying-start/?lang=cy>

⁴ Caiff pontio ei ddisgrifio gan Lywodraeth Cymru fel: "y broses newid, er enghraifft, a fydd yn digwydd pan fydd plant (a'u teuluoedd) yn symud o un lleoliad i un arall (e.e. o'r cartref i ofal plant Dechrau'n Deg)".

hawl yn cynnwys trosolwg o'r hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth, ynghyd â gwybodaeth am fecanweithiau darparu effeithiol (megis gweithio mewn partneriaeth).⁵

Nodau'r gwaith ymchwil

1.11 Nodau'r prosiect hwn yw:

- deall profiadau teuluoedd o raglen Dechrau'n Deg; a
- adnabod unrhyw effeithiau tybiedig y rhaglen ar deuluoedd Dechrau'n Deg.

1.12 Mae'r ymchwil yn rhoi sylw i'r cwestiynau canlynol:

1. Sut mae rhieni'n ymgysylltu â gwasanaethau Dechrau'n Deg a beth sy'n helpu ac sy'n llesteirio ar yr ymgysylltu?
2. Sut mae rhieni yn penderfynu pa hawl(iau) y byddant yn ymgysylltu â nhw a phryd?
3. Ym mha ffyrdd y bydd rhieni yn cael profiad o wahanol hawliau Dechrau'n Deg (h.y. ymweliadau ieched estynedig, gofal plant, SLC, cymorth rhianta)?
4. Beth yw disgwyliadau rhieni o raglen Dechrau'n Deg?
5. I ba raddau y mae rhieni o'r farn bod Dechrau'n Deg wedi cyflawni yn erbyn unrhyw ddisgwyliadau?
6. Sut mae Dechrau'n Deg yn ymwneud â gwasanaethau eraill (gan gynnwys ysgolion/rhaglenni cymorth i deuluoedd eraill/gwasanaethau ieched)? Er enghraifft, a cheir profiadau lle y mae Dechrau'n Deg yn 'cyfeirio' teuluoedd at wasanaethau eraill, a beth yw canlyniadau hyn?
7. Pa mor dda y mae rhieni Dechrau'n Deg yn credu bod y rhaglen wedi adnabod ac ymateb i anghenion a dymuniadau teuluoedd o ran y ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg?

Deg) neu'n symud o gyfrifoldeb un gweithiwr ieched proffesiynol i un arall (e.e. ymwelydd ieched i nyrs ysgol).’ (Llywodraeth Cymru, 2014c)

⁵ Ibid

8. Beth yw canfyddiadau rhieni o effeithiau'r rhaglen, os o gwbl, ar eu teulu nhw yn y tymor canolig i'r tymor hir?

Ymchwil blaenorol ynghylch Dechrau'n Deg

- 1.8 Rhwng 2011 a 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru werthusiad cenedlaethol o Ddechrau'n Deg (a gynhaliwyd gan SQW ac Ipsos Mori), a oedd yn cynnwys cyfres o adroddiadau a oedd yn asesu gweithrediad, darpariaeth ac effaith y Rhaglen.⁶ Mae'r adroddiad trosolwg cryno (Llywodraeth Cymru, 2014a) yn cynnig cipolwg o ganfyddiadau allweddol am y cynnydd a sicrhawyd tan 2013. Cynhwyswyd crynodeb o'r canfyddiadau allweddol hyn yn adroddiad Ton 1 yr ymchwil ansoddol cyfredol hwn (Llywodraeth Cymru, 2016a).
- 1.9 Mae'r ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gyda theuluoedd yr oedd lefel eu hangen yn uchel ac a gynhwyswyd yn y gwerthusiad cenedlaethol, yn arbennig o berthnasol i'r adroddiad cyfredol hwn (Llywodraeth Cymru, 2013a). Canfu'r ymchwil bod rhieni'n teimlo'n gadarnhaol ynghylch pedair hawl Dechrau'n Deg a'r effaith yr oedd y rhaglen wedi'i chael ar eu teulu ar y cyfan. Cynhwyswyd crynodeb manylach o ganfyddiadau allweddol yr ymchwil hwn yn adroddiad Ton 1 y gwaith ymchwil ansoddol cyfredol hwn (Llywodraeth Cymru, 2016a).
- 1.10 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi asesiad gwerthusadwyedd o Ddechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2016b). Mae'r adroddiad yn archwilio sut y mae modd gwerthuso'r rhaglen, ynghyd â newidiadau y bydd angen eu gwneud efallai er mwyn cynnal gwerthusiadau mwy cadarn a dibynadwy. Gyda'r rhaglen yn ei ffurf bresennol, mae'r adroddiad yn amlinellu argymhellion ar gyfer gwerthusiadau yn y dyfodol, gan gynnwys:
- cymharu canlyniadau ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg;
 - parhau i ddefnyddio gwaith ymchwil ansoddol er mwyn archwilio tybiaethau teuluoedd Dechrau'n Deg o'r rhaglen;

⁶ Mae modd gweld yr holl adroddiadau hyn trwy droi at <http://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?lang=cv>

- ymchwilio i gyfleoedd er mwyn cysylltu data, gan ddefnyddio data gweinyddol er mwyn archwilio canlyniadau plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ar lefel unigol;
- olrhain sampl o deuluoedd/rhieni/plant sydd wedi ymgysylltu â rhaglen Dechrau'n Deg, mewn ffordd hydredol.

Adroddiad Ton 1 ar gyfer yr astudiaeth hon

1.13 Mae'r adroddiad hwn yn ail adroddiad mewn cyfres o dri adroddiad i'w cyhoeddi fel rhan o'r astudiaeth hon (gweler adran 2 am ddisgrifiad o'r fethodoleg). Seiliwyd adroddiad Ton 1 yr astudiaeth hon (Llywodraeth Cymru, 2016a) ar 72 o gyfweiliadau gyda theuluoedd a gynhaliwyd yn 2015. Roedd y dystiolaeth yn adroddiad Ton 1 yn dangos bod teuluoedd yn ymgysylltu â gwasanaethau Dechrau'n Deg mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan fanteisio ar wahanol hawliau am amrywiaeth o resymau. Roedd rhan fwyaf y teuluoedd a gyfweilwyd yn fodlon â'u profiadau o ymgysylltu â'r gwasanaethau a ddarparir gan holl hawliau Dechrau'n Deg. Yn ogystal, nododd yr adroddiad bod y rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith ar o leiaf un agwedd ar ddatblygiad eu plentyn ac ar eu gwybodaeth nhw am rianta a'u hymagwedd tuag ato.

Am yr adroddiad hwn

1.14 Mae Adran 2 yn rhoi disgrifiad o'r fethodoleg a fabwysiadwyd er mwyn cynnal y gwaith ymchwil. Mae Adran 3 yn amlinellu'r canfyddiadau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae teuluoedd yn ymgysylltu â gwasanaethau Dechrau'n Deg. Mae Adran 4 yn cyflwyno safbwyntiau rhieni am eu profiadau nhw o fanteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg dan y pedair hawl. Yn Adran 5, nodir canlyniadau ac effeithiau tybiedig gwasanaethau Dechrau'n Deg a'r rhaglen yn gyffredinol. Amlinellir ein casgliadau yn Adran 6. Mae Atodiad A yn cynnwys astudiaethau achos wedi'u seilio ar gyfweiliadau gyda theuluoedd yn ystod Ton 2 ac mae Atodiad B yn cynnwys yr amserlen gyfweld.

2. Methodoleg

- 2.1 Nodir y fethodoleg ar gyfer cynnal y gwaith ymchwil yn yr adran hon. Mae'n cynnwys crynodeb o'r broses er mwyn dewis awdurdodau lleol a theuluoedd i gymryd rhan, yn ogystal â'r broses recriwtio.

Trosolwg o'r dull gweithredu

- 2.2 Nod y gwaith ymchwil yw ymweld â theuluoedd ar dair adeg yn ystod eu cyswllt â rhaglen Dechrau'n Deg. Bydd gwaith maes yn cynnwys y canlynol:
- 216 o gyfweiliadau wyneb-yn-wyneb gyda theuluoedd mewn chwe awdurdod lleol dros dair blynedd (tair ton flynyddol o 72 o gyfweiliadau yn 2015, 2016 a 2017);⁷
 - Roedd Ton 1 yr astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 72 o gyfweiliadau gyda theuluoedd;
 - Mae Ton 2 wedi cynnwys cyfanswm o 72 o gyfweiliadau gyda theuluoedd, gan gynnwys 53 o gyfweiliadau dilynol gyda theuluoedd o'r don gyntaf (sampl hydredol) ac 19 o gyfweiliadau gyda sampl 'atodol' o deuluoedd er mwyn disodli'r rhai nad oedd modd iddynt gymryd rhan mewn ail gyfweiliad;
 - Bydd Ton 3 yn cynnwys 72 o gyfweiliadau pellach, gan gynnwys ail neu drydydd cyfweiliad gyda theuluoedd o'r don gyntaf a'r ail don pan fo modd, yn ogystal â sampl 'atodol' er mwyn disodli unrhyw deuluoedd na fydd modd iddynt gymryd rhan mewn cyfweiliad arall;
 - 18 cyfweiliad gyda chydlynwyr Dechrau'n Deg mewn chwe awdurdod lleol (tair ton flynyddol o chwe chyfweiliad) er mwyn darparu data cyd-destunol;

⁷ Roedd y chwe awdurdod lleol yn cynnwys un yr un o ogledd-ddwyrain, gogledd-orllewin, de-ddwyrain a de-orllewin Cymru, yn ogystal, ag un o ganolbarth Cymru a chymoedd de Cymru. Mae adroddiad Ton 1 yn cynnwys gwybodaeth bellach am y ffordd y dewiswyd awdurdodau lleol (Llywodraeth Cymru, 2016a).

- Cynhelir ymchwil ansoddol gyda theuluoedd mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn 2017 er mwyn casglu tystiolaeth am yr hyn a fydd neu'r hyn na fydd yn digwydd efallai yn absenoldeb y Rhaglen.

2.3 Cynhaliwyd y 72 o gyfweiliadau Ton 2 gyda theuluoedd a'r chwe chyf-weliad gyda chydlynwyr a staff Dechrau'n Deg rhwng mis Mai a mis Awst 2016 a'r rhain yw sylfaen yr adroddiad hwn.

Rhesymeg y dull gweithredu

- 2.4 Mae'r dull gweithredu ansoddol a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn ein galluogi i gael dirnadaeth o brofiadau teuluoedd o Ddechrau'n Deg ac i gasglu safbwyntiau ynghylch sut (os o gwbl) y mae wedi dylanwadu ar eu bywydau. Cynlluniwyd ymchwil ansoddol i fod yn archwiliol, gan gynnwys cwestiynau agored er mwyn annog rhieni i rannu eu tybiaethau a'u teimladau am bwnc yn eu geiriau nhw, yn hytrach na chynnig dewisiadau ymateb a bennwyd ymlaen llaw i gyfranogwyr. Nid yw darparu data sy'n ystadegol ddibynadwy yn nod gan yr ymchwil, ond mae'n darparu tystiolaeth fanwl er mwyn helpu i ddeall safbwyntiau rhieni ynghylch eu profiadau, er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth o ymgysylltiad teuluoedd â'r Rhaglen.
- 2.5 Mae'n bwysig cydnabod rhai o gyfyngiadau'r gwaith ymchwil hwn, gan gynnwys; tuedd sampl (h.y. sut y gallai'r broses ddethol a recriwtio fod wedi dylanwadu ar natur sampl y teuluoedd); dilysrwydd a dibynadwyedd data (e.e. dibyniaeth ar ddata a hunan-adroddwyd gan rhieni); a phriodoliad (h.y. dehongli i ba raddau y mae modd priodoli effeithiau a chanlyniadau tybiedig a adroddwyd gan deuluoedd i elfennau o'r Rhaglen). Roedd defnyddio canllaw i bynciau cyfweld lled-strwythuredig wedi galluogi'r cyfwelwyr i ddefnyddio cwestiynau agored ac awgrymiadau dilynol, gan ganiatáu i'r ymatebydd ddatblygu eu hatebion a goresgyn rhai o'r cyfyngiadau y cyfeiriwyd atynt uchod. Trafodir yr holl faterion hyn yn fanylach yn adroddiad Ton 1 yr astudiaeth hon (Llywodraeth Cymru, 2016a). Mae gweddill yr adran hon yn

canolbwyntio ar y fethodoleg a fabwysiadwyd er mwyn cynnal gwaith maes Ton 2.

Cyfweliadau gyda chydlynwyr a staff Dechrau'n Deg

- 2.6 Yn ystod mis Mai 2016, cynhaliodd y tîm ymchwil astudiaethau cwm-pasu gyda chydlynwyr a staff eraill Dechrau'n Deg (y rhai sy'n gyfrifol am reoli cronfeydd data yn bennaf) yn y chwe awdurdod lleol. Diben y cyfweliadau hyn oedd casglu gwybodaeth gyd-destunol am ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn lleol a thrafod y dull gweithredu er mwyn recriwtio teuluoedd atodol i ddisodli unrhyw deuluoedd o Don 1 y gwaith ymchwil na fyddai modd iddynt gymryd rhan yn Nhon 2.

Samplu a recriwtio

- 2.7 Cynlluniwyd fframwaith samplu er mwyn dewis teuluoedd yn ystod Ton 1 yr ymchwil, a gosodwyd targedau ynghylch isafswm y teuluoedd mewn gwahanol gategoriâu i'w cyfweld.⁸ Yna, dewiswyd teuluoedd ar hap o fewn y categorïau hyn. Diben y dull gweithredu hwn oedd sicrhau bod y sampl yn cynnwys amrediad o wahanol fathau o deuluoedd, a cheisio sicrhau y byddai rhai teuluoedd o bob categori yn cymryd rhan yn nhair ton yr ymchwil.
- 2.8 Roedd ein dull gweithredu yn ceisio sicrhau y byddai cymaint ag y bo modd o'r teuluoedd a gyfwelwyd yn Nhon 1 yn cael eu hail-gyfweld yn Nhon 2. At ei gilydd, ail-gyfwelwyd 53 o deuluoedd Ton 1 yn ystod Ton 2 (cyfradd gadw o 74 y cant) a llwyddwyd i recriwtio 19 o deuluoedd 'atodol' er mwyn disodli'r rhai a oedd wedi tynnu'n ôl neu nad oedd modd cysylltu â nhw. Roedd y gyfradd gadw hon yn uwch na'r hyn a ragwelwyd ar sail gwaith ymchwil blaenorol.
- 2.9 Mae Tabl 1 isod yn cynnwys dadansoddiad o sampl y teuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Ton 1 a 2 fesul categori. Os nad oedd modd i deulu o Don 1 gymryd rhan yn Nhon 2, byddai teulu newydd gyda nodweddion tebyg yn cael ei recriwtio i'w disodli yn y sampl.

⁸ Caiff disgrifiad llawn o'r dull gweithredu a fabwysiadwyd er mwyn dewis a recriwtio'r sampl ei gynnwys yn adroddiad Ton 1 (Llywodraeth Cymru, 2016a).

Tabl 1. Sampl terfynol teuluoedd Ton 1 a 2 fesul categori

Categori	Ton 1 (2015)		Ton 2 (2016)	
	Nifer y teuluoedd a gyfwelwyd	Canran y teuluoedd a gyfwelwyd ¹	Nifer y teuluoedd a gyfwelwyd	Canran y teuluoedd a gyfwelwyd ¹
Rhieni o deuluoedd sydd mewn angen uchel	30	42%	30	42%
Rhieni o deuluoedd sydd mewn angen canolig	15	21%	15	21%
Rhieni o deuluoedd sydd mewn angen isel	27	38%	27	38%
Rhieni 19 oed neu'n iau pan y'u cyfwelwyd y tro cyntaf	10	14%	9	13%
Rhieni nad Gwyn Prydeinig neu Gwyn Cymreig yw eu cefndir ethnig ²	11	15%	16	22%
Rhieni sy'n siarad Cymraeg	13	18%	16	22%
Rhieni sydd â phlant anabl	7	10%	8	11%

¹Nid yw'r niferoedd yn y golofn yn rhoi cyfanswm o 100% gan fod modd cyfrif teuluoedd mewn mwy nag un categori.

²Roedd y cyfweiliadau'n cynnwys teuluoedd o'r grwpiau ethnig canlynol: Gwyn Ewropeaidd (Pwylaidd, Rwmanaidd, Tyrcaidd ac Arall), Arabaidd a Du Affricanaidd.


Gwaith maes

2.10 Gofynnwyd i'r 72 o deuluoedd lle y byddai'n well ganddynt gynnal y cyfweiliad. Dewisodd y mwyafrif helaeth (65 o 72) gael cyfweiliad wyneb-yn-wyneb yn eu cartref, a dewisodd pum teulu gael cyfweiliad

wyneb-yn-wyneb mewn canolfan Dechrau'n Deg leol, a chyfwelwyd dau deulu dros y ffôn am resymau ymarferol. Cynigiwyd tâl i'r holl deuluoedd am gymryd rhan.

- 2.11 Rhoddwyd y cyfle i'r holl rieni/gwarcheidwaid yn y teulu gymryd rhan mewn cyfweiliadau, naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd. O blith y 72 o deuluoedd, roedd 60 o famau wedi cymryd rhan mewn cyfweiliad ar eu pen eu hunain, roedd dau dad wedi cymryd rhan ar eu pen eu hunain, ac roedd dau warcheidwad neu dad-cu/taid neu fam-gu/nain wedi cymryd rhan ar eu pen eu hunain. O ran yr wyth teulu a oedd yn weddill, roedd y fam a'r tad wedi cymryd rhan yn y cyfweiliad. Roedd 18 o'r 72 o deuluoedd a gyfwelwyd yn deuluoedd rhieni unigol.
- 2.12 Cofnodwyd ethnigrwydd y teuluoedd a gyfwelwyd; o blith y 72 o deuluoedd a gyfwelwyd, roedd y mwyafrif (56 o deuluoedd) yn deuluoedd Gwyn Cymreig neu Wyn Prydeinig. Roedd wyth teulu o gefndir Dwyrain Canol (gan gynnwys teuluoedd Iracaidd, Yemeniaidd, Syriaidd a Sawdi-Arabaidd). Roedd pedwar teulu pellach o gefndir Gwyn Ewropeaidd (gan gynnwys Pwylaidd, Portiwgeaidd ac Eidalaid) ac roedd y ddau a oedd yn weddill o gefndir Du Affricanaidd.
- 2.13 Cynhaliwyd y cyfweiliadau yn newis iaith y teuluoedd, a threfnwyd bod cyfieithydd yn bresennol gyda'r ymchwilydd yn ôl yr angen. Cynhaliwyd mwyafrif y cyfweiliadau (57) yn Saesneg, a chynhaliwyd wyth yn Gymraeg. Cynhaliwyd saith cyfweiliad gyda chymorth cyfieithwyr, ac roedd y rhain oll yn Arabeg.
- 2.14 Roedd nifer y plant yn y 72 o deuluoedd yn amrywio o un plentyn i 10 o blant. Dim ond un plentyn oedd yng nghyfran fwyaf y teuluoedd a gyfwelwyd (29 o deuluoedd). Roedd oedrannau'r plentyn ieuengaf yn y teulu yn amrywio'n sylweddol, gyda'r ieuengaf adeg y cyfweiliad yn wyth wythnos oed yn unig, a'r hynaf yn 46 mis oed. Mae Ffigwr 1 isod yn cyflwyno oedrannau'r plentyn ieuengaf yn y 72 o deuluoedd adeg y cyfweiliad.

Ffigwr 1. Nifer y teuluoedd ac oedran y plentyn ieuengaf



Ystyriaethau moesegol

2.15 Roedd ein dull gweithredu ar gyfer y gwaith ymchwil yn ceisio sicrhau triniaeth foesegol gywir ar gyfer yr holl rai a fu'n cymryd rhan yn yr astudiaeth. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod cyfranogiad teuluoedd yn benderfyniad gwirfoddol, wedi'i seilio ar gydsyniad ar sail gwybodaeth, a bod yr holl ddata'n cael ei drin yn gyfrinachol. Estynnwyd gwahoddiad i deuluoedd gymryd rhan gan staff Dechrau'n Deg (Ymwelwyr lechyd fel arfer) ac fe'u hysbyswyd o'r ffaith mai penderfyniad gwirfoddol fyddai cymryd rhan. I'r perwyl hwn, darparwyd nodyn briffio gan y tîm ymchwil ar gyfer staff awdurdodau lleol yn disgrifio'r gwaith ymchwil a natur y gweithgarwch ymgysylltu gofynnol ar gyfer y rhieni, er mwyn iddynt ei ddefnyddio wrth drafod y prosiect gyda theuluoedd. Gofynnwyd i rieni lenwi ffurflen cydsynio cyn y byddai staff Dechrau'n Deg yn rhoi manylion cyswllt i'r tîm ymchwil. Cyn pob cyfweiliad, gofynnwyd i deuluoedd lenwi ffurflen cydsynio ychwanegol gan y tîm ymchwil. Roedd y ffurflen gydsynio hon yn darparu gwybodaeth bellach ynghylch cyfrinachedd, sut y byddai eu data yn cael ei ddefnyddio, ac roedd yn cadarnhau bod eu cyfranogiad yn wirfoddol. Yn ogystal, roedd yn gofyn am eu cydsyniad i rywun yn cysylltu â nhw eto yn y dyfodol ar gyfer tonnau pellach y gwaith

ymchwil. Mae'r canllaw i bynciau yn Atodiad B yn cynnwys datganiad a ddarllenwyd i'r cyfranogwyr ar ddechrau pob cyfweiliad.

Canllaw i bynciau

- 2.16 Datblygwyd canllaw i bynciau lled-strwythuredig gan y tîm ymchwil a oedd yn cynnwys themâu amrywiol, gan gynnwys: gwybodaeth broff-
il; disgwyliadau ac ymgysylltu; profiadau o bob hawl; canlyniadau ac
effeithiau tybiedig. Roedd y canllaw i bynciau yn cynnwys cwestiynau
agored ac awgrymiadau a oedd yn ymwneud â gwahanol hawliau a
gwasanaethau Dechrau'n Deg, yn ogystal â chyfleoedd i sgorio lefel
eu bodlonrwydd â'r hawliau yr oeddent wedi manteisio arnynt, allan o
ddeg. Mae Atodiad B yn cynnwys copi o'r canllaw i bynciau.

Dadansoddi

- 2.17 Paratowyd nodiadau o'r 72 o gyfweiliadau gan y cyfweilydd. Ni record-
iwyd cyfweiliadau na'u trawsgrifio gair am air, ond ysgrifennwyd rhai
dyfyniadau ar y pryd ac fe'u hadroddir yn llawn er mwyn amlygu syl-
wadau manwl ynghylch profiadau penodol.⁹ Adolygwyd nodiadau
cyfweiliadau ac fe'u codiwyd (h.y. labelwyd brawddegau a pharagraff-
au ym mhob set o nodiadau gyda 'chodau', a oedd yn rhoi crynodeb
o'r hyn a ddywedwyd e.e. sylw cadarnhaol am ofal plant) er mwyn
gallu tynnu allan themâu cyffredin yr adroddwyd amdanynt yn ystod y
gwaith dadansoddi. Defnyddiwyd meddalwedd dadansoddi data an-
soddol er mwyn cynorthwyo'r broses ac er mwyn sicrhau ei bod yn
hawdd adalw'r data. Mae hyn wedi ein galluogi i roi crynodeb o'r data
ac i adnabod y themâu allweddol a ddeilliodd o'r gwaith maes.

⁹ Yn yr adroddiad hwn, nodir oedran a rhyw y sawl a gyfwelewyd a lefel angen y teulu wrth ymyl
dyfyniadau mewn achosion pan oedd y wybodaeth hon ar gael i'r tîm ymchwil.

Adrodd

- 2.18 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o'r cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda theuluoedd yn ystod Ton 2. Hwn yw'r ail mewn cyfres o dri adroddiad blynyddol i'w cyhoeddi ar ôl cwblhau tair ton y gwaith ymchwil. Cyhoeddir adroddiad terfynol ar ôl cwblhau Ton 3 y gwaith ymchwil yn 2017. Mae adrannau 3-5 isod yn amlinellu'r themâu a'r canfyddiadau allweddol a oedd yn deillio o'r gwaith ymchwil. Yn yr adrannau canlynol hyn, cymharir y canfyddiadau yn Nhon 1 a 2 hefyd.

3. Ymgysylltu

- 3.1 Mae'r adran hon a'r rhai sy'n dilyn yn amlinellu'r themâu a'r canfyddiadau allweddol sydd wedi deillio o'r ymchwil hyd yn hyn. Yn yr adran hon, rydym yn archwilio natur ymgysylltu teuluoedd gyda Dechrau'n Deg a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eu lefel ymgysylltu. Yn ogystal, rydym yn nodi unrhyw newidiadau o ran ymgysylltiad teuluoedd rhwng Tonnau 1 a 2. I'r perwyl hwn, gofynnwyd i'r rhieni pa wybodaeth, os o gwbl, yr oeddent wedi'i chael am wasanaethau Dechrau'n Deg ers Ton 1, pa hawliau yr oeddent wedi parhau i fanteisio arnynt, pa hawliau nad oeddent yn manteisio arnynt fwyach a pha hawliau yr oeddent wedi dechrau manteisio arnynt ers Ton 1.

Gwybodaeth a gafwyd

- 3.2 Holwyd yr holl deuluoedd am lefel y wybodaeth y maent wedi'i chael am raglen Dechrau'n Deg a'i hawliau. Holwyd y rhai a gyfwelwyd yn ystod Ton 1 pa wybodaeth yr oeddent wedi'i chael ers hynny yn benodol.
- 3.3 Roedd rhieni yn Nhon 2 wedi cael gwybodaeth am wasanaethau Dechrau'n Deg gan ffynonellau tebyg i'r rhai a nodwyd yn Nhon 1. Roedd rhieni wedi cael gwybodaeth trwy eu Hymwelydd Iechyd yn bennaf, yn ogystal â thrwy daflenni, amserlenni a chyfryngau cymdeithasol. Roedd y rhan fwyaf o deuluoedd yn teimlo'u bod wedi cael digon o wybodaeth trwy'r ffynonellau hyn, er bod rhai wedi nodi eu bod yn cael llai o wybodaeth nawr nag yr oeddent yn ei chael yn ystod Ton 1. Nododd rhai rhieni nad oeddent wedi cael fawr ddim o wybodaeth neu ddim gwybodaeth o gwbl am wasanaethau Dechrau'n Deg ers Ton 1. Mae'r teuluoedd hyn yn tueddu i gynnwys plant hŷn, felly ni fyddant yn cael cyswllt mor rheolaidd â'u Hymwelydd Iechyd.¹⁰ Yn

¹⁰ Mae *Rhaglen Graidd o Ymweliadau Iechyd Cymru Gyfan Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2013b)* yn amlinellu amllder cysylltiadau arferol Ymwelwyr Iechyd: bob wythnos hyd at 6 wythnos yn dilyn genedigaeth, a ddilyniir gan gyswllt bob 8, 12 ac 16 wythnos ac o leiaf 2 gyswllt rhwng 6 a 12 mis. Yn dilyn hyn, disgwylir y bydd ymweliadau'n cael eu cynnal ar ôl 18 mis, 2 a 3 blynedd (gan gynnwys

ogystal, nid oeddent mor rhagweithiol wrth geisio gwybodaeth am wasanaethau Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, pan oedd hyn yn wir, roedd y ffaith bod teuluoedd yn gwybod bod y cymorth yno pe byddent ei angen yn cynnig cysur iddynt.

‘Cefais lawer o wybodaeth a chymorth pan oedd yn fach, ond byddaf yn cael llai nawr ers iddo dyfu'n hŷn.’ Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

Hawliau y manteisiwyd arnynt a ffactorau sy'n dylanwadu ar weithgarwch ymgysylltu

- 3.4 Mae lefelau ymgysylltu teuluoedd gyda'r pedair hawl graidd yn tueddu i wahaniaethu, gan ddibynnu ar oedran eu plant. Er enghraifft, mae teuluoedd sy'n cynnwys plentyn iau (e.e. babanod dan chwe mis oed) yn cael cyswllt craidd mwy rheolaidd â'r hawl EHV fel arfer, o'u cymharu â theuluoedd sy'n cynnwys plant hŷn, fel y nodir yn nogfen *Rhaglen Graidd o Ymweliadau Iechyd Cymru Gyfan Dechrau'n Deg* (Llywodraeth Cymru, 2013b) (gweler troednodyn 10).¹¹ Yn yr un modd, o ganlyniad i natur y gofal plant a gynigir, dim ond pan fydd eu plentyn yn ddwy neu'n dair oed y bydd teuluoedd yn gymwys i fanteisio ar yr hawl hon. Mae teuluoedd yn tueddu i fanteisio ar grwpiau SLC, megis Iaith a Chwarae (IaCh) cyn y bydd eu plentyn yn dechrau mynychu gofal plant pan fyddant yn ddwy oed ac yna, maent yn llai tebygol o fynychu'r grwpiau SLC hyn. Mae'r newidiadau hyn o ran cymhwysra ac anghenion plant, ynghyd â natur wirfoddol y Rhaglen,

asesiadau datblygiadol). Mae'r Rhaglen yn nodi y dylai cynlluniau gofal unigol, a ddatblygwyd wedi'u seilio ar asesiadau o anghenion y plentyn, ddylanwadu ar amllder y cyswllt. Mae hyn yn golygu y bydd angen i deuluoedd y nodwyd eu bod mewn angen uchel, gael cyswllt amlach gydag Ymwelydd Iechyd na'r rhai y nodwyd eu bod mewn angen canolig neu isel. Ymhellach, gall rhieni drefnu cyswllt ychwanegol â'u Hymwelydd Iechyd yn ôl y gofyn pan fydd materion penodol yn codi.

¹¹ Mae hyn yn adlewyrchu tystiolaeth o'r gwaith ymchwil ansoddol gyda theuluoedd mewn angen uchel a gynhwyswyd yn y gwerthusiad cenedlaethol o Ddechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2013a), a nododd bod 'ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn ymweld â rhieni babanod newydd-anedig yn rheolaidd fel arfer (bob wythnos neu bob mis, gan ddibynnu ar angen y teulu), ac yna bob mis neu bob dau fis wrth i'r plentyn agosáu at eu pen-blwydd cyntaf. Os nad oes gan deuluoedd anghenion parhaus y mae gofyn darparu cymorth dwys parhaus ar eu cyfer, ar ôl i'r plentyn gael eu pen-blwydd yn ddwy oed, efallai mai dim ond unwaith y flwyddyn y bydd ymwelwyr iechyd yn ymweld er mwyn cynnal archwiliadau dwy a thair blwydd oed.'

yn golygu na fyddai disgwyl i'r holl deuluoedd ymgysylltu â'r holl hawliau.

- 3.5 Yn yr adran hon, darparir gwybodaeth am niferoedd y teuluoedd yn y sampl ymchwil sydd wedi manteisio ar wahanol hawliau. Fodd bynnag, gan mai astudiaeth ansoddol yw hon, dylid dehongli hon fel gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer y canfyddiadau sy'n dilyn. Ni ddylid ystyried bod y lefelau ymgysylltu yn y sampl yn dynodi lefelau ymgysylltu cyffredinol teuluoedd ar draws y Rhaglen gyfan.
- 3.6 Roedd gan deuluoedd a gyfwelwyd ar gyfer y gwaith ymchwil hwn blant o oedrannau amrywiol, felly roeddent ar wahanol gamau o fewn rhaglen Dechrau'n Deg. O ganlyniad, gwelwyd y teuluoedd hyn yn adrodd lefelau ymgysylltu gwahanol ar gyfer y pedair hawl graidd. Yn gyffredinol, adroddodd bron pob rhiant a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 eu bod wedi ymgysylltu â'r hawl EHV (ychydig yn is nag a welwyd yn ystod Ton 1, lle'r oedd pob teulu wedi ymgysylltu â'r hawl EHV). Adroddodd tua hanner y teuluoedd a gyfwelwyd eu bod wedi ymgysylltu â'r hawliau gofal plant a rhianta ac adroddodd tua un o bob tri theulu eu bod wedi ymgysylltu â'r hawl SLC. Roedd y lefelau ymgysylltu hyn tua'r un fath ag yr oeddent yn ystod Ton 1.
- 3.7 Yn ystod yr ail gyfweiliad, holwyd teuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Tonnau 1 a 2 pa hawliau yr oeddent wedi parhau i fanteisio arnynt, pa rai yr oeddent wedi dechrau manteisio arnynt a pha rai yr oeddent wedi stopio manteisio arnynt ers Ton 1.

Yr hawl Ymweliadau Iechyd Estynedig (EHV)

- 3.8 Dywedodd cyfanswm o 48 o blith y 53 o deuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Tonnau 1 a 2 eu bod wedi parhau i fanteisio ar gymorth gan eu Hymwelydd Iechyd ers Ton 1. Nododd nifer fach o deuluoedd (5) nad oeddent wedi manteisio ar gymorth Ymwelydd Iechyd mewn ffordd weithredol ers Ton 1. Roedd y plentyn ieuengaf yn y teuluoedd hyn dros ddwy oed, ac roedd hyn yn esbonio pam na fu angen iddynt gael cyswllt â'u Hymwelydd Iechyd ers Ton 1 gan fod eu plentyn yn hŷn er-

byn hyn ac nid oedd ganddynt unrhyw broblemau iechyd.¹² Yn yr un modd, efallai nad oedd yr Ymwelydd lechyd wedi cysylltu â nhw oherwydd nad oes gofyn trefnu unrhyw ymweliadau iechyd rhwng y cysylltiadau a wneir pan fydd plentyn yn ddwy ac yn dair oed tra bod disgwyl i'r plentyn fod yn mynychu gofal plant Dechrau'n Deg (gweler troednodyn 10).

- 3.9 Holwyd teuluoedd hefyd a oeddent wedi cael cymorth gan dîm iechyd ehangach Dechrau'n Deg gan gynnwys, er enghraifft, dietegwyr neu ffisiotherapyddion. O blith y teuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Ton 1 a 2, roedd rhai ohonynt wedi parhau i fanteisio ar gymorth gan dîm iechyd ehangach Dechrau'n Deg ers Ton 1 ac roedd rhai wedi dechrau manteisio ar y cymorth hwn ers Ton 1 er mwyn rhoi sylw i faterion iechyd.
- 3.10 O ran y teuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 yn unig, roeddent i gyd wedi manteisio ar gymorth Ymwelydd lechyd ac roedd rhai wedi manteisio ar gymorth gan dîm iechyd ehangach Dechrau'n Deg megis bydwraig neu ddietegydd. Mae hyn yn debyg i'r lefelau ymgysylltu a adroddwyd gan Deuluoedd yn ystod adroddiad Ton 1 (Llywodraeth Cymru, 2016a).
- 3.11 Roedd rhesymau rhieni dros geisio cymorth gan eu Hymwelydd lechyd mewn ffordd weithredol yn debyg iawn i'r rhesymau a amlinellwyd yn adroddiad Ton 1. Er enghraifft, byddai rhieni'n cysylltu â'u Hymwelydd lechyd fel arfer pe baent yn dymuno cael unrhyw gyngor neu gymorth gyda materion penodol megis bwydo ar y fron neu ddiddychu. Roedd yn ymddangos bod perthynas teuluoedd gyda'u Hymwelydd lechyd yn dylanwadu ar y ffordd yr oeddent yn ymgysylltu â'r hawl. Roedd y rhai yr oedd ganddynt berthynas dda â'u Hymwelydd lechyd, sef y rhan fwyaf o'r teuluoedd a gyfwelwyd, yn teimlo y gallent gysylltu â nhw pe byddai angen iddynt wneud hynny.

¹² I rai teuluoedd, 9 mis oedd y bwlch rhwng eu cyfweiliadau yn ystod Ton 1 a Thon 2. Mae hyn yn golygu y gallai'r cyfweiliadau Ton 1 a 2 fod wedi cael eu cynnal rhwng asesiad 2 oed a 3 oed eu plentyn. O'r herwydd, efallai na fyddai wedi bod disgwyl iddynt ymgysylltu â'u Hymwelydd lechyd rhwng Tonnau 1 a 2.

- 3.12 Roedd oedran y plant yn tueddu i ddylanwadu ar y gweithgarwch ymgysylltu. Gan fod y plant wedi tyfu'n hŷn ers y cyfwelwyd y teuluoedd yn ystod Ton 1, bydd nifer yr ymweliadau a drefnir gan yr Ymwelydd lechyd wedi gostwng (gweler troednodyn 10). Mae'r cwestiwn yng-hylch a yw'r rhieni yn rhieni newydd neu a oes ganddynt blant hŷn yn barod yn ffactor arall sy'n cael dylanwad. Mewn rhai achosion, roedd rhieni yr oedd ganddynt fwy nag un plentyn yn credu nad oedd angen rhyw lawer o gymorth arnynt gan eu Hymwelydd lechyd. Fodd bynnag, roeddent yn adrodd bod y ffaith eu bod yn gwybod y gallent gysylltu â nhw pe byddai angen iddynt wneud hynny yn cynnig cysur iddynt.

Yr hawl gofal plant

- 3.13 O blith y 53 o deuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Tonnau 1 a 2, roedd 22 ohonynt yn manteisio ar yr hawl i gael gofal plant ar yr adeg pan gawsant eu cyfweld. Ers Ton 1, roedd 12 o'r teuluoedd hyn wedi parhau i fanteisio ar ofal plant ac roedd 10 wedi dechrau manteisio arno. Y prif reswm dros y ffaith nad oedd y teuluoedd hyn yn manteisio ar ofal plant yn ystod Ton 1, ond eu bod yn manteisio arno yn ystod Ton 2, oedd oherwydd bod eu plentyn wedi troi'n ddwy oed ers cyfweliad Ton 1 a'u bod bellach yn ddigon hen i fod yn gymwys i gael gofal plant Dechrau'n Deg.
- 3.14 Roedd cymhelliant rhieni er mwyn manteisio ar yr hawl i gael gofal plant yn debyg i'r rhai y cyfeiriwyd atynt yn ystod cyfweliadau Ton 1. Y prif gymhelliant oedd y ffaith eu bod yn dymuno i'w plentyn gymdeithasu a rhyngweithio gyda phlant eraill. I raddau llai, nododd rhai rhieni bod yr hawl i gael gofal plant yn 'rhoi seibiant iddynt' a'r cyfle i wneud pethau eraill fel gwaith tŷ, gweithio neu astudio.

'Mae'n rhoi'r cyfle i rieni ddal i fyny gyda'r siopa, gwneud pethau ac mae'n rhoi ychydig amser iddynt ymlacio.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

- 3.15 Adroddodd rhai teuluoedd nad oeddent wedi manteisio ar y gofal plant (neu eu bod wedi stopio manteisio arno) ers y cyfweliad diwethaf. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod eu plentyn wedi cael eu pen-blwydd yn dair oed ac nad oeddent yn gymwys i fanteisio ar yr hawl mwyach. Fodd bynnag, adroddodd nifer fach o deuluoedd na wnaeth eu plentyn setlo'n dda iawn yno. Esboniodd y teuluoedd hyn bod eu plentyn wedi crïo bob tro yr oeddent wedi eu gadael yn y lleoliad gofal plant, a'u bod wedi parhau i deimlo'n anhapus trwy gydol y sesiynau a fynychwyd. O ganlyniad, roedd y rhieni hyn wedi stopio anfon eu plentyn i'r gofal plant.
- 3.16 O ran yr 19 o deuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 yn unig, roedd ychydig dros hanner ohonynt wedi manteisio ar yr hawl gofal plant ac nid oedd y gweddill wedi manteisio arno. Yn yr un modd â chyfweliadau Ton 1, prif reswm y teuluoedd dros beidio manteisio ar y gofal plant oedd oherwydd nad oedd eu plentyn yn ddigon hen adeg y cyfweliad.
- 3.17 Roedd y rhwystrau a oedd yn atal rhieni rhag manteisio ar yr hawl gofal plant yn ystod Ton 2 yn debyg i'r rhai a adroddwyd yn ystod Ton 1. Roedd y rhain yn cynnwys lleoliad y lleoliadau gofal plant ac amseriad y sesiynau. Er enghraifft, adroddodd nifer fach o rieni bod amser cychwyn neu orffen y sesiynau yr un pryd ag yr oedd angen iddynt gasglu eu plant hŷn o'r ysgol, felly nid oedd modd iddynt fanteisio ar yr hawl gofal plant. Mewn achosion eraill, nododd rhai rhieni a oedd yn gweithio bod gofyn iddynt gael gofal plant am gyfnod hwy na'r sesiynau 2.5 awr a gynigir trwy Ddechrau'n Deg o ganlyniad i ymrwym-iadau gwaith.
- 3.18 O blith y rhieni a adroddodd nad oeddent wedi ymgysylltu â'r hawl gofal plant, roedd yn well gan rhai ofalu am eu plant eu hunain neu drefnu bod aelodau teuluol yn darparu gofal ar eu cyfer. Roedd eraill wedi bod yn talu i'w plentyn fynychu gofal plant nad oedd yn ofal plant Dechrau'n Deg cyn yr oedd eu plentyn yn ddigon hen i fod yn gymwys i fanteisio ar yr hawl gofal plant am ddim, ac roedd yn well ganddynt i'w plentyn aros yno pan oeddent yn ddigon hen i fanteisio ar yr hawl.

Dewisodd rhai rhieni anfon eu plentyn i ddarparwr cyfrwng Cymraeg y tu allan i ardal Dechrau'n Deg gan fod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigiwyd iddynt trwy Ddechrau'n Deg ymhellach i ffwrdd na'r pellter yr oeddent yn dymuno'i deithio.

Yr hawl rhianta

- 3.19 O blith y 53 o deuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Tonnau 1 a 2, roedd 17 o'r teuluoedd hyn naill ai wedi parhau i fanteisio ar grwpiau/cyrsiau rhianta neu wedi dechrau manteisio arnynt. Roedd saith o blith y 53 o deuluoedd naill ai wedi parhau i fanteisio ar gymorth rhianta un-i-un neu wedi dechrau manteisio arno. Roedd pum teulu wedi manteisio ar gyrsiau/grwpiau rhianta a chymorth un-i-un.
- 3.20 Yn debyg i Don 1, y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd gan rieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 am fynychu cyrsiau rhianta oedd eu bod yn credu y byddent yn cael rhyw fudd o'r cyrsiau; megis cael gwybodaeth neu ddysgu sgiliau newydd neu dystysgrifau er mwyn gwella'u rhagolygon o gael swydd yn y dyfodol (e.e. hylendid bwyd). Nododd rhieni eraill eu bod o'r farn bod y cwrs yn swnio'n ddiddorol neu eu bod yn croesawu'r cyfle i gyfarfod rhieni eraill. Roedd rhieni a oedd o'r farn bod y cyrsiau wedi bod yn ddefnyddiol yn fwy tebygol o fynychu cyrsiau eraill a gynigir.
- 'I mi, roedd y cwrs plant bach rhyfeddol a thyfino babanod yn ddefnyddiol gyda [plentyn hŷn] sawl blwyddyn yn ôl, felly roeddwn yn dymuno manteisio ar yr un peth ar gyfer [plentyn iau]. Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel
- 3.21 O ran y teuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 yn unig, roedd y canfyddiadau'n debyg i'r rhai a adroddwyd yn adroddiad Ton 1, sef bod tua hanner y teuluoedd hyn a gyfwelwyd wedi manteisio ar yr hawl rhianta. Roeddent naill ai wedi manteisio ar grwpiau/cyrsiau neu wedi cael cymorth rhianta un-i-un, neu'r ddau mewn rhai achosion.
- 3.22 Y rheswm mwyaf cyffredin a adroddwyd gan rieni dros beidio mynychu cyrsiau rhianta oedd y ffaith nad oedd y cyrsiau'n cael eu cynnal ar amser cyfleus iddynt. Rhoddwyd rhesymau unigol gan rieni, yr

oeddent yn unigryw i'w sefyllfa nhw ynghylch pam nad oedd yr amser yn addas iddynt. Er enghraifft, adroddodd nifer fach o rieni bod cwrs rhianta yn cael ei gynnal ar yr un pryd ag yr oedd angen iddynt gasglu eu plant o'r ysgol neu ar yr un pryd â gweithgareddau allgyrsiol eraill. Awgrymodd rhai rhieni a oedd yn gweithio y byddai'n haws iddyn nhw fynychu cyrsiau rhianta gyda'r hwyr.

- 3.23 Yn ogystal, roedd rhai rhieni o'r farn nad oedd y cyrsiau a gynigiwyd iddynt yn berthnasol i'w sefyllfa. Roedd diffyg gwybodaeth neu ymwybyddiaeth o gyrsiau yn rhwystr arall a oedd yn atal rhieni rhag ymgysylltu. Roedd y rhwystrau hyn a oedd yn atal pobl rhag ymgysylltu â chysiau rhianta yn debyg i'r rhai y soniwyd amdanynt yn ystod cyfeliadau Ton 1.
- 3.24 Roedd yn ymddangos bod perthynas rhieni gyda'u Hymwelydd lechyd yn dylanwadu ar eu tebygolrwydd o ymgysylltu â chysiau rhianta. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r rhai a ymgysylltodd â chysiau at y ffaith bod eu Hymwelydd lechyd wedi eu perswadio ynghylch manteision mynychu. Roedd rhieni a ddisgrifiodd y berthynas rhyngddyn nhw a'u Hymwelydd lechyd mewn ffordd fwy cadarnhaol yn tueddu i fod yn fwy tebygol o fynychu cyrsiau rhianta neu gymorth un-i-un. Roedd hyn yn arbennig o wir ymhlith teuluoedd mewn angen uchel, sy'n cael cyswllt mwy rheolaidd â'u Hymwelydd lechyd. Mewn cyferbyniad, roedd y rhai nad oeddent yn teimlo mor gadarnhaol am eu Hymwelydd lechyd, neu'r rhai yr oedd llai o barhad yn bodoli o ran eu sefyllfa (h.y. wedi newid Ymwelydd lechyd fwy nag unwaith) yn llai tebygol o ymgysylltu â chysiau ac i weld gwerth cofrestru ar neu fanteisio ar y math hwn o gymorth.

Yr hawl cymorth Lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC)

- 3.25 O blith y 53 o deuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Tonnau 1 a 2, roedd rhai teuluoedd naill ai wedi parhau i fanteisio ar wasanaethau trwy'r hawl SLC neu wedi dechrau manteisio arnynt.

- 3.26 Roedd wyth teulu naill ai wedi parhau i fanteisio ar grwpiau cymorth neu gyrsiau SLC (e.e. sesiynau IaCh) neu wedi dechrau manteisio arnynt. Yn yr un modd â Thon 1, yn Nhon 2, adroddodd y rhan fwyaf o rieni eu bod wedi mynychu grwpiau a sesiynau SLC fel bod modd iddynt gyfarfod rhieni eraill ac er mwyn i'w plant gael y cyfle i gymdeithasu â phlant eraill o'r un oed.
- 3.27 Nododd nifer sylweddol o'r 53 o deuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Tonnau 1 a 2 nad oeddent wedi manteisio ar y grwpiau SLC ers cyfweliad Ton 1. Yn aml, roedd hyn oherwydd bod eu plentyn wedi dechrau mynychu'r gofal plant yn y cyfamser, ac roedd y grŵp SLC yn cael ei gynnal ar yr un pryd â'r gofal plant. Mewn achosion eraill, roedd rhai rhieni a oedd o'r farn mai prif fudd grwpiau SLC oedd rhoi'r cyfle i'w plentyn gymdeithasu â phlant eraill, yn teimlo nad oedd angen iddynt fynychu'r grŵp SLC mwyach oherwydd y gallai eu plentyn gymdeithasu gyda phlant eraill yn y ddarpariaeth gofal plant.
- 3.28 O ran elfennau eraill yr hawl i gael SLC, roedd naw o blith y 53 o deuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Tonnau 1 a 2 wedi manteisio ar gymorth un-i-un¹³ ers Ton 1; ac roedd 12 o'r 53 o deuluoedd hyn wedi manteisio ar gymorth SLT¹⁴.
- 3.29 Fel arfer, roedd y rhai a oedd wedi manteisio ar gymorth SLC un-i-un, gan gynnwys cymorth gan SLT, wedi cael eu cyfeirio at y cymorth hwn gan aelod o staff Dechrau'n Deg. Yn y rhan fwyaf o achosion, gwnaethpwyd y cyfeiriad hwn gan Ymwelwyr Iechyd ac mewn achosion eraill, fe'i gwnaethpwyd gan staff gofal plant.
- 3.30 O ran y teuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 yn unig, roedd y canfyddiadau'n debyg i'r rhai a adroddwyd yn adroddiad Ton 1, sef bod tua un o bob tri o'r 19 o deuluoedd hyn a gyfwelwyd wedi manteisio ar

¹³ Fel arfer, darparir cymorth un-i-un i deuluoedd yn eu cartref gan staff Dechrau'n Deg fel gweithwyr cymorth i deuluoedd. Fel arfer, cyfeirir teuluoedd at y gwasanaeth hwn gan eu Hymwelydd Iechyd os bydd angen cymorth unigol wedi'i deilwra arnynt.

¹⁴ Mae cymorth SLT yn cynnwys sesiynau gydag SLT, naill ai yn y cartref, mewn lleoliad gofal plant neu mewn canolfan Dechrau'n Deg. Cyfeirir teuluoedd at SLT a gyflogir trwy Ddechrau'n Deg neu at wasanaethau SLT cyffredinol.

yr hawl SLC. Mae hyn yn dynodi mai'r hawl SLC oedd yr hawl y manteisiwyd arni leiaf gan y teuluoedd a gyfwelwyd. Dylid nodi, fodd bynnag, bod gwasanaethau a ddarparir dan yr hawl SLC yn aml yn cael eu cynnwys mewn hawliau eraill (e.e. gweithgareddau SLC mewn lleoliadau gofal plant; arweiniad a ddarparir yn ystod cyrsiau rhianta; Ymwelwyr lechyd yn modelu arfer da i rieni yn ystod ymweliadau). Felly, fel yr awgrymwyd yn yr adolygiad o'r hawl Datblygiad Iaith Gynnar (Llywodraeth Cymru, 2014b), mae hyn yn golygu ei bod yn gallu bod yn anodd i rieni eu hadnabod fel gwasanaethau SLC penodol.

- 3.31 Roedd y rhesymau a ddarparwyd yn ystod cyfweiliadau Ton 2 dros beidio manteisio ar yr hawl SLC yn debyg i'r rhesymau a ddarparwyd gan deuluoedd yn ystod Ton 1. Er enghraifft, roedd rhai teuluoedd yn teimlo nad oedd amseriad y grwpiau SLC yn gyfleus iddyn nhw oherwydd eu bod yn digwydd ar yr un pryd â gweithgareddau eraill (e.e. casglu plant o ofal plant/ysgol neu apwyntiadau eraill) neu ymrwym-iadau gwaith; roedd rhai'n teimlo'u bod yn rhy brysur ac nad oedd amser ganddynt i fynychu grwpiau; roedd rhai o'r farn nad oedd y grwpiau'n berthnasol iddyn nhw; ac nid oedd rhai'n ymwybodol o'r grwpiau SLC a ddarparir yn eu hardal.

Crynodeb: Ymgysylltu

- 3.32 Yn ôl y disgwyl, adroddodd teuluoedd a gyfranogodd yng nghyfweliadau Ton 2 am lefelau ymgysylltu amrywiol gyda'r pedair hawl graidd, gan adlewyrchu oedran eu plant yn bennaf. Yn gyffredinol, adroddodd teuluoedd yn Nhon 2 am lefelau ymgysylltu is â'r hawl EHV ond roedd eu lefelau ymgysylltu â hawliau SLC, gofal plant a rhianta yn gyson rhwng Tonnau 1 a 2.
- 3.33 Roedd y rhesymau a roddwyd gan deuluoedd dros ymgysylltu ag EHV yn ystod Ton 2 yn debyg iawn i'r rhai a adroddwyd gan deuluoedd yn ystod Ton 1. Fel arfer, byddai rhieni'n cysylltu â'u Hymwel-ydd lechyd pe byddent yn dymuno cael unrhyw gyngor neu gymorth

neu gyda materion penodol. Adroddodd y rhan fwyaf o deuluoedd Ton 2 lefelau ymgysylltu is gyda'r hawl EHV gan fod eu plant yn hŷn nawr nag yr oeddent pan gawsant eu cyfweld yn ystod Ton 1. Roedd hyn yn golygu bod eu gweithgarwch ymgysylltu â'r hawl hon yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag asesiad eu plentyn yn ddwy neu'n dair oed neu gydag unrhyw faterion iechyd neu ddatblygiadol penodol a oedd ganddynt.

- 3.34 Roedd y rhwystrau a oedd yn atal rhieni rhag manteisio ar yr hawl gofal plant yn ystod Ton 2 yn debyg i'r rhai a adroddwyd yn ystod Ton 1. Roedd y rhain yn cynnwys amseriad y sesiynau a lleoliad y lleoliadau gofal plant.
- 3.35 Roedd y lefelau ymgysylltu â'r hawliau SLC a rhianta wedi aros yn gyson rhwng Tonnau 1 a 2. Y prif rhwystrau a oedd yn atal ymgysylltu â grwpiau SLC a chysiau rhianta oedd y ffaith nad oedd yr amser yn gyfleus i rai rhieni; neu nad oedd rhieni'n ymwybodol o'r grwpiau neu'r cysiau.

4. Profiadau

- 4.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae teuluoedd yn cael profiad o bedair hawl Dechrau'n Deg a'u safbwyntiau am y gwasanaethau y maent wedi manteisio arnynt. Yn ogystal, gwneir cymariaethau â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn adroddiad Ton 1 ynghylch profiadau teuluoedd o wasanaethau Dechrau'n Deg.
- 4.2 Yn ystod y cyfveliadau, gofynnwyd i'r holl rieni sgorio'u bodlonrwydd â'r gwahanol hawliau y manteisiwyd arnynt, allan o ddeg (gydag un yn cyfateb â gwael iawn a deg yn cyfateb ag ardderchog). Yn yr adran hon, cyflwynir y sgoriau bodlonrwydd hyn fel cyfartaledd ar gyfer pob hawl. Er bod y dull gweithredu hwn yn rhoi syniad o fodlonrwydd cyffredinol teuluoedd â hawliau Dechrau'n Deg, mae cyfyngiadau iddo hefyd. Er enghraifft, gall y dull hwn o hunan-adrodd fod yn agored i duedd ymateb, sef y gallai fod wedi bod tuedd ymhlith rhai rhieni i ymateb mewn ffordd benodol waeth beth fo eu lefelau bodlonrwydd go iawn. Yn ogystal, efallai bod rhieni wedi dehongli'r raddfa un-i-ddeg yn wahanol. Gallai hyn fod wedi arwain, er enghraifft, at rieni gyda'r un lefel fodlonrwydd yn adrodd gwahanol sgoriau bodlonrwydd neu i'r gwrthwyneb.

Yr hawl Ymweliadau Iechyd Estynedig (EHV)

- 4.3 Yn gyffredinol, roedd profiadau teuluoedd o'r hawl EHV yn ystod Ton 2 yn debyg iawn i'w profiadau a amlinellwyd yn ystod Ton 1. Adroddodd y mwyafrif am brofiadau cadarnhaol, gan roi sgôr uchel i'r hawl EHV o ran eu bodlonrwydd â'r gwasanaeth yr oeddent wedi'i gael.
- 4.4 Ar gyfartaledd, rhoddodd rhieni sgôr fodlonrwydd o 8.7 allan o 10 i'r hawl EHV, o'i gymharu â sgôr gyfartalog o 8.9 allan o 10 a adroddwyd yn ystod Ton 1. Mae hyn yn dangos bod rhieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 wedi adrodd lefel fodlonrwydd uchel â'r gwasanaeth EHV yn debyg i'r rhieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 1.

- 4.5 Fel y nodwyd yn Adran 3, y prif wahaniaeth rhwng profiadau teuluoedd o'r hawl EHV rhwng cyfweiliadau Ton 1 a 2 oedd bod teuluoedd wedi cael llai o gyswllt â'u Hymwelydd Iechyd. Awgrymodd teuluoedd bod hyn oherwydd nad oedd angen cymaint o gymorth arnynt wrth i'w plant dyfu'n hŷn, a'u bod yn tueddu i gysylltu â'u Hymwelydd Iechyd os oedd ganddynt bryderon penodol am eu plentyn yn unig. Fodd bynnag, mae canllawiau Dechrau'n Deg yn amlinellu hefyd y disgwylir llai o gysylltiadau gydag Ymwelwyr Iechyd fel arfer dan y Rhaglen graidd wrth i blant fynd yn hŷn (gweler troednodyn 10).

'Nid oes gennyf gymaint o gwestiynau nawr, roeddwn yn arfer siarad â'r ymwelwyr iechyd ar y ffôn dair gwaith yr wythnos. Mae'n braf cael ychydig lonydd nawr.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

'Pe byddai gennyf broblem, mae'n siŵr y byddai wedi bod yn ddefnyddiol... Yn y dechrau, roedd yr ymwelydd iechyd wedi gwneud gwahaniaeth. Ond nid nawr.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

- 4.6 Er bod teuluoedd wedi adrodd eu bod wedi cael llai o gyswllt â'u Hymwelydd Iechyd yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf yn disgrifio sut yr oeddent yn cael cysur o wybod bod y cymorth yno ac y gallent gysylltu â'u Hymwelydd Iechyd pe byddai angen iddynt wneud hynny.

'Mae'n gwneud gwahaniaeth mawr gwybod bod rhywun yno os byddwch eu hangen...mae wastad rhywun ar gael, nid oedd hynny ar gael gyda fy mhlentyn cyntaf [nad oedd yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg].' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

'Mae'n dda gwybod bod rhywun yno 24/7 i roi help. Mae'n cynnig cysur.' Tad, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

- 4.7 Nododd rhai teuluoedd mai dim ond un ymweliad yr oeddent wedi'i gael gan eu Hymwelydd Iechyd ers y cyfweiliad yn ystod Ton 1. Roedd y rhain yn tueddu i fod yn deuluoedd mewn angen isel, a'r rheswm a roddwyd gan deuluoedd dros y gostyngiad hwn o ran yr ymgysylltu oedd bod eu plant yn hŷn erbyn hyn ac na fu angen i'w

teulu ofyn am gymorth penodol gan eu Hymwelydd lechyd. Fodd bynnag, byddai hyn yn adlewyrchu nifer ddisgwyliedig yr ymweliadau os oedd eu plentyn yn ddwy oed neu'n hŷn. Roedd hyn yn golygu bod eu hunig gyswllt â'r Ymwelydd lechyd yn tueddu i fod er mwyn cynnal asesiad y Rhestr Sgiliau Tyfu (SoGS)¹⁵ i blant dwy oed neu dair oed, a ddisgrifiwyd gan y rhan fwyaf o deuluoedd fel archwiliad dwy neu dair oed eu plentyn, gan ddibynnu ar oedran y plentyn.

- 4.8 Yn gyffredinol, nododd y rhan fwyaf o deuluoedd bod eu Hymwelydd lechyd wedi trafod canlyniadau archwiliadau datblygiadol eu plentyn gyda nhw. Roedd y rhan fwyaf yn fodlon bod lefel y wybodaeth a gawsant yn ddigonol.
- 4.9 Roedd teuluoedd a adroddodd eu bod wedi cael mwy o gyswllt gyda'u Hymwelydd lechyd yn tueddu i fod yn deuluoedd a oedd yn cynnwys plant iau. Yn debyg i'r hyn a welwyd yn Nhon 1, roedd y teuluoedd hyn wedi cael amrediad o gymorth, gan gynnwys cyngor ynghylch bwydo ar y fron a diddyfnu; help i lenwi ffurflenni cais am fudd-daliadau a helpu gyda materion tai.
- 4.10 Yn ogystal, adroddodd y rhan fwyaf o deuluoedd bod eu Hymwelydd lechyd wedi eu cyfeirio at wasanaethau eraill, yr oedd nifer ohonynt yn wasanaethau Dechrau'n Deg, megis: grwpiau SLC fel IaCh, SLT, tylino babanod, grwpiau mamau a babanod/plant bach a chysiau rhianta. Yn ogystal, adroddodd rhieni bod eu Hymwelydd lechyd wedi eu cyfeirio at wasanaethau ieuchyd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg (e.e. Meddygon Teulu, deintyddion brys, ymarferwyr ieuchyd meddwl).

'Maent wedi rhoi'r plant ar y trywydd cywir o ran y cymorth y mae ei angen arnynt.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

¹⁵ Mae'r Rhestr Sgiliau Tyfu (SoGS), a ddefnyddir gan yr holl awdurdodau lleol, yn offeryn asesu datblygiadol safonol a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol y mae angen iddynt ddarganfod lefelau datblygiadol plant. Mae ymarferwyr Dechrau'n Deg yn defnyddio'r offeryn i asesu lefel ddatblygiadol plant dwy a thair oed.

- 4.11 Yn yr un modd â'r hyn a welwyd yn ystod Ton 1, adroddodd y rhan fwyaf o deuluoedd bod ganddynt berthynas dda gyda'u Hymwelydd Iechyd. Roedd y teuluoedd hyn o'r farn ei bod yn hawdd troi at eu Hymwelydd Iechyd, eu bod yn gyfeillgar, nad oeddent yn barnu a'u bod yn ffynhonnell cymorth a chynghor da. Roedd yn ymddangos bod ansawdd dybiedig perthynas teuluoedd gyda'u Hymwelydd Iechyd wedi cael dylanwad arwyddocaol ar y graddau yr oeddent yn debygol o ddilyn eu cynghor. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â phenderfyniadau teuluoedd ynghylch a oeddent yn mynd i ymgysylltu â gweithgareddau grŵp neu gyrsiau rhianta Dechrau'n Deg. Nododd rhai rhieni eu bod wedi cael eu perswadio am fanteision mynychu sesiwn neu gwrs gan eu Hymwelydd Iechyd, er gwaethaf eu hamharodwydd cychwynnol i wneud hynny oherwydd diffyg hyder.

'Mae'r ymwelydd iechyd wedi peri i mi deimlo'n gyffyrddus i ymddiried ynddo a derbyn ei gynghor.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolog

'Rydw i'n dwli ar ymwelydd iechyd [fy mhlentyn]. Pan fydd hi'n galw, mae hi'n peri i mi deimlo'n arbennig. Mae hi'n gwybod ei gwaith.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

'Mae hi o gymorth mawr. Rydw i'n caru fy ymwelydd iechyd. Mae'n hawdd cysylltu â hi ac mae hi'n gwrandao ac yn neilltuo amser i eistedd gyda [plentyn].' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

'Roedd [yr ymwelydd iechyd] yn neis iawn. Ni wnaeth fy marnu na gorfodi unrhyw beth arnaf.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

'Mae'r cymorth bwydo ar y fron wedi fy helpu i barhau gydag ef. Byddwn wedi rhoi'r gorau iddo hebddo.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

- 4.12 Fodd bynnag, adroddodd nifer fach o deuluoedd safbwyntiau negyddol ynghylch eu profiadau o'r hawl EHV. Yn yr un modd â'r hyn a welwyd yn ystod Ton 1, roedd y safbwyntiau hyn yn ymwneud â materion

cyfathrebu yn bennaf, megis y ffaith nad oedd modd i rieni gysylltu â'u Hymwelydd lechyd. Soniodd rhai nad oeddent yn teimlo bod eu Hymwelydd lechyd yn gwrando arnynt, ac roedd eraill yn teimlo bod brys ar eu Hymwelydd lechyd yn ystod ymweliad, ac y byddent yn archwilio'u plentyn yn gyflym ac yn gadael heb roi'r cyfle iddynt drafod pethau'n llawn. Roedd teuluoedd yr oedd eu tybiaeth o'u perthynas â'u Hymwelydd lechyd yn llai cadarnhaol, yn llai tebygol o ymgysylltu â gwasanaethau eraill Dechrau'n Deg megis SLC a chyrsiau rhianta.

- 4.13 Roedd parhad o ran Ymwelwyr lechyd Dechrau'n Deg pobl yn un ffactor allweddol yr oedd yn ymddangos ei fod yn cael dylanwad ar y cwestiwn ynghylch a oedd rhieni wedi cael profiad cadarnhaol neu negyddol o'r hawl EHV. Yn yr un modd â'r hyn a welwyd yn ystod Ton 1, roedd yn ymddangos bod rhieni yr oeddent wedi cael eu cynorthwyo gan un Ymwelydd lechyd yn fwy bodlon â'r hawl na rhieni yr oeddent wedi cael nifer o wahanol Ymwelwyr lechyd.

Yr hawl gofal plant

- 4.14 Yn gyffredinol, roedd profiadau teuluoedd o'r hawl gofal plant yn ystod Ton 2 yn debyg iawn i brofiadau teuluoedd a amlinellwyd yn ystod Ton 1. Adroddodd y rhan fwyaf am brofiadau cadarnhaol, gan roi sgôr uchel i'r hawl gofal plant o ran eu bodlonrwydd â'r gwasanaeth.
- 4.15 Ar gyfartaledd, roedd rhieni wedi rhoi sgôr fodlonrwydd o 9.6 allan o 10 i'r hawl gofal plant, o'i gymharu â'r sgôr gyfartalog o 9.2 allan o 10 a adroddwyd yn ystod Ton 1. Mae hyn yn awgrymu bod rhieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 wedi adrodd lefel fodlonrwydd uchel gyda'r gwasanaeth gofal plant yn debyg i'r rhieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 1.

'Pe byddai modd i mi roi 20/10, byddwn yn gwneud hynny, mae'n drueni nad oes ganddynt ysgolion cynradd hefyd...mae'n peri i mi deimlo'n ddiogel yno. Gallaf ddibynnu arnynt ac rydw i'n gwybod ei bod hi mewn dwylo da.' Mam, 20-24, Teulu mewn angen canolig

- 4.16 Roedd rhan fwyaf y rhieni a oedd wedi manteisio ar yr hawl gofal plant o'r farn eu bod wedi cael digon o wybodaeth gan staff gofal plant cyn ac wrth fanteisio ar y ddarpariaeth, a bod y cyfathrebu gyda darparwyr gofal plant yn dda. Roedd sylwadau rhieni am y cyfathrebu hwn yn debyg i'r rhai a amlinellwyd yn adroddiad Ton 1. Er enghraifft, roedd bron pob rhiant wedi cael gwybodaeth am amseriadau'r sesiynau y byddai eu plentyn yn eu mynychu, a rhoddwyd y cyfle i nifer ymweld â'r lleoliad ymlaen llaw. Ymhellach, cafodd rhieni wybodaeth am ddatblygiad a chynnydd eu plentyn trwy gydol eu cyfnod yn y ddarpariaeth gofal plant.

'Maent yn dda iawn ac yn dweud popeth wrthyf.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

'Mae'n ddefnyddiol cael gwybodaeth am ddatblygiad fy mhientyn.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen canolig

- 4.17 Bu nifer o rieni yn myfyrion am y berthynas dda rhyngddynt a'r staff gofal plant. Cyfeiriodd rhai rhieni at enghreifftiau o achlysuron lle'r oedd staff gofal plant wedi rhoi cyngor iddynt am faterion penodol (e.e. rheoli ymddygiad eu plentyn) neu wedi rhoi tawelwch meddwl iddynt ynghylch cynnydd a datblygiad eu plentyn.

- 4.18 Fel yr adroddwyd yn ystod Ton 1, roedd teuluoedd wedi gwneud sylwadau cadarnhaol am ansawdd y gofal plant. Disgrifiodd nifer o deuluoedd sut yr oedd eu plant yn mwynhau amrediad y gweithgareddau y byddai modd iddynt gymryd rhan ynddynt yn ystod y sesiynau, a sut y gwnaeth y gofal plant alluogi eu plant i gymdeithasu â phlant eraill o oed tebyg.

'Mae'n dwli arno [gofal plant]. Mae wedi meithrin perthnasoedd trwy 'Ti a Fi' gyda'r staff. Mae hi'n awyddus iawn i adael y tŷ bob dydd,' Mam, 25-44 oed. Teulu mewn angen isel

'Mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr iddo gael cyswllt â phlant eraill yr un oed ag ef ac eithrio'i frawd.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

'Mae'r athrawes feithrin yn eu dysgu sut i rannu ac mae'n dod â nhw allan o'u cragen.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

- 4.19 Yn debyg i'r canfyddiadau a welwyd yn ystod Ton 1, ni wnaeth fawr iawn o rieni fynegi sylwadau negyddol am y ddarpariaeth gofal plant. Y prif fater a godwyd gan y rhieni hyn oedd amseriadau'r sesiynau gofal plant. Adroddodd nifer fach nad oedd yr amseriadau'n gyfleus iddynt gan eu bod yn gwrthdaro ag ymrwymïadau eraill megis cludo/casglu plant hŷn i'r ysgol neu o'r ysgol neu ymrwymïadau gwaith. Awgrymodd rhai o'r rhieni hyn nad oedd y ddwy awr a hanner y dydd o ofal plant am ddim yn ddigon hir ac y byddai sesiwn hirach yn fwy cyfleus iddyn nhw. Yn ogystal, nododd rhieni y byddai cael yr hyblygrwydd i fanteisio ar un diwrnod llawn o ofal plant trwy Ddechrau'n Deg yn fwy defnyddiol iddynt na phum bore neu brynhawn.
- 4.20 Y prif wahaniaeth sy'n ymwneud â phrofiadau teuluoedd gyda'r hawl gofal plant ers cyfweiliadau Ton 1 yw bod modd i fwy o deuluoedd wneud sylwadau am yr effaith y mae'r gofal plant wedi'i gael yn eu barn nhw, fel y mae'r adran nesaf yn ei ystyried. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd bod mwy o deuluoedd wedi manteisio ar yr hawl gofal plant adeg cyfweiliadau Ton 2. Yn ogystal, yn ystod Ton 1, adeg y cyfweiliad, dim ond newydd ddechrau manteisio ar yr hawl gofal plant yr oedd rhai o'r rhai a ymatebodd. Felly, erbyn cyfweiliadau Ton 2, byddent wedi bod yn manteisio ar y gofal plant am gyfnod hwy.

Yr hawl rhianta

- 4.21 Yn gyffredinol, roedd profiadau teuluoedd o'r hawl rhianta yn ystod Ton 2 yn debyg iawn i brofiadau teuluoedd a amlinellwyd yn ystod Ton 1. Adroddodd y rhan fwyaf am brofiadau cadarnhaol, gan roi sgôr uchel i'r hawl rhianta o ran eu bodlonrwydd â'r gwasanaeth.
- 4.22 Ar gyfartaledd, roedd rhieni wedi rhoi sgôr fodlonrwydd o 9.2 allan o 10 i'r hawl rhianta, o'i gymharu â'r sgôr gyfartalog o 8.6 allan o 10 a adroddwyd yn ystod Ton 1. Mae hyn yn awgrymu bod rhieni a gyf-

welwyd yn ystod Ton 2 wedi adrodd lefel fodlonrwydd uchel gyda'r hawl rhianta yn debyg i'r rhieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 1.

- 4.23 Mynegodd y rhan fwyaf o rieni a oedd wedi manteisio ar yr hawl rhianta safbwyntiau cadarnhaol am y cymorth a gawsant. Roedd y safbwyntiau cadarnhaol hyn, a oedd yn ymwneud ag ansawdd, defnyddioldeb a pherthnasedd y cymorth yn bennaf, yn debyg i'r rhai a fynegwyd yn ystod cyfweiliadau Ton 1.
- 4.24 Roedd teuluoedd wedi mynychu amrediad o gyrsiau rhianta gan gynnwys cyrsiau 'Blynyddoedd Rhyfeddol', tylino babanod, cyrsiau bwyd a hylendid, cyrsiau meithrin, cyrsiau cymorth cyntaf a chysiau diogelu. Gan amlaf, mynychwyd y cyrsiau hyn gan famau.
- 4.25 Roedd yn ymddangos bod y mwyafrif a oedd wedi mynychu cwrs rhianta yn gwerthfawrogi'r cyfle i wneud hynny.

'Rydw i wedi elwa cryn dipyn o'r cyrsiau...ni fyddwn i wedi mynd ar y cyrsiau hyn na chael gwybod amdanynt heb Ddechrau'n Deg.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

- 4.26 Roedd nifer o rieni a oedd wedi mynychu cyrsiau yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfarfod rhieni eraill a rhannu profiadau. Roedd hwn yn gymhelliant cyffredin i fynychu'r sesiynau. At hynny, nododd rhai rhieni eu bod wedi cadw mewn cysylltiad â rhieni eraill yr oeddent wedi eu cyfarfod ar y cyrsiau.

'Mae'n dda cael dysgu gyda rhieni eraill.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

'Roedd babanod rhyfeddol yn dda iawn – cefais gyngor da am gymorth cyntaf a bwydo, a chyfarfod nifer o rieni newydd.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

- 4.27 Yn ogystal â chyfarfod rhieni eraill, adroddodd nifer o deuluoedd eu bod wedi dysgu sgiliau newydd neu gael gwybodaeth o fynychu cyrsiau rhianta. Nododd y rhieni hyn bod y cyrsiau wedi rhoi cyngor rhianta defnyddiol iddynt megis sut i reoli ymddygiad eu plentyn neu

syniadau am weithgareddau y byddai modd iddynt eu gwneud gyda'u plentyn.

'Mae'r holl gyrsiau wedi bod o gymorth, yn enwedig y cwrs coginio. Maent wedi bod yn wych, gan roi nifer fawr o syniadau i mi am straeon, gweithgareddau ac ati.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

'Mae'r cwrs Meithrin Rhieni wedi fy helpu i ganmol fy mhlant, sut i osod rheolau a therfynau a hefyd, i feithrin fy hun...nid ydw i dan gymaint o straen nawr.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

- 4.28 Yn debyg i'r canfyddiadau a adroddwyd yn ystod Ton 1, roedd cyrsiau rhianta wedi rhagori ar ddisgwyliadau rhai rhieni o ran eu defnyddioldeb a'u perthnasedd. Nododd rhai rhieni eu bod wedi cael profiad llawer mwy cadarnhaol o'r cyrsiau rhianta nag yr oeddent wedi'i ddisgwyl. Er enghraifft, roedd rhai o'r rhieni wedi disgwyl y byddai'r cyrsiau'n 'nawddoglyd' neu y byddai'r hwylusydd yn eu barnu. Ond ar ôl iddynt fynychu, roeddent wedi gweld eu bod yn galonogol a bod yr hwyluswyr yn gefnogol.

'Rydw i mor falch fy mod i wedi mynychu'r cwrs [rhianta] gan ei fod wedi peri i mi feddwl mewn ffordd gadarnhaol. Roeddent wedi fy nhrin fel unigolyn ac wedi fy nhynnu o dwll dwfn.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen canolig

'Nid oedd fel yr oeddwn wedi disgwyl y byddai. Credais y byddai [hwylusydd y cwrs] yn dweud wrthyf yr hyn i'w wneud... Roedd yn well nag yr oeddwn i wedi ei ddisgwyl.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

- 4.29 Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o deuluoedd a oedd wedi mynychu cyrsiau rhianta o'r farn bod lleoliad ac amseriadau'r sesiynau'n gyfleus iddynt. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ohonynt y byddai modd gwell-a'r amseriadau ac y byddai cyrsiau gyda'r hwyr yn fwy cyfleus i rieni sy'n gweithio yn ystod y dydd, sef yr adeg pan gynhelir rhan fwyaf y cyrsiau.

- 4.30 Yn debyg i Don 1, roedd rhai rhieni wedi cael cynnig cymorth rhianta un-i-un, a oedd wedi cael ei deilwra'n fwy i fodloni anghenion penodol pob teulu. Roedd teuluoedd y cynigiwyd y cymorth hwn iddynt yn tueddu i fod yn deuluoedd mewn angen uchel neu'n rhieni a oedd yn rhieni am y tro cyntaf. Fel arfer, cyfeiriwyd y teuluoedd hyn at y cymorth hwn gan eu Hymwelydd lechyd. Roedd y cymorth a gynigiwyd yn cynnwys materion penodol megis cyngor am ddiogelwch yn y cartref (e.e. cyngor ynghylch gatiau babanod), diddyfnu, bwydo ar y fron, dysgu plentyn i ddefnyddio'r toiled a rheoli ymddygiad.
- 4.31 Mynegwyd safbwyntiau cadarnhaol gan y rhan fwyaf o rieni a oedd wedi cael cymorth rhianta un-i-un ynghylch defnyddioldeb y wybodaeth a'r cyngor a gawsant. Yn ogystal, yn debyg i Don 1, roedd rhieni'n gwerthfawrogi cael y cymorth hwn yn y cartref. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos nifer fach o rieni a esboniodd eu bod yn teimlo'n swil ac yn nerfus ynghylch cyfarfod pobl newydd ac felly, eu bod yn teimlo'n anghyffyrddus ynghylch mynychu cyrsiau rhianta mewn grŵp.

Yr hawl cymorth Lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC)

- 4.32 Yn gyffredinol, roedd profiadau teuluoedd o'r hawl SLC yn ystod Ton 2 yn debyg iawn i brofiadau'r teuluoedd a amlinellwyd yn ystod Ton 1. Adroddwyd profiadau cadarnhaol gan y rhan fwyaf ohonynt, gan roi sgôr uchel i'r hawl SLC o ran eu bodlonrwydd â'r gwasanaeth.
- 4.33 Ar gyfartaledd, roedd rhieni wedi rhoi sgôr fodlonrwydd o 9.0 allan o 10 i'r hawl SLC. Roedd hon yr un fath â'r sgôr gyfartalog a adroddwyd yn ystod Ton 1. Mae hyn yn awgrymu bod y rhieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 wedi adrodd lefel fodlonrwydd uchel gyda'r hawl SLC yn debyg i'r rhieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 1.

'Rydw i'n fodlon iawn eu bod [tîm SLC] yn gwneud popeth y gallant.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

- 4.34 Myfyriodd y rhan fwyaf o rieni am brofiadau cadarnhaol o'r cyrsiau neu'r grwpiau SLC (gan gynnwys IaCh). Yn debyg i Don 1, esboniodd nifer o rieni bod y grwpiau neu'r cyrsiau o fudd i'w plentyn oherwydd eu bod yn eu galluogi i gymdeithasu gyda phlant eraill o oed tebyg. Yn aml, hwn oedd prif gymhelliant rhieni er mwyn mynychu'r grwpiau. Yn ogystal, nododd rhai rhieni bod mynychu'r grwpiau yn gyfle da i adael y tŷ'.

Mae o gymorth iddo ryngweithio gyda phlant yr un oed ag ef.
Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r teulu.' Mam, 25-44
oed, Teulu mewn angen uchel

'Mae'n braf cael rhywle i fynd.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn
angen isel

- 4.35 Cyfeiriodd bron pob rhiant at y ffaith bod eu plentyn yn mwynhau mynychu'r grwpiau SLC. Yn benodol, esboniodd y rhieni hyn sut yr oedd eu plentyn yn hoffi'r gwahanol weithgareddau y maent yn eu gwneud yn y grwpiau.

'Mae hi wrth ei bodd ag amser stori ar ddiwedd y grŵp chwarae, ac mae hi'n canu'r rhigymanau y mae hi wedi'u dysgu.' Tad, 25-44
oed, Teulu mewn angen uchel

- 4.36 Er bod nifer o rieni o'r farn mai prif ddiben y grwpiau SLC oedd galluogi eu plant i gymdeithasu â phlant eraill, nododd rhai rhieni bod y sesiynau'n rhoi cyfle iddynt chwarae a rhyngweithio gyda'u plentyn. Myfyriodd rhai o'r teuluoedd hyn am y ffordd yr oedd grwpiau SLC wedi rhoi syniadau iddynt am weithgareddau i'w gwneud gyda'u plentyn yn y cartref hefyd.

'Mae wedi rhoi nifer fawr o syniadau i mi am bethau i'w gwneud gyda hi. Mae'n wych...ni allaf ddeall pam na fydd pobl yn mynychu'r rhain.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

'Er bod gennyf dri o blant, mae [Aros a Chwarae] wedi rhoi rhai awgrymiadau defnyddiol i mi ynghylch sut i chwarae gyda fy mhleintyn.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

- 4.37 Yn gyffredinol, adroddodd mwyafrif y rhieni a oedd wedi cael cymorth gan SLT am brofiadau cadarnhaol gyda'r gwasanaeth. Roedd y rhieni hyn yn fodlon â'r ffordd yr oedd yr SLT wedi cyfathrebu â'r teulu ar y cyfan, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r adborth am ddatblygiad SLC eu plentyn. Adroddodd y rhan fwyaf o rieni bod y cymorth SLT wedi gwneud gwahaniaeth o ran helpu gydag SLC eu plentyn.

'Mae wedi gwella'n aruthrol ers y [therapi] iaith a lleferydd. Mae'n gallu cael mwy o sgysiau gyda phlant yr un oed ag ef ac ni fydd yn teimlo mor rhwystredig.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen isel

'Mae'n helpu, heb os. Mae lleferydd [plentyn] yn gwella. Mae'n haws ei deall. Mae ei lleferydd yn fwy clir.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- 4.38 Fel yr adroddwyd yn ystod Ton 1, nododd rhan fwyaf y rhieni a gyfwelwyd nad oedd angen iddynt fanteisio ar ddarpariaeth Dechrau'n Deg trwy gyfrwng y Gymraeg. Adroddodd rhieni mai'r prif reswm dros hyn oedd nad oedd y teuluoedd hyn yn siarad Cymraeg. Nododd rhai o'r rhieni hyn eu bod nhw a'u plentyn wedi clywed rhywfaint o Gymraeg achlysurol pan oeddent wedi mynychu darpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Saesneg megis grwpiau IaCh neu pan fydd eu plentyn yn mynychu gofal plant.
- 4.39 Yn gyffredinol, o blith nifer fach y rhieni yr oedd gofyn iddynt gael darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cynigiwyd hyn i'r mwyafrif a bu modd iddynt fanteisio ar y ddarpariaeth hon. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y rhieni hyn am y ddarpariaeth yr oeddent wedi manteisio arni. Isod, trafodir profiadau rhieni o'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pedair hawl Dechrau'n Deg.

Yr hawl Ymweliadau lechyd Estynedig (EHV)

4.40 Roedd nifer fach o rieni a gyfwelwyd wedi manteisio ar yr hawl EHV trwy gyfrwng y Gymraeg trwy gael cyswllt ag Ymwelydd lechyd sy'n siarad Cymraeg. Roedd y rhieni hyn o'r farn bod Dechrau'n Deg wedi darparu gwasanaeth Ymweliadau lechyd digonol trwy gyfrwng y Gymraeg ac roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith bod modd i'w Hymwelydd lechyd gyfathrebu â nhw a'u plant yn Gymraeg.

4.41 Nododd rhai rhieni na chawsant Ymwelydd lechyd a oedd yn siarad Cymraeg, y byddent wedi dymuno cael y dewis hwn, a nododd rhai rhieni ei bod yn ymddangos bod prinder Ymwelwyr lechyd sy'n siarad Cymraeg yn eu hardal nhw.

'Byddai'n dda cael Ymwelydd lechyd sy'n siarad Cymraeg.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

4.42 Roedd diffyg Ymwelwyr lechyd sy'n siarad Cymraeg yn fater pwysicach i'r rhai y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt pan oedd hi'n bryd i'w plentyn gael eu hasesiad SoGS yn ddwy neu'n dair oed. Esboniodd nifer fach o rieni mai dim ond yn Saesneg yr oedd modd i'w Hymwelydd lechyd gynnal yr archwiliad datblygu, ond byddent wedi dymuno ei gael yn Gymraeg gan fod eu plentyn yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith, a bod eu dealltwriaeth o Saesneg yn gyfyngedig. Mewn un achos, dywedwyd wrth deulu y byddai myfyriwr sy'n siarad Cymraeg yn mynychu gyda'u Hymwelydd lechyd a oedd yn siarad Saesneg yn unig, er mwyn helpu i gynnal asesiad yn Gymraeg, ond nid oedd hyn wedi digwydd.

'Ar gyfer asesiadau, dylai fod modd iddynt fanteisio ar Ymwelwyr lechyd Cymraeg a dylent gynnig y gwasanaethau hyn.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

Yr hawl gofal plant

4.43 Roedd rhai teuluoedd a gyfwelwyd wedi manteisio ar ofal plant cyfrwng Cymraeg. Mynegwyd profiadau cadarnhaol o'r gofal plant gan y

teuluoedd hyn, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt o'r farn bod cael gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi helpu i wella sgiliau Cymraeg eu plentyn. Priodolodd un rhiant nad oedd yn siaradwr Cymraeg rhugl, ruglder ei phlentyn yn y Gymraeg i'r ffaith ei bod wedi cael gofal plant cyfrwng Cymraeg:

"100% o ganlyniad i'r gofal plant, ni fyddai hyn fyth wedi digwydd heb y gofal plant." Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

- 4.44 O blith y rhieni a oedd wedi anfon eu plentyn i ofal plant cyfrwng Saesneg, esboniodd nifer bod eu plentyn wedi dysgu rhywfaint o Gymraeg achlysurol yn y ddarpariaeth gofal plant (e.e. geiriau, ymadroddion, caneuon a rhigymau). Gwerthfawrogwyd hyn gan rieni, os oeddent yn ystyried addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plentyn neu beidio.
- 4.45 Mynegwyd safbwyntiau cymysg gan rieni ynghylch argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg. Nododd nifer o deuluoedd, pan gawsant wybodaeth am lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg a oedd ar gael yn eu hardal, bod y dewisiadau'n cynnwys o leiaf un darparwr gofal plant cyfrwng Cymraeg.
- 4.46 I'r gwrthwyneb, mynegwyd diffyg gwybodaeth gan rhai teuluoedd am y lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael iddynt, ac nid oedd rhai'n cofio cael gwybod bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ddewis iddynt. Esboniodd un rhiant eu bod wedi gofyn i'w Hymwelydd lechyd am wybodaeth ynghylch dewisiadau gofal plant cyfrwng Cymraeg, ac nad oeddent wedi cael y wybodaeth hon. Nododd rhai rhieni eu bod wedi cael y dewis i fynychu gofal plant cyfrwng Cymraeg trwy Ddechrau'n Deg, ond nad oedd lleoliad y darparwr yn ddigon cyfleus iddynt.
- 4.47 O blith y teuluoedd y cynigiwyd y dewis iddynt o gael gofal plant cyfrwng Cymraeg, roedd rhai wedi dewis manteisio ar hwn ac nid oedd rhai wedi dewis manteisio arno. Yn aml, roedd y cwestiwn ynghylch a oedd teuluoedd yn gwneud y dewis hwn neu beidio yn dibynnu ar benderfyniadau yr oeddent wedi'u gwneud am yr iaith yr oeddent yn

dymuno i'w plentyn gael eu gofal a'u haddysgu ynddi. Nid oedd y rhan fwyaf o deuluoedd wedi myfyrio am ansawdd y ddarpariaeth mewn lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg neu ddwyieithog cyn gwneud eu penderfyniad.

Yr hawl rhianta

- 4.48 Nid oedd fawr iawn o rieni wedi manteisio ar gymorth rhianta trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd y rhan fwyaf o gyrsiau yr adroddodd rhieni eu bod wedi'u mynychu, wedi cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Esboniodd rhieni bod hyn oherwydd nad oedd rhai neu'r rhan fwyaf o rieni a oedd yn mynychu'r cyrsiau yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, ni fynegwyd dymuniad cryf gan rieni am gyrsiau rhianta cyfrwng Cymraeg, gan gydnabod bod niferoedd y rhieni sy'n mynychu cyrsiau eisoes yn fach, beth bynnag fo'r iaith.

Yr hawl Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC)

- 4.49 Fel yr adroddom yn ystod Ton 1, roedd nifer fach o rieni wedi manteisio ar grwpiau SLC cyfrwng Cymraeg (e.e. grwpiau IaCh) ac roedd eraill wedi manteisio ar grwpiau dwyieithog tebyg. Roedd y grwpiau hyn wedi rhoi'r cyfle i deuluoedd ddysgu geiriau a chanu caneuon yn Gymraeg.

- 4.50 Nid oedd nifer fach o rieni wedi mynychu grwpiau SLC cyfrwng Cymraeg ond byddent wedi dymuno gwneud hynny. Cyfeiriodd y rhieni hyn at ddiffyg ymwybyddiaeth o'r grwpiau a allai fod ar gael iddynt, ac maent wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y grwpiau hyn.

'Efallai y byddai wedi bod yn braf cael cynnig rhai sesiynau grwpiau chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg.' Tad. 20-24 oed, Teulu mewn angen canolig

- 4.51 O blith nifer fach y teuluoedd a oedd wedi manteisio ar gymorth SLT, roedd tua hanner ohonynt wedi cael cynnig SLT a oedd yn siarad Cymraeg; adroddodd yr hanner arall nad oedd gofyn iddynt gael SLT

a oedd yn siarad Cymraeg. Roedd rhieni yr oedd eu plentyn wedi cael sesiynau gydag SLT sy'n siarad Cymraeg yn teimlo'n gadarnhaol am eu profiad o'r gwasanaeth. Yn ogystal, soniodd y rhieni hyn am y ffordd yr oedd wedi helpu i wella lleferydd, iaith a chyfathrebu eu plentyn, a nododd un rhiant ei fod wedi gwneud 'byd o wahaniaeth.'

Crynodeb: profiadau

- 4.52 Roedd profiadau a adroddwyd gan rieni o'r pedair hawl craidd yn ystod Ton 2 yn debyg i'r safbwyntiau a adroddwyd gan rieni yn ystod Ton 1. Adroddwyd lefelau bodlonrwydd uchel gyda'r gwasanaethau a ddarparir dan bob un o'r hawliau a chafwyd enghreifftiau gan y rhan fwyaf o rieni o brofiadau cadarnhaol yr oedden nhw a'u plentyn(plant) wedi'u cael trwy ymgysylltu â'r rhaglen. Mynegwyd safbwyntiau cadarnhaol gan y rhan fwyaf o rieni am ddarpariaeth gwasanaethau, gan gynnwys staff, lleoliadau, cyfleusterau, gweithgareddau ac argaeledd cymorth a darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy'r Rhaglen.
- 4.53 Yn gyffredinol, adroddodd rhan fwyaf y rhieni am berthynas dda gyda'u Hymwelydd lechyd ac roeddent o'r farn bod y cyngor a'r cymorth a gawsant wedi bod o gymorth. Roedd rhieni a esboniodd na fu angen iddynt gael unrhyw gyngor gan eu Hymwelydd lechyd yn nodi ei bod yn gysur gwybod y gallent gysylltu â'u Hymwelydd lechyd pe byddai angen iddynt wneud hynny.
- 4.54 Esboniodd mwyafrif y rhieni a oedd wedi manteisio ar yr hawl gofal plant eu bod wedi cael cyfathrebu da a digon o wybodaeth gan staff gofal plant cyn y ddarpariaeth ac yn ystod y cyfnod o fanteisio ar y ddarpariaeth. Yn ogystal, mynegwyd safbwyntiau cadarnhaol gan y rhan fwyaf o rieni ynghylch ansawdd y gofal plant, ac roeddent yn nodi bod eu plentyn yn mwynhau mynychu'r sesiynau.
- 4.55 Roedd teuluoedd wedi mynychu amrediad o gyrsiau rhianta ac roedd y rhan fwyaf yn gwerthfawrogi'r cyfle i wneud hynny gan ei fod yn eu galluogi i gyfarfod rhieni eraill, dysgu sgiliau newydd a chael gwybodaeth. Roedd rhai rhieni wedi cael cymorth rhianta un-i-un, a oedd

wedi cael ei deilwra'n fwy ar gyfer eu hanghenion penodol nhw. Roedd y rhieni hyn o'r farn bod y wybodaeth a'r cyngor a gawsant yn ddefnyddiol.

- 4.56 Roedd rhan fwyaf y rhieni a fynychodd grwpiau SLC o'r farn eu bod o fudd oherwydd eu bod wedi galluogi eu plentyn i gymdeithasu â phlant eraill, yn ogystal â rhoi'r cyfle i rieni ryngweithio â'u plentyn. Yn ogystal, adroddodd y rhai a oedd wedi cael cymorth gan SLT brofiadau cadarnhaol o'r gwasanaeth, yn enwedig y ffordd yr oedd yr SLT wedi cyfathrebu â'r teulu ac wedi rhoi adborth am ddatblygiad eu plentyn.
- 4.57 Roedd rhai rhieni wedi manteisio ar hawliau gofal plant, EHV ac SLC trwy gyfrwng y Gymraeg ond nid oedd fawr iawn o rieni wedi manteisio ar gymorth rhianta trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd gan rieni safbwyntiau cadarnhaol am ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr hawliau, ond safbwyntiau cymysg am argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Nododd rhai rhieni na chawsant Ymwelydd Iechyd a oedd yn siarad Cymraeg, y byddent wedi dymuno cael y dewis hwn. Nid oedd rhai rhieni'n cofio cael gwybod bod darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael, a nododd rhai rhieni bod gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ar gael, ond nad oedd ei leoliad yn ddigon cyfleus iddyn nhw.

5. Canlyniadau ac effeithiau tybiedig

- 5.1 Yn yr adran hon, cyflwynir y canlyniadau a'r effeithiau tybiedig a adroddir gan rieni mewn perthynas â'u cyswllt â Dechrau'n Deg. Ystyrir y graddau y mae Dechrau'n Deg wedi cael effaith ar y plentyn mewn perthynas â'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r data; lleferydd, iaith a chyfathrebu; bod yn barod ar gyfer yr ysgol; sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad; sgiliau ymarferol; ac iechyd. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn archwilio effeithiau a chanlyniadau mewn perthynas â dulliau gweithredu tuag at rianta a lles rhieni.

Canlyniadau ac effeithiau tybiedig i blant

- 5.2 Adroddodd y rhan fwyaf o rieni bod manteisio ar Ddechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn yn gyffredinol. Er bod rhai rhieni wedi sôn am y ffordd yr oedd gwasanaethau penodol megis gofal plant wedi bod yn arbennig o bwysig, soniodd nifer o rieni bod natur 'gyffredinol' gwasanaethau Dechrau'n Deg yn bwysig ar gyfer yr holl agweddau ar ddatblygiad eu plentyn:

'Mae wedi peri iddi ryngweithio mwy ac mae wedi datblygu ei lleferydd. Yn ogystal, mae wedi ei helpu i wybod sut i chwarae, ac mae wedi helpu gyda'i datblygiad yn gyffredinol.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

'Byddai fy mab wedi bod ar ôl gyda'i leferydd o hyd ac mae ei ymddygiad wedi gwella. Byddai fy merch yn mynd i chwarae, ond heb fod yn siarad nac yn deall yr hyn a oedd yn digwydd.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

Sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC)

- 5.3 Adroddwyd amrediad o enghreifftiau gan y rhan fwyaf o rieni o'r ffordd yr oedd gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi cyfrannu at leferydd, iaith a chyfathrebu (SLC) eu plant, gan gynnwys: eu bod yn fwy siaradus;

dysgu a defnyddio geiriau newydd (yn Saesneg ac yn Gymraeg); a siarad yn fwy clir.

'Roedd yn siarad yn flaenorol, ond roedd yn ei chael hi'n anodd ffurfio brawddegau. Mae wedi cael effaith ac mae wedi gwneud byd o wahaniaeth.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

'Mae'n dweud mwy o frawddeg ac mae ei leferydd yn fwy clir.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

'Gallwn gael sgwrs gydag ef nawr. Byddwn yn ei argymhell i unrhyw un.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen isel

- 5.4 Adroddodd rhai rhieni eu bod wedi arsylwi gwelliannau cyflym yn natblygiad iaith a lleferydd eu plentyn, o ran eu geirfa a'u gallu i ffurfio brawddegau.

'Ni allai fy mhlentyn ddweud ei enw o'r blaen, ond mae'n llawer mwy clir nawr. Mae ei lefel yn gwella bob 2 i 3 wythnos.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

- 5.5 Adroddodd nifer o rieni bod eu plant yn adnabod ac yn canu rhigymau newydd o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi manteisio ar SLC Dechrau'n Deg a hawliau gofal plant yn arbennig.

'Pan fydd rhigymau'n ymddangos ar y teledu, bydd y plant yn mynd yn gyffrous iawn wrth iddynt eu hadnabod.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

'Mae wastad yn dod gartref yn canu rhigymau.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

- 5.6 Gofal plant ac SLC oedd y ddau wasanaeth Dechrau'n Deg mwyaf cyffredin y cyfeiriwyd atynt o ran eu cyfraniad at ddatblygiad SLC. Awgrymodd nifer o rieni bod y rhyngweithio gyda phlant ac oedolion eraill yng ngofal plant Dechrau'n Deg wedi helpu i ddatblygu lleferydd eu plentyn:

'Mae mynd i ofal plant bob dydd wedi ei helpu i ddysgu pethau a geiriau newydd, mae'n llawer mwy siaradus ac mae'n siarad yn fwy clir o ganlyniad.' Mam, 25-44 oed. Teulu mewn angen isel

'Mae wedi sicrhau cynnydd gwych o ran ei leferydd a'i allu i ryngweithio. Rydw i'n synnu gweld faint y mae wedi datblygu. Bellach, mae'n siarad Cymraeg hefyd.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

- 5.7 Roedd y rhieni hynny a oedd wedi manteisio ar SLC ar ffurf cymorth un-i-un a sesiynau grŵp yn teimlo'i fod wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i leferydd ac iaith eu plentyn:

'Mae'r iaith a lleferydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr...roedd wedi cymryd ychydig amser i weld y budd o fynychu'r dosbarthiadau, nid oedd y sesiynau cyntaf yn hwyl. Bellach, mae gan fy mhlentyn eirfa lawnach ac mae'n gallu dweud brawddegau hirach.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

'Diolch i'r sesiynau iaith a lleferydd a'r Therapydd iaith a Lleferydd, mae [merch] yn creu mwy a mwy o synau, er ei bod hi'n hawdd colli geiriau penodol o hyd.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

Effaith ar fod yn barod ar gyfer yr ysgol

- 5.8 Adroddodd dros hanner y rhieni bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i ba mor barod y mae eu plentyn ar gyfer yr ysgol. Fodd bynnag, roedd plant cyfran sylweddol o'r teuluoedd yn y sampl yn rhy ifanc er mwyn iddynt allu gwneud sylw ynghylch a oedd Dechrau'n Deg yn cael effaith ar ba mor barod y mae eu plentyn ar gyfer yr ysgol. Felly, nid oedd y cwestiwn hwn yn berthnasol i'r teuluoedd hyn. Roedd enghreifftiau o fod yn barod ar gyfer yr ysgol yn cynnwys: sgiliau cyfrif a darllen i lefelau canolbwyntio; addasu i amser i ffwrdd o'u rhieni; a gwahanol arferion.
- 5.9 Esboniodd rhai rhieni bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i sgiliau cyfrif ac adnabod rhif eu plentyn; ac adnabod llythrennau neu wybod y wyddor.

'Mae wedi mynd o ddysgu 11 o lythrennau'r wyddor i 26 ers iddo gychwyn yn y ddarpariaeth gofal plant fis yn ôl.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolog

'Ers iddi fynd i feithrinfa Dechrau'n Deg, mae'n gallu cyfrif, mae'n gwybod ei lliwiau ac mae'n gwybod y wyddor.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

- 5.10 Awgrymodd nifer fach o rieni bod eu plentyn yn gallu dal a defnyddio pensil yn well a'u bod wedi dangos mwy o ddiddordeb mewn tynnu lluniau a phaentio o ganlyniad i Ddechrau'n Deg. Adroddwyd am well-iannau mewn lefelau canolbwyntio hefyd, gyda rhai rhieni'n myfyrion am y ffordd y mae eu plentyn yn dangos mwy o ddiddordeb mewn llyfrau ac mewn eistedd a gwrando ar straeon.

'Arferai gasáu amser stori, ond mae'n ei fwynhau erbyn hyn. Mae SLT wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol. Mae wedi bod yn anghredadwy. Ni fyddai'n eistedd ac yn gwrando o gwbl o'r blaen, ond mae'n fodlon gwrando nawr.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

- 5.11 Roedd rhai rhieni o'r farn bod gofal plant Dechrau'n Deg yn elfen bwysig er mwyn cynorthwyo eu plentyn i bontio i arferion bywyd ysgol:

'Os na fyddai hi wedi bod yn mynd i'r feithrinfa, byddai wedi bod yn gyfnod anodd iawn pan fyddai'n dechrau yn yr ysgol. Mae'n cael amser i ffwrdd ohonof i.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

'Mae'r feithrinfa wedi helpu wrth iddo bontio i'r ysgol. Gyda'i anabledd, ni fyddai'n gallu ymdopi â threulio 6 awr mewn ysgol yn syth, felly mae'r meithrin wedi bod yn help mawr!' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

Effaith ar sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad

- 5.12 Adroddodd y rhan fwyaf o rieni bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad eu plentyn o ran:

cymdeithasu; rhannu a chymryd tro; rhyngweithio ag oedolion; pyliau o dymer a rheoli dicter; delio â sefyllfaoedd heriol; hyder; a hapusrwydd.

- 5.13 Awgrymodd mwy na thri chwarter y rhieni a gyfwelwyd bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn o ran cymdeithasu a chwarae gyda phlant eraill. Cyfeiriodd rhieni at enghreifftiau o'r ffordd yr oedd holl wasanaethau Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth, er enghraifft: cyngor gan Ymwelydd lechyd ynghylch sut i ddelio ag ymddygiad ymlynol mewn plant a gwella'u sgiliau cymdeithasol; sesiynau IaCh yn cynnig cyfle da i gymdeithasu i ffwrdd o rieni ac yn gam i ofal plant; cyfleoedd i gymysgu â phlant eraill yn gynnar mewn grwpiau rhianta; a gofal plant yn annog rhyngweithio pellach gyda phlant ac oedolion i ffwrdd o rieni.

'Roedd fy mhientyn i mor ar wahân a swil, bellach, mae hi'n cymdeithasu mwy ac yn dod yn fwy hyderus.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

'Mae wedi ei thynnu allan o'i chragen. Mae'n dwli rhyngweithio gyda'r plant eraill.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

'Rydw i'n credu bod ei phersonoliaeth ychydig yn amlycach. Roedd hi'n swil o'r blaen. Mae ychydig yn fwy annibynnol nawr.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

- 5.14 Adroddodd y rhan fwyaf o rieni bod Dechrau'n Deg, a grwpiau gofal plant ac SLC yn arbennig, wedi gwneud gwahaniaeth i hyder eu plentyn. Nododd rhieni bod eu plant yn aml yn swil cyn mynychu'r sesiynau, ond eu bod wedi sylwi eu bod yn fwy hyderus ac yn fwy parod i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

'Mae sesiynau iaith a chwarae wedi tynnu fy merch allan o'i chragen, arferai fod yn eithaf swil, ond nid ers iddi fod yn mynd i'r grwpiau.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

'Mae hi'n gallu gwneud ffrindiau'n well ac mae'n fodlon chwarae gydag eraill nawr. Mae hi'n llawer mwy hyderus o gwmpas plant

eraill – cyn hynny, roedd hi'n swil iawn ac roedd arni ofn siarad â phobl.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

- 5.15 Adroddodd rhieni yn aml hefyd eu bod wedi gweld gwahaniaeth ym mharodrwydd eu plentyn i rannu eitemau neu gymryd tro gyda phlant eraill.

'Ers y gofal plant, mae hi wedi dysgu rhannu a chymryd tro, ac mae'n gwrando mwy.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

- 5.16 Adroddodd mwy nag un o bob tri rhiant bod Dechrau'n Deg wedi helpu i roi sylw i byliau o dymer plant a'r ffordd y maent yn rheoli dicter. Yn fwy penodol, adroddodd rhieni bod y cyngor yr oeddent wedi'i gael gan eu Hymwelydd Iechyd wedi eu helpu i reoli pyliau o dymer eu plentyn a bod strwythur gofal plant wedi helpu i leihau ymddygiad negyddol yn y cartref.

Effaith ar sgiliau ymarferol

- 5.17 Holwyd rhieni am y graddau yr oeddent yn credu bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i sgiliau ymarferol eu plentyn. Yn gyffredinol, roedd rhieni'n llai tebygol o adrodd bod Dechrau'n Deg wedi dylanwadu ar sgiliau ymarferol eu plant, nag yr oedd wedi dylanwadu ar feysydd eraill o'u datblygiad; fodd bynnag, fel yr adroddwyd yn ystod Ton 1, roedd nifer o rieni'n teimlo bod gofal plant Dechrau'n Deg yn arbennig wedi cyflawni rôl bwysig wrth gadarnhau'r sgiliau ymarferol yr oedd plant yn eu datblygu yn y cartref.

'Cymysgedd o'r cartref a'r meithrin sydd wedi helpu wrth ddefnyddio cylllell a fforc a gallu dal pensil.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

- 5.18 Roedd ychydig dan hanner y rhieni'n teimlo bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau ymarferol eu plentyn mewn perthynas â defnyddio cylllell a fforc a chwpan. Yn arbennig, roedd nifer o rieni'n teimlo bod yr agweddau cymdeithasol ar sesiynau IaCh a gofal plant, lle y gall eu plentyn weld yr hyn y mae staff a phlant eraill yn ei

wneud, yn bwysig wrth ddatblygu'r sgiliau hyn. Yn ogystal, adroddodd tua un o bob tri rhiant effaith gadarnhaol ar sgiliau eu plentyn mewn perthynas â thacluso a brwsio'u dannedd.

'Mae'n llawer mwy annibynnol ac yn fodlon gwneud rhagor o bethau ar ei ben ei hun, er enghraifft, paratoi ei frechdan ei hun neu helpu gyda'r coginio, ac mae wedi dysgu hyn o'r gweithgareddau a gynhelir yn Dechrau'n Deg.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

'Bellach, mae fy mhlentyn yn helpu arweinydd y grŵp i dacluso, mae'n gweld plant arall yn gwneud hynny ac mae o'r farn ei fod yn beth hwyliog.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

- 5.19 Adroddodd tua un o bob tri rhiant bod y cymorth a'r cyngor yr oeddent wedi'i gael gan yr Ymwelydd lechyd a gofal plant wedi helpu i ddysgu eu plentyn i ddefnyddio'r toiled, o ran dilyn dull gweithredu llwyddianus a lle'r oedd rhieni wedi cael profiad gyda phlant eraill, ei gychwyn yn gynharach.

'Roeddwn yn teimlo ychydig yn amheus am y cam o'i anfon [i'r meithrin] mewn pans, ond roeddent wedi gwneud pwynt o fynd ag ef i'r toiled amser byrbryd.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

'Ni ddechreuodd fy mhlant hŷn ddefnyddio'r pot nes oeddent yn hŷn. Cawsom gyngor gan Ddechrau'n Deg i gyflwyno'r pot yn gynharach, ac mae wedi cael effaith gadarnhaol. Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

- 5.20 Adroddodd tua chwarter y rhieni am welliannau mewn arferion wrth fynd i'r gwely ac arferion cysgu. Yn arbennig, ystyriwyd bod cyngor gan Ymwelwyr lechyd a sesiynau rhianta megis tylino babanod, wedi bod o gymorth arbennig. At hynny, bu rhai o'r rhieni hyn yn myfyrio am y ffordd yr oedd technegau yr oeddent wedi'u dysgu pan oedd eu plentyn yn faban yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus o hyd.

'Rydym yn gwneud tylino babanod o hyd nawr os bydd hi'n cael noson wael, mae'n ymddangos ei fod yn ei setlo hi.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

Effaith ar iechyd

- 5.21 Adroddodd ychydig dan hanner y rhieni bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith ar adnabod materion iechyd yn eu plant. Cyfeiriodd rhieni at enghreifftiau o'r ffordd yr oedd aelodau o dîm Dechrau'n Deg, fel Ymwelwyr Iechyd a staff gofal plant, wedi nodi amrediad o fân faterion a materion mwy cymhleth megis brech glytiau, ecsema, asthma, pydredd dannedd, alergeddau ac anoddefiad bwyd ac ati.

'Roedd yr ymwelydd iechyd yn gwybod yn syth bod ganddi anoddefiad i lactos a pha fwydydd y dylid dechrau eu rhoi iddi.' Tad, 25-44 oed, teulu mewn angen uchel

- 5.22 Mewn rhai achosion, esboniodd rhieni bod staff Dechrau'n Deg wedi gallu rhoi cyngor i rieni yn uniongyrchol er mwyn delio â'r broblem, megis argymhell gwasanaeth cyfryngu priodol am fân materion iechyd fel brech glytiau a llindag y geg. Yn ogystal, adroddodd rhieni y bu modd i staff Dechrau'n Deg wneud cyfeiriadau i weithwyr iechyd proffesiynol eraill (e.e. ffisiotherapyddion, deintyddion a dietegwyr) er mwyn datrys problemau mwy cymhleth fel materion deintyddol a symudedd ac alergeddau bwyd.

'Mae'r ymwelydd iechyd wedi helpu gyda diet ac mae wedi rhoi cyngor ynghylch newid llaeth. Rydym wedi cael help gan ddietegydd hefyd ynghylch diddyfnu, a oedd yn dda. Yn ogystal, helpodd yr ymwelydd iechyd gyda chyfeiriad at baediatregydd ynghylch gwella'r bogail.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

- 5.23 Fel yr adroddwyd yn ystod Ton 1, roedd Ymwelwyr Iechyd yn aml yn cael eu hystyried fel sianel allweddol gwybodaeth a mynediad rhwng teuluoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Er bod y rôl gyfryngol hon yn bwysig i'r holl grwpiau o rieni, roedd rhieni heb unrhyw sgil-

iau Saesneg neu yr oedd lefel eu sgiliau Saesneg yn wael, yn aml yn myfyrio am y ffordd yr oedd eu Hymwelydd Iechyd wedi eu helpu i or-esgyn rhwystrau ieithyddol a manteisio ar wasanaethau iechyd:

'Mae'r ymwelydd iechyd wedi gwneud cyfeiriadau ar gyfer plant e.e. cyfeirio at ysbyty ynghylch alergedd llaeth, yn ogystal â helpu i wneud apwyntiadau arferol gyda meddyg teulu nad oes modd i mi eu gwneud gan nad wyf yn siarad Saesneg yn ddigon da.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

- 5.24 Gwelwyd rhai achosion hefyd lle'r oedd rhieni'n teimlo bod cyfeiriad gan aelod o dîm Dechrau'n Deg, yr Ymwelydd Iechyd fel arfer, wedi arwain atynt yn cael gweld y gweithiwr proffesiynol priodol yn gynt.

'Mae'r plant wedi cael heintiau/alergeddau dan amheuaeth amrywiol, a bu modd i'r ymwelydd iechyd roi cyngor a chyfeiriadau yn gyflymach na thrwy droi at y meddyg teulu.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

Canlyniadau ac effeithiau tybiedig i rieni

- 5.25 Roedd mwyafrif helaeth y rhieni a gyfwelwyd yn teimlo bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol arnyn nhw yn gyffredinol, o ran eu sgiliau rhianta a'u gwybodaeth ac o ran lles y teulu. Roedd yr effeithiau: yn seico-gymdeithasol o ran yr hyder ychwanegol a'r ffaith eu bod yn cael cysur o wybod bod modd troi at gymorth a chynghor a'i fod ar gael; ac yn ymarferol o ran y cyngor, y wybodaeth a'r cymorth yr oedd rhieni wedi'i gael o ymgysylltu â'r rhaglen.

'Mae wedi cael effaith arnom ni fel teulu, gan wybod bod rhywun ar ben arall y ffôn, a chan gwybod bod grwpiau ar gael.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

Ymagwedd tuag at rianta

- 5.26 Fel yr adroddwyd yn ystod Ton 1, adroddodd y rhan fwyaf o rieni bod Dechrau'n Deg wedi eu helpu gydag amrediad o sgiliau ymarferol mewn perthynas â'u hymagwedd tuag at rianta, gan gynnwys: syniadau am weithgareddau y gallent eu cyflawni gyda'u plant; diet ac arferion yn ystod prydau bwyd; cynorthwyo dysgu eu plant; a rheoli ymddygiad.

'Mae'n fy ngwneud yn fwy ymwybodol i chwarae rhywbeth, i wneud gweithgareddau, [mae fy rianta yn] cymryd mwy o ran ac mae'n fwy strwythuredig, diolch i'r syniadau a'r cyngor a gafwyd gan y ddarpariaeth gofal plant.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

'Rydw i'n llai tebygol nawr o neidio i mewn a dweud y drefn wrthynt os byddant wedi gwneud llanast. Rydw i'n fwy digyffro a byddaf yn siarad â nhw yn lle hynny... byddaf yn defnyddio llai o siarad baban, gan siarad â nhw mewn ffordd gywir.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

- 5.27 Cyfeiriwyd at yr Ymwelydd Iechyd, cyrsiau coginio a Babanod Rhyfeddol wrth wella gwybodaeth am fwydydd iach a ryseitiau, a gwella diet eu plant. Yn yr un modd â Thon 1, roedd rhieni'n aml yn siarad am y ffordd yr oedd cymorth trwy Ddechrau'n Deg wedi rhoi syniadau newydd iddynt am brydau bwyd, a'u hannog i roi cynnig ar wahanol fwydydd gyda'u plant a'u bod wedi cael cyngor ynghylch sut i wneud hyn:

'Trwy Ddechrau'n Deg, rydw i wedi dysgu syniadau newydd am ryseitiau iach.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

'Mae'n anodd ei blesio, felly gallaf guddio bwydydd nawr.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

- 5.28 Roedd ychydig dros hanner y rhieni'n teimlo bod Dechrau'n Deg wedi helpu i wella'u hymagwedd tuag at rianta o ran cynorthwyo dysgu eu plentyn. Esboniodd rhieni bod Dechrau'n Deg wedi rhoi'r wybodaeth a'r hyder iddynt i wneud hyn.

'Mae gennyf fwy o hyder nawr ac rydw i'n gwybod yr hyn i'w wneud....cyn hynny, ni fyddwn yn eistedd ac yn darllen gydag ef, ond erbyn hyn, mae'n awyddus iawn gyda'r canu a'r darllen.'

Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

- 5.29 Awgrymodd tua dau o bob tri rhiant bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith ar y ffordd y maent yn cyfathrebu â'u plentyn, ac mae hyn mewn cyferbyniad â chanfyddiadau Ton 1, lle y cyfeiriwyd at hyn yn llai aml. Barnwyd bod sesiynau grŵp fel y Rhaglen Meithrin Rhieni (PNP) a'r gwaith un-i-un a gaiff ei hwyluso gan Weithwyr Teuluoedd, wedi gwneud gwahaniaeth. At hynny, adroddodd rhai rhieni eu bod yn manteisio ar y wybodaeth a gawsant mewn cyrsiau a fynychwyd ganddynt yn y gorffennol o hyd.

- 5.30 Disgrifiodd un rhiant bod y gweithiwr teulu wedi bod o gymorth arbenig wrth ei helpu i gyfathrebu â'i merch:

'Hi oedd fy mhlentyn cyntaf, felly nid oeddwn yn siŵr sut i chwarae a chysylltu â hi.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

Aeth ymlaen i ddisgrifio sut y mae'n parhau i fanteisio ar y cyngor a gafodd yn ystod y cwrs PNP er mwyn helpu i reoli ymddygiad ei merch:

'Mae'r cyngor a gefais wedi fy helpu i reoli a chyfathrebu gyda fy mhlant.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

- 5.31 Yn ogystal, cyfeiriwyd at effeithiau cadarnhaol ar fwydo ar y fron, diddyfnu (gan gynnwys mwy o wybodaeth am ddiet a maeth) a diogelwch yn y cartref gan tua un o bob tri o'r rhieni. Yn yr un modd â Thon 1, disgrifiodd nifer fach o rieni sut yr oeddent wedi cael cymorth a chyngor am fwydo ar y fron a diddyfnu ac mewn rhai achosion, eu bod wedi parhau i fwydo ar y fron am gyfnod hwy nag y gwnaethant gyda phlant eraill.

- 5.32 Roedd dros hanner y rhieni'n teimlo bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y maent yn rheoli ymddygiad eu plentyn.

Gwerthfawrogwyd cyrsiau rhianta fel PNP am y cyngor y maent yn ei roi i rieni am reoli ymddygiad:

'Mae wedi gwneud gwahaniaeth go iawn a chefais lawer o gyngor defnyddiol ynghylch sut i ddefnyddio terfynau a chael 'amser allan'. Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

- 5.33 Darparwyd rhai enghreifftiau hefyd a oedd yn dangos sut yr oedd cyngor gan staff Dechrau'n Deg wedi helpu i wella diogelwch yn y cartref. Adroddodd rhieni bod Ymwelwyr Iechyd a Gweithwyr Teuluoedd wedi helpu i adnabod a rhoi sylw i beryglon posibl yn y cartref e.e. gwneud cais i elusennau am gatiau grisiau, rhoi cyngor am orchuddion plygiau a helpu i drwsio gollyngiadau.

Lles rhieni a theuluoedd

- 5.34 Adroddodd y rhan fwyaf o deuluoedd eu bod yn teimlo fel pe baent yn cael cymorth da a bod ganddynt fwy o hyder yn eu sgiliau rhianta. Yn yr un modd â Thon 1, roedd hi'n beth cyffredin i'r rhieni gyfeirio at y ffaith eu bod yn 'teimlo cysur', 'eu bod yn cael cymorth' ac yn 'fwy hyderus' o wybod bod cymorth ar gael pe byddent ei angen, boed hynny dan drefniant un-i-un neu mewn sesiwn grŵp.

'Roedd tad [y ferch] yma am y mis cyntaf, yna symudodd yn ôl i Loegr, felly er bod gennyf lawer o deulu, dim ond fi a hi oedd hi. Felly roedd y ffaith fy mod yn mynd i rywbeth wedi rhoi mwy o hyder i mi. Gwybod bod rhywbeth i'w fynychu bob wythnos. Os byddai unrhyw fater bach yn codi, fel y ffaith nad oedd hi'n yfed llawer o laeth, byddwn yn meddwl, 'o, byddaf yn holi am hynny ddydd Llun'. Roedd hi'n gysur bod rhywun yno.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

- 5.35 Yn ogystal, roedd rhai rhieni o'r farn bod staff Dechrau'n Deg yn arbenigwyr ac felly, bod gan eu cyngor nhw fwy o hygyrddedd:

'Rydw i'n teimlo'n fwy hyderus gan fy mod yn cael cyngor proffesiynol yn hytrach na chyngor gan bobl sydd wedi cael plant yn unig.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

- 5.36 O'i gymharu â Thon 1, gwnaethpwyd cyfeiriad at yr effeithiau cymdeithasol cadarnhaol o fod yn gysylltiedig â Dechrau'n Deg yn amlach, a disgrifiodd rhai rhieni y ffordd y maent yn mwynhau'r cyfle i gymdeithasu, ac i wneud ffrindiau newydd mewn grwpiau. Cyfeiriodd rhai rhieni at y ffaith bod Dechrau'n Deg yn cynnig cyfle i adael y tŷ, yn enwedig y rhieni a oedd yn ffoaduriaid a gyfrannodd at y gwaith ymchwil.

'Mae'n beth da i'r ddau ohonom, neu ni fyddem yn gadael y tŷ.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

'Nid ydw i'n teimlo'n hyderus i fynd allan ar fy mhen fy hun, mae cyrsiau Dechrau'n Deg yn fy ngwthio.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

- 5.37 Adroddodd dros hanner y rhieni bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu lles. Roedd rhai rhieni'n gallu cynnig sawl enghraifft o'r ffordd yr oedd Dechrau'n Deg wedi helpu i ddelio â materion iechyd meddwl trwy wneud cyfeiriadau at feddyg teulu a gwasanaethau iechyd meddwl. Adroddodd nifer o'r rhieni hyn welliannau yn eu cyflyrau o ganlyniad.

- 5.38 Gwerthfawrogwyd gofal plant Dechrau'n Deg gan rhai rhieni oherwydd ei fod yn rhoi amser i'w hunain iddynt, i wneud gwaith tŷ a hyd yn oed mewn nifer fach o achosion, roedd wedi galluogi rhieni i fanteisio ar neu i barhau i gael hyfforddiant a neu gyflogaeth.

'Mae'r gofal plant wedi fy helpu. Os na fyddai modd i mi fanteisio ar hwnnw, ni fyddai gennyf unrhyw un i gymryd y plant. Mae'n rhoi seibiant i mi.' Tad-cu/Taid neu Fam-gu/nain, dros 50 oed, Teulu mewn angen uchel

'Heb Ddechrau'n Deg, ni fyddwn i wedi ystyried mynd allan i weithio. Rydw i'n teimlo'n well yn fy hun gan wybod fy mod i

allan yn gweithio ac yn darparu ar gyfer fy mhlentyn.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

'Mae'r gofal plant wedi helpu gryn dipyn gyda fy sefyllfa hunangyflogedig – mae'n golygu bod modd i mi fwrw ymlaen gyda phethau eraill.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

Crynodeb: Effaith dybiedig

5.39 Roedd y rhan fwyaf o rieni o'r farn bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn. Roedd rhai rhieni'n teimlo bod gwasanaethau penodol (e.e. gofal plant neu SLT) wedi bod yn arbennig o bwysig i agwedd ar ddatblygiad eu plentyn, ond roedd y rhan fwyaf yn tueddu i bwysleisio'r manteision 'cyffredinol' o gael gwasanaethau. Roedd rhai rhieni'n teimlo bod y Rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol 'anuniongyrchol' ar ddatblygiad eu plentyn, ar sail y sgiliau yr oeddent wedi'u meithrin fel rhiant.

5.40 Adroddodd y rhan fwyaf o rieni eu bod o'r farn bod y Rhaglen wedi cael effaith ar yr agweddau canlynol ar ddatblygiad eu plentyn:

- Sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu;
- Bod yn barod ar gyfer yr ysgol;
- Sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad;

Yn ogystal, adroddodd rhai rhieni bod y Rhaglen wedi cael effaith ar sgiliau ymarferol eu plentyn (e.e. defnyddio'r toiled, arferion cysgu) ac ar eu hiechyd (e.e. adnabod materion iechyd a rhoi cyngor).

5.41 Roedd y rhan fwyaf o deuluoedd yn teimlo bod y Rhaglen yn cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a'u sgiliau rhianta yn gyffredinol, ac ar les cyffredinol eu teulu. Cyfeiriodd y rhieni yn ystod Ton 2 at y mathau hyn o effeithiau'n amlach nag y gwnaeth y rhieni yn ystod Ton 1, a nododd nifer eu bod yn parhau i ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau yr oeddent wedi'u sicrhau gan y Rhaglen cyn eu cyfweliad yn ystod Ton 1. Adroddodd y rhan fwyaf o rieni bod Dechrau'n Deg wedi

cael effaith gadarnhaol ar yr agweddau canlynol ar eu sgiliau a'u gwybodaeth:

- Eu hymagwedd tuag at rianta;
- Eu hymagwedd tuag at gynorthwyo dysgu eu plentyn;
- Sut y maent yn cyfathrebu â'u plentyn;
- Sut y maent yn rheoli ymddygiad eu plentyn;
- Hyder rhieni a'r graddau y maent yn teimlo'u bod yn cael eu cynorthwyo mewn ffordd dda
- Lles rhieni.

Ymhellach, adroddodd rhai rhieni am effeithiau cadarnhaol ar fwydo ar y fron, diddyfnu a diogelwch yn y cartref, yn ogystal â'r ffaith bod ganddynt fwy o amser i'w hunain i gwblhau tasgau o gwmpas y tŷ.

6. Casgliadau

- 6.1 Mae'r adran hon yn cynnig crynodeb o ganfyddiadau gwaith maes Ton 2 gyda theuluoedd o ran cyswllt rhieni gyda Dechrau'n Deg, eu profiadau o'r hawliau a'u tybiaethau ynghylch y canlyniadau a'r effeithiau arnyn nhw a'u plant.

Ymgysylltu

- 6.2 Roedd lefelau ymgysylltu â Dechrau'n Deg y teuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 yr astudiaeth hon yn gymharol debyg i lefelau ymgysylltu y teuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Ton 1. Roedd lefelau ymgysylltu â'r hawliau yn parhau i amrywio o fewn carfan y teuluoedd, ac mae'n ymddangos bod sawl ffactor yn dylanwadu arno, gan gynnwys: oedran y plentyn(plant); profiad a hyder rhieni; lefelau angen teuluoedd a grym perthynas rhieni gyda staff y Rhaglen (Ymwelwyr lechyd yn arbennig).
- 6.3 Roedd y rhesymau a roddwyd gan deuluoedd dros ymgysylltu ag EHV yn ystod Ton 2 yn debyg iawn i'r rhai a adroddwyd gan deuluoedd yn ystod Ton 1. Fel arfer, byddai rhieni'n cysylltu â'u Hymwelwydd lechyd os byddai angen iddynt gael unrhyw gyngor neu gymorth am faterion penodol. Adroddodd y rhan fwyaf o deuluoedd Ton 2 lefelau ymgysylltu is â'r hawl EHV gan fod eu plant yn hŷn erbyn hyn nag yr oeddent pan gawsant eu cyfweld yn ystod Ton 1. Roedd hyn yn golygu bod eu hymgysylltu â'r hawl hon yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag asesiad eu plentyn yn ddwy neu'n dair oed yn bennaf, neu gydag unrhyw faterion ieuchyd neu ddatblygiadol penodol a allai fod ganddynt.
- 6.4 Roedd y rhwystrau a oedd yn atal rhieni yn ystod Ton 2 rhag manteisio ar yr hawl gofal plant yn debyg i'r rhai a adroddwyd yn ystod Ton 1. Roedd y rhain yn cynnwys amseriad y sesiynau a lleoliad y lleoliadau gofal plant.
- 6.5 Roedd lefelau ymgysylltu ag SLC a hawliau rhianta wedi aros yn gysylltiedig rhwng Tonnau 1 a 2. Y prif rhwystrau a oedd yn atal ymgysylltu

gyda grwpiau SLC a chysiau rhianta oedd y ffaith nad oedd yr amser-
iadau'n gyfleus i rai rhieni; neu'r ffaith nad oedd rhieni'n ymwybodol
o'r grwpiau neu'r cyrsiau.

Profiadau

- 6.6 Roedd gan y rhan fwyaf o rieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 safbwynt-
iau cadarnhaol am ansawdd gwasanaethau Dechrau'n Deg yr oedd-
ent wedi'u cael ac roedd eu profiadau o'r hawliau yn gymharol debyg i
brofiadau'r teuluoedd hynny a gyfwelwyd yn ystod Ton 1. Adroddwyd
lefelau bodlonrwydd uchel gyda'r gwasanaethau a ddarparwyd dan
bob un o'r hawliau. Roedd hyn yn cynnwys safbwyntiau cadarnhaol
am amrediad o agweddau ar ddarparu gwasanaeth gan gynnwys
staff, lleoliadau, cyfleusterau, gweithgareddau ac argaeledd darpar-
iaeth cyfrwng Cymraeg a chymorth trwy'r Rhaglen.
- 6.7 Gallai'r rhan fwyaf o rieni gynnig enghreifftiau o brofiadau cadarnhaol
yr oedden nhw a'u plentyn(plant) wedi'u cael trwy ymgysylltu â'r rhag-
len. Er enghraifft, adroddodd y rhan fwyaf o rieni am berthynas dda
gyda'u Hymwelydd lechyd ac roeddent o'r farn bod y cyngor a'r cym-
orth a gawsant wedi bod o gymorth. Esboniodd mwyafrif y rhieni yr
oeddent wedi manteisio ar yr hawl gofal plant eu bod wedi cael cyf-
athrebu da gan staff gofal plant. Roedd rhieni a oedd wedi mynychu
cwrw rhianta yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y cyrsiau'n eu galluogi i gyf-
arfod rhieni eraill, i ddysgu sgiliau newydd ac i gael gwybodaeth.
Roedd mwyafrif y rhieni a oedd wedi manteisio ar grwpiau SLC o'r
farn eu bod yn fuddiol oherwydd eu bod wedi galluogi eu plentyn i
gymdeithasu â phlant eraill, yn ogystal â rhoi'r cyfle i rieni ryngweithio
â'u plentyn.
- 6.8 Nododd y rhan fwyaf o'r rhieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 nad oedd
angen iddynt fanteisio ar ddarpariaeth Dechrau'n Deg trwy gyfrwng y
Gymraeg. Adroddodd rhieni mai'r prif reswm dros hyn yw nad oedd y
teuluoedd hyn yn siarad Cymraeg. Nododd rhai o'r rhieni hyn eu bod
nhw, a'u plentyn, wedi clywed rhywfaint o Gymraeg achlysurol pan

wnaethant fynychu darpariaeth Saesneg Dechrau'n Deg, megis grwpiau IaCh, neu pan oedd eu plentyn wedi mynychu gofal plant.

- 6.9 Roedd gwasanaethau Cymraeg ar gael ac roedd y rhan fwyaf o rieni a nododd bod angen iddynt eu cael, wedi manteisio arnynt. Rhoddodd y rhieni hyn adborth cadarnhaol am y ddarpariaeth yr oeddent wedi manteisio arni. Fodd bynnag, adroddodd rhai rhieni na fu modd iddynt fanteisio ar Ymwelwyr Iechyd a oedd yn siarad Cymraeg, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi gofyn am y gwasanaeth hwn. Roedd hwn yn fater arbennig i deuluoedd Cymraeg y cynhaliwyd asesiadau datblygiadol eu plant yn Saesneg yn hytrach nag yn Gymraeg pan oeddent yn ddwy neu'n dair oed. Nododd rhai teuluoedd y byddent wedi dymuno cael cynnig grwpiau SLC neu gyrsiau rhianta Cymraeg.

Effaith dybiedig

- 6.10 Roedd y rhan fwyaf o rieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 o'r farn bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn, ac adroddwyd bod y Rhaglen wedi bod o fudd iddyn nhw fel rhiant. Er ei bod yn bwysig cydnabod y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â dadansoddi effeithiau wedi'i seilio ar brofiadau a hunan-adroddwyd, mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o deuluoedd yn ystod Ton 2 yn barnu bod y Rhaglen o fudd iddyn nhw a'u plentyn. At hynny, mae natur hydredol yr astudiaeth hon wedi cynnig cyfle i archwilio'r graddau yr oedd enghreifftiau o effeithiau a adroddwyd gan rieni yn ystod Ton 1 wedi cael eu harsylwi gan yr holl rieni yn ystod carfan Ton 2
- 6.11 Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o rieni o'r farn bod y Rhaglen wedi cael effaith ar dair agwedd benodol ar ddatblygiad eu plentyn. Yn gyntaf, roedd y rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith ar sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu plentyn. Yn ail, roedd y rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod eu plentyn yn fwy parod i ddechrau'r ysgol oherwydd eu bod wedi manteisio ar ddarpariaeth Dechrau'n Deg. Yn drydydd, roedd y rhan fwyaf o rieni o'r farn bod

sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad eu plentyn wedi datblygu trwy fanteisio ar wasanaethau trwy'r Rhaglen.

- 6.12 Adroddodd rhai rhieni bod y Rhaglen wedi cael effaith ar sgiliau ymarferol eu plentyn. Roedd hyn yn cynnwys tybiaeth bod y Rhaglen wedi cynorthwyo cynnydd eu plentyn wrth ddysgu defnyddio'r toiled a'u harferion cysgu. Roedd rhai rhieni'n teimlo hefyd bod y Rhaglen wedi cael effaith ar iechyd eu plentyn. Cynigiwyd enghreifftiau gan y rhieni hyn o'r ffordd yr oedd staff Dechrau'n Deg wedi helpu i adnabod materion iechyd, wedi rhoi cyngor ac wedi'u cyfeirio at staff meddygol yn ôl y gofyn. Roedd rhieni'n gwerthfawrogi'r cymorth yr oeddent wedi'i gael gan staff Dechrau'n Deg wrth iddynt gysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ar eu rhan yn arbennig.
- 6.13 Roedd y rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod y Rhaglen yn cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a'u sgiliau rhianta yn gyffredinol, ac ar les cyffredinol eu teulu. Cyfeiriodd rhieni yn ystod Ton 2 at y mathau hyn o effeithiau'n amlach nag y gwnaeth y rhieni yn ystod Ton 1, gyda nifer yn nodi eu bod yn parhau i fanteisio ar wybodaeth a sgiliau yr oeddent wedi'u sicrhau o'r Rhaglen cyn eu cyfweliad yn ystod Ton 1.
- 6.14 Adroddodd y rhan fwyaf o rieni bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hymagwedd tuag at rianta a chynorthwyo dysgu eu plentyn, er enghraifft, trwy roi syniadau iddynt ar gyfer gweithgareddau chwarae a dysgu. Roedd y rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod y ffordd yr oeddent yn cyfathrebu â'u plentyn wedi gwella oherwydd y wybodaeth yr oeddent wedi'i sicrhau trwy'r Rhaglen. Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf o rieni'n teimlo hefyd bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hymagwedd tuag at reoli ymddygiad eu plentyn.
- 6.15 Hyd yn oed mewn achosion lle'r oedd rhieni'n ymgysylltu llai â'r Rhaglen erbyn hyn, roeddent yn tueddu i bwysleisio eu bod yn aml yn cyfeirio at bethau yr oeddent wedi'u dysgu trwy Ddechrau'n Deg. Adroddodd y rhan fwyaf o rieni bod eu hyder wedi gwella oherwydd y Rhaglen a bod y wybodaeth yr oeddent wedi'i chael gan staff yn rhoi cysur iddynt. Roedd y rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod y Rhaglen yn eu

cynorthwyo'n dda, hyd yn oed os nad oeddent wedi manteisio ar y gwasanaethau a oedd ar gael iddynt yn ddiweddar. Roedd hi'n gyffredin i rieni nodi bod y ffaith bod y gwasanaethau 'yno pe byddent eu hangen' yn cynnig cysur iddynt. Gallai hyn esbonio pam bod y rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod y Rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu lles nhw. Adroddodd rhai rhieni am effeithiau cadarnhaol ar agweddau penodol ar rianta, gan gynnwys bwydo ar y fron, diddyfnu a diogelwch yn y cartref.

- 6.16 Er bod y rhan fwyaf o rieni'n tueddu i briodoli manteision Dechrau'n Deg i'r Rhaglen gyfan, yn hytrach na hawliau unigol, adroddodd rhai rhieni bod gwasanaethau penodol wedi bod yn arbennig o bwysig i agwedd ar ddatblygiad eu plentyn. Gan amlaf, roedd rhieni'n teimlo bod yr hawl gofal plant wedi cael effaith ar ddatblygiad eu plentyn yn arbennig. Nododd rhai hefyd bod yr hawl gofal plant yn golygu bod ganddynt fwy o amser i'w hunain i gwblhau tasgau o gwmpas y tŷ. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o rieni yn tueddu i bwysleisio'r manteision cyffredin o fanteisio ar wasanaethau trwy'r Rhaglen. Roedd rhai rhieni'n teimlo hefyd bod y Rhaglen yn cael effaith gadarnhaol 'anuniongyrchol' ar ddatblygiad eu plentyn ar sail y sgiliau yr oeddent wedi'u sicrhau fel rhiant.

Canfyddiadau cyffredinol

- 6.17 Roedd y rhan fwyaf o rieni wedi parhau i fanteisio ar o leiaf un o'r hawliau yr oeddent wedi manteisio arnynt yn ystod Ton 1, sy'n arwydd o ymgysylltiad parhaus teuluoedd gyda Dechrau'n Deg yn ystod y gwaith ymchwil.
- 6.18 Mae lefelau bodlonrwydd y rhan fwyaf o rieni â'r gwasanaethau a ddarparir gan holl hawliau Dechrau'n Deg yn parhau i fod yn uchel. Roedd nifer o'r teuluoedd hyn wedi rhoi enghreifftiau o brofiadau cadarnhaol gan gynnwys safbwyntiau cadarnhaol ynghylch staff, darpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau neu leoliadau.
- 6.19 Mae natur hydredol yr astudiaeth hon wedi ein galluogi i arsylwi bod nifer o'r manteision tybiedig a briodolwyd gan rieni i'r Rhaglen yn yst-

od Ton 1, wedi cael eu hadrodd gan y rhan fwyaf o rieni yng ngharfan Ton 2. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu plentyn, yn ogystal â gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w sgiliau a'u gwybodaeth nhw fel rhiant. Mae Ton 3 yr astudiaeth hon yn cynnig cyfle i ailystyried y materion hyn gyda rhieni yn 2017 wrth i'w plentyn ddatblygu a symud ymlaen i'r Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, mae'n cynnig cyfle i archwilio sut y mae tybiaethau rhieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cymharu â phrofiadau rhieni nad ydynt yn gymwys i fanteisio ar wasanaethau trwy'r Rhaglen.

Adran cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2016a) *Adroddiad Ymchwil Ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg Ton 1, Ar gael trwy droi at* <http://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?lang=cy> (Cyrchwyd 6 Hydref 2016)

Llywodraeth Cymru (2016b) *Asesiad o Werthusadwyedd Dechrau'n Deg, Ar gael trwy droi at:* <http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/161102-evaluability-assessment-flying-start-cy.pdf> (Cyrchwyd: 21 Tachwedd 2016)

Llywodraeth Cymru (2015a) *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD), Ar gael trwy droi at:* <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy> (Cyrchwyd: 7 Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2015c), *Dechrau'n Deg – Atodiad Canllawiau ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu*, Ar gael trwy droi at: <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/150529-guidance-on-speech-en.pdf> (Cyrchwyd: 7 Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2014a), *Adroddiad Synthesis Dechrau'n Deg, adroddiad ymchwil cymdeithasol 12/2014*, Ar gael trwy droi at: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140131-flying-start-synthesis-report-cy.pdf> (Cyrchwyd: 7 Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2014b), *Adolygiad o'r ymarferiad yng ngweithrediad yr elfen cymorth datblygiad iaith gynnar o fewn Dechrau'n Deg, adroddiad ymchwil cymdeithasol 62/2014*, Ar gael trwy droi at: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140528-practice-implementation-early-language-development-support-element-within-flying-start-en.pdf> (Cyrchwyd: 7 Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2014c), *Dechrau'n Deg – Atodiad Canllawiau Pontio*, Ar gael trwy droi at: <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/141124-transition-guidance-cy.pdf> (Cyrchwyd: 7 Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2013a), *Flying Start qualitative research with high need families, adroddiad ymchwil cymdeithasol 64/2013*, Ar gael trwy droi at: <http://gov.wales/docs/caecd/research/131014-flying-start-qualitative-research-high-need-families-en.pdf> (Cyrchwyd: 7 Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2013b), *Rhaglen Graidd o Ymweliadau Iechyd Cymru Gyfan Dechrau'n Deg*, Ar gael trwy droi at: <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/130926healthvisitorcy.pdf> (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2017)

Atodiad A: Astudiaethau achos

Isod, gweler astudiaethau achos wedi'u seilio ar gyfweiliadau gyda theuluoedd yn ystod Ton 2. Mae'r rhain yn cynnig rhai enghreifftiau o'r cymorth a'r profiadau a adroddwyd gan rieni yn ystod eu cyfweiliadau, yn ogystal â rhai o ganlyniadau tybiedig eu gweithgarwch ymgysylltu. Newidiwyd manylion personol megis enwau rhieni a phlant, lleoliadau a manylion cenedligrwydd er mwyn peidio'u henwi.

Astudiaeth achos 1: Teulu Ali

Mae Mr a Mrs Ali yn eu 30au cynnar ac mae ganddynt ddau o blant, un yn ddwy oed a'r llall yn wyth mis oed. Mae'r ddau yn dod o gefndir Dwyrain Canol ac maent wedi bod yn byw yn eu lleoliad presennol ers tair blynedd. Mae ganddynt rai ffrindiau a theulu sy'n byw yn lleol. Er eu bod yn siarad Arabeg yn y cartref yn bennaf, mae ganddynt rywfaint o sgiliau Saesneg cyfyngedig.

Darganfu'r teulu am Ddechrau'n Deg gan eu Hymwelydd lechyd. Trwy siarad gyda ffrindiau a theulu, maent yn gwybod nad yw pawb yn cael cymorth gan y rhaglen. Mae'r teulu wedi manteisio ar amrediad o wasanaethau Dechrau'n Deg gan gynnwys gofal plant, cyrsiau rhianta a chymorth estynedig gan Ymwelwyr lechyd. Maent wedi cael eu cyfeirio am gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu ond nid oeddent wedi cael asesiad eto adeg y cyfweiliad.

Mae Mrs Ali wedi manteisio ar y rhaglen meithrin rhieni (PNP) ac aros a chwarae. Fe'i hanogwyd i fynychu'r cwrs PNP gan ei Hymwelydd lechyd a chan y staff yng nghanolfan Dechrau'n Deg. Trwy fynychu'r cwrs, roedd yn gobeithio y byddai hi wedi cael y cyfle i gymysgu â rhieni eraill, i ddarganfod sut i reoli problemau ac ymlacio o ganlyniad. Roedd Mrs Ali wedi mynychu pob un o'r sesiynau PNP ond un (gan golli un o ganlyniad i salwch) gyda chyfieithydd, ac mae wedi cael llawer o gyngor defnyddiol a gwneud ffrindiau newydd:

'Mae'r cwrs PNP wedi fy helpu i ganmol fy mhlant, darganfod sut i

bennu rheolau a therfynau a hefyd, i feithrin fy hun...nid ydw i dan gymaint o straen nawr.'

Mae Mrs Ali wedi mynychu sesiynau aros a chwarae gyda'i dau o blant. Roedd yn teimlo bod y sesiynau wedi rhoi'r cyfle i'w phlant gymysgu ag eraill a chwarae gyda theganau newydd. Yn ogystal, mae Mrs Ali wedi newid y ffordd y mae'n chwarae gyda'i phlant o ganlyniad i'r hyn a ddysgodd yn aros a chwarae.

Mae Mrs Ali wedi gweld ei Hymwelydd lechyd yn ei chartref yn bennaf, ac mae'n well ganddi hyn oherwydd bod hyn yn haws iddi na mynd i'r clinig gyda dau o blant. Yn ogystal â dweud wrthi am wasanaethau Dechrau'n Deg ac archwilio datblygiad y plant, mae Ymwelydd lechyd teulu Ali wedi helpu i gofrestru'r plant ar gyfer gofal plant a'r ysgol, ac roeddent yn adrodd y byddent wedi cael anhawster gwneud hyn eu hunain o ganlyniad i'w sgiliau Saesneg cyfyngedig. Yn ogystal, soniodd teulu Ali eu bod wedi hoffi cael y cwdyn llyfrau, y mae eu mab yn mwynhau edrych arnynt, er bod sgiliau Saesneg y teulu'n gyfyngedig ac nad ydynt yn siarad Cymraeg o gwbl.

Mae'r Ymwelydd lechyd wedi gwneud sawl cyfeiriad ar ran y teulu: i ddietegydd a roddodd gyngor defnyddiol ynghylch maeth; am brawf clyw; am gymorth iaith a lleferydd o ganlyniad i oedi gyda lleferydd ei mab; ac i weithiwr teulu a oedd o gymorth arbennig wrth gynorthwyo'r teulu i bennu arfer amser gwely ar gyfer y plant. Mae Mrs Ali yn disgrifio'u Hymwelydd lechyd fel rhywun cyfeillgar a hawdd troi atynt.

'Mae hi wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r teulu ac mae'n bresenoldeb sy'n cynnig cysur.'

Mae teulu Ali wedi nodi amrediad o welliannau yn eu plant, y maent yn eu priodoli i wasanaethau Dechrau'n Deg. Disgrifiodd Mrs Ali sut y mae mynychu gofal plant wedi gwneud gwahaniaeth dramatig i iaith a lleferydd ei mab:

'Ar ôl dau ddiwrnod yn y meithrin, dechreuodd ddefnyddio geiriau newydd a gofyn cwestiynau – cyn hynny, dim ond geiriau unigol y

byddai'n eu defnyddio.'

Yn ogystal, maent wedi gweld gwelliannau o ran ei sgiliau darllen a chyfrif, yn enwedig ei wybodaeth o'r wyddor, y maent yn ei briodoli i ofal plant ac i'w defnydd o Gwdyn Llyfrau Dechrau'n Deg. Yn ogystal, mae Mrs Ali wedi sylwi bod ei mab yn fwy hyderus a'i fod wedi 'dod allan o'i gragen yn fwy'. Mae hi'n credu hefyd bod gofal plant wedi rhoi mwy o ysgogiad iddo nag yr oedd yn ei gael gartref, lle'r oedd hi'n debygol bod pethau wedi tynnu ei sylw:

'Mae'n llawer mwy digyffro a mwy hyderus nawr...arferai fod mor swil.'

Disgrifiodd Mrs Ali sut y mae'r cymorth a ddarparwyd gan Ddechrau'n Deg wedi bod o fudd i'r teulu cyfan, ar lefel ymarferol o ran cyfeiriadau ac o ran eu helpu i fanteisio ar wasanaethau, ond hefyd, o ran eu lles cyffredinol:

'Byddwn i wedi bod mor ynysig, mae Dechrau'n Deg wedi fy annog i gyfarfod pobl newydd a dysgu pethau newydd.'

Bydd teulu Ali yn parhau i fanteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg. Mae Mrs Ali yn arbennig yn awyddus i ddilyn rhagor o gyrsiau ac mae eisoes wedi cofrestru ar gyfer cwrs coginio.

Astudiaeth achos 2: Teulu Salinas

Mae Camila Salinas yn fam ifanc a symudodd i Gymru o Sbaen pan oedd hi'n dair oed. Mae ganddi ferch sy'n ddwy oed, mae'n byw gyda'i phartner ac mae ganddi rwydwaith cymorth teuluol gerllaw.

Darganfu Camila am Ddechrau'n Deg trwy ei Hymwelydd lechyd, a gysylltodd â hi pan anwyd ei merch. Mae'r teulu wedi manteisio ar amrediad o wasanaethau Dechrau'n Deg gan gynnwys cymorth Ymweliadau lechyd estynedig, sesiynau laith a Chwarae a gofal plant.

Pan anwyd merch Camila, daeth yr Ymwelydd lechyd i'r tŷ tua unwaith yr wythnos am y misoedd cyntaf. Byddai'r Ymwelydd lechyd yn pwyso'r baban ac yn cynnig unrhyw wybodaeth a chynghor i Camila yr oedd ei hangen arni, gan gynnwys cyngor ynghylch bwydo a'r hyn i'w wneud pe byddai ei merch yn anhwylus.

'Rydw i wedi cael yr holl gyngor yr oeddwn yn ei ddymuno ac yr oeddwn ei angen. Maent wastad wedi ateb fy nghwestiynau.'

Mae cyngor ei Hymwelydd lechyd wedi cynnig cysur i Camila, yn enwedig cyngor ynghylch yr hyn y dylai ei wneud pan fydd ei merch yn anhwylus. Esboniodd ei bod yn gwybod nawr beth ddylai tymheredd ei merch fod a phryd y dylai fynd â hi i weld y meddyg.

'Roedd y wybodaeth yn dda iawn...rydw i'n hoffi'r ffaith bod gan yr ymwelwyr ieuchyd gymaint y gallant ei gynnig.'

Gan fod ei merch yn hŷn nawr, mae Camila wedi cael llai o gyswllt gyda'i Hymwelydd lechyd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, y prif gyswllt fu pan ddaeth ei Hymwelydd lechyd i'r tŷ i gynnal asesiad datblygiad ei merch yn ddwy oed. Trafododd ganlyniadau'r asesiad gyda Camila ac esboniodd bod datblygiad ei merch yn iawn.

Cyfeiriodd yr Ymwelydd lechyd Camila at sesiynau laith a Chwarae, ac roedd Camila wedi mynychu'r rhain gyda'i merch am awr yr wythnos dros gyfnod o tua dau fis. Mynychodd oherwydd ei bod yn credu y byddai hyn yn

caniatáu i'w merch gyfarfod plant eraill, yn ogystal â rhoi'r cyfle iddynt adael y tŷ. Soniodd Camila bod ei merch wedi mwynhau'r gweithgareddau yr oeddent yn eu cyflawni yn y sesiynau, yn enwedig y paentio a'r canu. Roedd y sesiynau wedi rhoi syniadau i Camila ynghylch sut i chwarae gyda'i merch. Cyn mynychu'r sesiynau, nododd y byddai'n rhoi teganau allan ac yn gadael i'w merch chwarae gyda nhw ar ei phen ei hun. Ond bellach, bydd yn cymryd rhan ac yn chwarae gyda hi.

Adeg cyfweliad Ton 2, roedd merch Camila wedi bod yn mynychu gofal plant am 6 mis. Cyn mynychu'r gofal plant, roedd Camila yn gwerthfawrogi'r cyfle a gafodd i fynychu sesiwn ymlaen llaw, lle y bu'n llenwi ffurflenni wrth i'w merch chwarae. Roedd yn dymuno i'w merch fynychu'r gofal plant 'fel na fyddai'n gaeth i'r tŷ' ac y gallai gymysgu â'r plant eraill a chael hwyl.

'Mae wedi ei thynnu allan o'i chragen. Mae hi'n dwli rhyngweithio gyda'r plant eraill.'

Mae Camila wedi sylwi ar gryn welliant yn natblygiad ei merch ers iddi ddechrau mynychu'r gofal plant.

'Mae wedi peri iddi fod yn fwy rhyngweithiol a datblygedig o ran ei lleferydd. Yn ogystal, mae wedi ei helpu i wybod sut i chwarae ac mae wedi helpu gyda'i datblygiad yn gyffredinol...rydw i'n credu y byddai hi'n barod i ddechrau yn yr ysgol. Bydd yn eistedd ac yn gwrando ar stori nawr, ond ni fyddai'n gwneud hynny cyn mynychu'r meithrin.'

Disgrifiodd Camila sut y mae wedi dod yn fwy hyderus yn ei harddull rhianta o ganlyniad i'r cymorth a gafodd trwy Ddechrau'n Deg, ac mae hwn wedi cael effaith ar y teulu cyfan.

'Mae wedi ein helpu gryn dipyn. Mae wedi fy helpu i fod yn fwy ymwybodol o bethau nad oeddwn yn gwybod amdanynt...Mae wedi fy helpu fwy nag unrhyw beth gwybod yr hyn i'w wneud gyda [fy merch]...Mae wedi cael cymaint o effaith arnom.'

Astudiaeth achos 3: Teulu Price

Mae gan Megan Price dri o blant ac mae'r rhain yn 16, yn bump ac yn ddwy oed. Mae hi'n warcheidwad ar gyfer ei nith 13 oed hefyd.

Mae'r teulu wedi manteisio ar nifer o wasanaethau Dechrau'n Deg, gan gynnwys cymorth estynedig gan Ymwelwyr Iechyd, sesiynau Aros a Chwarae a gofal plant. Mae Megan yn deall bod Dechrau'n Deg yn rhoi 'cychwyn da i blant a'i fod yn gallu bod o fudd iddynt o ran eu dysgu'.

Cafodd Megan ymweliadau rheolaidd gan ei Hymwelydd Iechyd pan anwyd ei merch ieuengaf ac mae wedi cael llai o gyswllt wrth i'w merch fynd yn hŷn. Mae wedi cael cyngor gan ei Hymwelydd Iechyd am nifer o faterion. Er enghraifft, pan oedd ei merch yn faban, roedd yn dioddef adlif gwael a byddai'n chwydu yn aml. Gofynnodd Megan i'w Hymwelydd Iechyd beth ddylai ei wneud, ac fe'i cynghorwyd i roi cynnig ar laeth heb lactos, a bu hwn o gymorth.

'Mae o gymorth mawr. Rydw i'n dwli ar fy ymwelydd iechyd. Mae'n hawdd cael gafael arni ac mae hi'n gwrando ac yn neilltuo amser i eistedd gyda [merch]...Mae hi wastad yno. Pe byddai angen i mi gael cymorth ganddi, mae hi ar ben arall y ffôn...Mae hi wedi rhoi'r holl help yr oedd ei angen arnaf i mi.'

Mae Ymwelydd Iechyd Megan wedi ei chyfeirio at nifer o wahanol weithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys dietegydd/gweithiwr iechyd a roddodd gyngor defnyddiol a wnaeth helpu i annog ei merch i flasgu gwahanol fwydydd; a ffisiotherapi gan fod gan ei merch fater iechyd corfforol. Roedd Megan o'r farn bod y cymorth hwn wedi helpu i wella iechyd ei merch.

Mynychodd Megan sesiynau Aros a Chwarae gyda'i merch ieuengaf bob wythnos am tua blwyddyn, lle y buont yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol megis canu, paentio a thynnu lluniau. Roedd hi'n gwerthfawrogi'r ffordd yr oedd y sesiynau wedi rhoi'r cyfle i'w merch chwarae gyda phlant eraill a dysgu rhannu. Ymhellach, esboniodd sut yr oedd gweithgarwch chwarae blêr wedi helpu gyda ffobia ei merch o gael ei dwylo'n frwnt. Roedd wedi rhoi cyngor defnyddiol i Megan hefyd ynghylch sut i ddelio â'r ffobia hwn.

Stopiodd Megan fynychu'r sesiynau Aros a Chwarae pan ddechreuodd ei merch fynychu'r gofal plant gan fod y sesiynau'n digwydd ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae hi'n teimlo bod y gofal plant wedi bod yn ddilyniant da i'w merch, gan nodi ei fod wedi ei helpu i fod yn fwy hyderus a'i fod wedi ei dysgu i rannu.

'Byddwn yn ei argymhell i unrhyw rai o'm ffrindiau...Mae'r meithrin yn dysgu iddynt sut i rannu ac mae'n eu tynnu allan o'u cragen...mae'n beth da iddynt yn fy marn i.'

O ganlyniad i'r ffaith ei bod yn fwy hyderus, mae merch Megan wedi dechrau siarad mwy. Mae hyn wedi galluogi Megan a'i Hymwelydd lechyd i sylwi bod atal ar ei merch o bosibl. O ganlyniad, mae ei Hymwelydd lechyd wedi cyfeirio merch Megan am gymorth Therapi Iaith a Lleferydd er mwyn ei helpu gyda'i hatal. Adeg y cyfweliad Ton 2, roedd y teulu ar y rhestr aros er mwyn cael y cymorth hwn.

Mae Megan o'r farn bod y gofal plant wedi helpu i baratoi ei merch ar gyfer yr ysgol yn arbennig.

'I mi, mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Y flwyddyn pan aeth [merch] i'r meithrin, byddai hi wedi aros gartref fel arall. Yn fy marn i, mae'n eu paratoi ar gyfer yr ysgol...Mae'n beth da eu bod yn cychwyn pan fyddant yn 2, oherwydd bod ganddynt ddealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei olygu.'

Astudiaeth achos 4: Teulu Davies

Mae Kelly Davies yn rhiant sengl yn ei 20au cynnar ac mae'n byw gyda'i merch ifanc. Mae hi wedi bod yn byw yn ei hardal leol ers nifer o flynyddoedd ac mae ganddi deulu a ffrindiau sy'n byw gerllaw.

Yn ystod ei beichiogrwydd, rhoddodd bydwraig Kelly wybodaeth iddi am wasanaethau Dechrau'n Deg. Roedd hyn yn cynnwys taflenni am gyrsiau y byddai modd iddi eu mynychu a gwybodaeth ynghylch tylino babanod a bwyta'n iach.

Ar y dechrau, nid oedd Kelly yn teimlo'n ddigon hyderus i fynychu sesiynau gyda rhieni eraill yn ei chanolfan deuluoedd lleol. Yn fuan ar ôl rhoi genedigaeth i'w merch, ymwelodd gweithiwr teuluoedd Dechrau'n Deg â Kelly yn ei thŷ i roi sesiynau tylino babanod i'w merch. Mae Kelly yn tylino ei merch o hyd pan fydd hi'n teimlo'n ofidus ac

mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn iddi. Yn ogystal, darparodd y gweithiwr teuluoedd gyfres o sesiynau 'chwarae synhwyrdd' yn y cartref gyda hi. Roedd hyn wedi helpu i feithrin hyder Kelly yn ei sgiliau rhianta, gan roi syniadau iddi a arweiniodd ati yn canu, yn darllen ac yn chwarae gyda'i phlentyn yn fwy nag yr arferai ei wneud.

Yn dilyn y sesiynau tylino babanod a chwarae synhwyrdd, roedd Kelly yn teimlo'n ddigon hyderus i fynychu cyrsiau coginio a rhianta yn ei chanolfan Dechrau'n Deg leol, sydd gerllaw ei chartref. Roedd hi'n teimlo bod hyn wedi ei helpu i baratoi prydau iach ar gyfer ei merch, a'i fod wedi gwella'i sgiliau rhianta. Roedd yn teimlo bod y cyrsiau wedi ei helpu i bennu arfer dyddiol ar gyfer ei merch a'i fod wedi rhoi strategaethau ymdopi iddi yn ystod cyfnodau o straen hefyd.

'Pan fydd pethau'n anodd, byddaf yn cofio'n ôl i'r cwrs [rhianta] ac yn dweud wrth fy hun na fydd y cyfnod hwn yn para am byth – yna bydd yn mynd heibio.'

Roedd Kelly wedi dioddef trais domestig yn flaenorol. Mae hi'n teimlo bod staff Dechrau'n Deg wedi rhoi cymorth gwerthfawr iddi ac wedi ei chyfeirio at gwrs ar gyfer dioddefwyr trais domestig. Nododd Kelly y bu hwn o gymorth mawr iddi ac na fyddai wedi mynychu'r cwrs heb y cymorth a'r sicrwydd a gafodd gan staff Dechrau'n Deg. Yn ogystal, roedd staff Dechrau'n Deg wedi darparu crèche wrth iddi fynychu'r cwrs.

'Mae wedi bod o gymorth gwybod bod pobl yno. Os bydd gennyf broblem, mae ganddynt wahanol dechnegau er mwyn delio â gwahanol sefyllfaoedd.'

Roedd Kelly wedi cael sawl Ymwelydd Iechyd yn ystod blwyddyn gyntaf ei merch. Bellach, mae wedi cael yr un Ymwelydd Iechyd ers dros flwyddyn ac mae'n teimlo bod cael y parhad hwn wedi gwella'i phrofiad o Ddechrau'n Deg. Yn ddiweddar, aseswyd datblygiad ei merch gan ei Ymwelydd Iechyd a dywedwyd wrth Kelly bod ei phlentyn yn sicrhau cynnydd da. Mae Kelly yn teimlo'i bod wedi cael gwybodaeth a syniadau da am weithgareddau pan oedd yn gwylio'r asesiad dwy oed ac yn ystod trafodaethau gyda'r Ymwelydd Iechyd. Dywedodd yr Ymwelydd Iechyd wrth Kelly bod ei phlentyn yn sicrhau cynnydd da o'i chymharu â phlant o oed tebyg.

'Mae wedi dysgu i mi bod angen i mi dreulio amser yn chwarae jig-sos ac yn darllen. Mae [enw'r Ymwelydd Iechyd] wastad yn dod â bagiau llyfrau ac rydym wedi bod yn dysgu gyda llyfr sydd wedi'i ysgrifennu yn Gymraeg ac yn Saesneg.'

Yn ddiweddar, mae merch Kelly wedi dechrau mynychu lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg. Mae ei phlentyn yn mwynhau yn y lleoliad, ac mae Kelly o'r farn bod y cyfathrebu gyda'r gweithiwr gofal plant yn ddefnyddiol iawn. Nododd nad oedd ei merch yn mwynhau edrych ar lyfrau cyn mynychu'r ddarpariaeth gofal plant, ond ei bod hi'n 'dwli ar amser stori nawr'. Roedd hi'n teimlo bod ei phlentyn wedi datblygu'n dda ers manteisio ar ofal plant ac roedd hi'n priodoli o leiaf rhywfaint o hyn i'r gofal plant.

'Mae ei lleferydd wedi gwella'n fawr iawn, ac mae'n siŵr bod [gofal plant] Dechrau'n Deg yn gyfrifol am gryn dipyn o hyn'

Bellach, mae Kelly yn astudio cwrs Addysg Bellach rhan-amser ac mae'n gobeithio bod yn gynorthwydd gofal plant yn y pen draw. Er ei bod yn credu y byddai wedi cofrestru ar y cwrs ta beth, nododd bod Dechrau'n Deg wedi ei gwneud yn llawer haws iddi ddilyn y trywydd hwn. Nododd Kelly bod y sesiynau gofal plant yn rhoi amser iddi gwblhau ei gwaith coleg.

'Byddwn wedi symud ymlaen i'r cwrs yn y coleg ta beth, ond ni fyddai gennyf yr holl wybodaeth sydd gennyf nawr am ddatblygiad plant. Mae Dechrau'n Deg wedi ei gwneud yn llawer haws i mi... Mae'n braf gallu gwneud pethau tra ei bod hi yn y meithrin.'

Astudiaeth achos 5: Teulu John

Mae Cheryl John yn rhiant sengl yn ei 20au cynnar ac mae'n byw gyda'i mab tair oed. Mae wedi byw yn ei hardal leol trwy gydol ei hoes ac mae ganddi deulu a ffrindiau sy'n byw gerllaw ac y mae'n eu gweld yn rheolaidd. Mae ei mab yn cael rhywfaint o gyswllt cymdeithasol rheolaidd gyda'i dad. Roedd Cheryl yn byw gyda'i rhieni tan yn ddiweddar, pan symudodd i'w thŷ ei hun.

Pan anwyd mab Cheryl, soniodd y fydwaig wrthi am wasanaethau Dechrau'n Deg. Deallodd y gallai Dechrau'n Deg helpu i ddarparu offer babanod a mynediad i gyrsiau a grwpiau ar gyfer rhieni. Roedd Cheryl yn gwybod bod grwpiau amrywiol yn cael eu cynnal yn y gymuned, ac roedd ffrindiau wedi dweud wrthi fod Dechrau'n Deg yn 'wych'. Roedd yn deall bod yn rhaid i rai teuluoedd dalu am wasanaethau os ydynt yn

byw y tu allan i ardal Dechrau'n Deg. Cafodd Cheryl wybodaeth am y grwpiau amrywiol trwy grwpiau cyfryngau cymdeithasol a thudalennau digwyddiadau a gynhelir gan ei thîm Dechrau'n Deg lleol.

Roedd Cheryl wedi cael cyswllt rheolaidd â'i Hymwelydd lechyd trwy gydol 12 mis cyntaf ei phlentyn ac roedd o'r farn bod y cyngor a gafodd yn ddefnyddiol iawn. Er enghraifft, dangosodd yr Ymwelydd lechyd iddi ba fwyd i'w roi i'w mab, a daeth i'r tŷ i helpu ac i esbonio gwybodaeth yr oedd wedi'i chael gan y meddyg neu'r ysbyty. Roedd yr Ymwelydd lechyd yn arbennig wedi ei helpu wrth wneud apwyntiadau ysbyty a meddyg teulu, gan weithredu fel sianel rhyngddi hi a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Nododd Cheryl ei fod 'yn wych cael yr help hwnnw.'

Gan fod ei mab yn dair oed nawr, nid yw Cheryl yn gweld ei Hymwelydd lechyd mor aml, er ei bod yn teimlo bod y gwasanaeth 'yno i mi pan fyddaf ei angen'. Os bydd hi'n cael unrhyw broblemau, mae hi'n teimlo bod modd iddi gysylltu â'i Hymwelydd lechyd pan fydd angen cyngor arni.

'Mae [enw'r Ymwelydd lechyd] wedi bod yno pan oeddwn ei hangen, gan roi'r holl help i mi yr oeddwn ei angen.'

Roedd Cheryl yn fodlon gyda pha mor aml yr oedd yr Ymwelydd lechyd wedi cysylltu â hi ac adroddodd nad ydynt 'ar ei hôl hi yn gyson'. Mae o'r farn bod yr Ymwelydd lechyd wedi rhoi'r 'hyder a'r cymorth yr ydym ei angen' i'w theulu.

Cyfeiriwyd Cheryl at gyrsiau rhianta amrywiol gan ei Hymwelydd lechyd. Roedd y rhain yn cynnwys: cyrsiau hylendid bwyd, Blynnyddoedd rhyfeddol i fabanod a phlant bach, coginio a rheoli straen. Dechreuodd ar gwrs yn ei chartref yn y lle cyntaf, yna magodd yr hyder i gymryd rhan mewn cyrsiau eraill mewn grwpiau. Byddai ei mab yn mynd i'r crèche yn y ganolfan Dechrau'n Deg leol er mwyn ei galluogi i fynychu'r cyrsiau hyn.

Adroddodd Cheryl bod y sesiynau grŵp wedi rhoi mwy o hyder iddi hi a'i phlentyn a'i bod hi wedi 'dysgu llawer iawn' am reoli ymddygiad.

'Mae'r holl gyrsiau wedi bod o gymorth, yn enwedig y cwrs coginio. Maent wedi bod yn rhagorol, gan roi llawer iawn o syniadau i mi am straeon, gweithgareddau ac ati.'

Mynychodd mab Cheryl ofal plant pan oedd rhwng dwy a thair oed. Roedd Cheryl o'r

farn bod y ddarpariaeth gofal plant yn 'anhygoel' a bod y cyfathrebu a'r wybodaeth y mae hi wedi'i chael gan y staff yn dda.

Nododd staff yn y lleoliad gofal plant anawsterau iaith a lleferydd ac maent wedi cyfeirio mab Cheryl at Therapydd iaith a Lleferydd (SLT), y mae wedi bod yn ei weld bob mis, yn ogystal â grwpiau iaith a chwarae rheolaidd. Mae Cheryl o'r farn bod cyfuniad SLC a'r gweithgareddau gofal plant wedi helpu datblygiad ei mab yn sylweddol.

'Mae'n gwneud yn wych gyda'i leferydd a'i rhyngweithio. Rydw i'n synnu gweld faint y mae wedi datblygu. Mae'n siarad Cymraeg nawr hefyd.'

Roedd Cheryl o'r farn bod ei hyder a'i dealltwriaeth hi o'r ffyrdd y gallai hi gynorthwyo dysgu ei mab wedi gwella trwy gyfrwng Dechrau'n Deg. Nododd bod y cwydn llyfrau yr oedd wedi'i gael trwy Ddechrau'n Deg wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth ei helpu i gynorthwyo gyda darllen a rhyngweithio ei mab gartref.

'Mae gen i fwy o hyder nawr ac rydw i'n gwybod yr hyn i'w wneud.' 'Yn flaenorol, ni fyddwn yn eistedd ac yn darllen gydag ef, ond bellach, gyda chanu a darllen, mae'n awyddus iawn.'

Pan fydd ei mab yn y lleoliad gofal plant, gall Cheryl wneud gwaith o gwmpas y tŷ ac mae hi'n gwirfoddoli mewn banc bwyd lleol yn rheolaidd hefyd. Mae'n gobeithio y bydd y gwaith gwirfoddol hwn yn ei helpu i gael swydd yn y dyfodol.

Mae Cheryl yn bwriadu parhau gyda'r sesiynau SLT rheolaidd a mynychu grwpiau SLC er mwyn cynorthwyo'i phlentyn wrth iddo symud i addysg amser llawn.

Astudiaeth achos 6: Chantelle Williams

Mae Chantelle yn byw gyda'i phartner a'u tri o blant, sy'n 16, wyth ac 17 mis oed. Mae hi wedi byw yn yr ardal trwy gydol ei hoes ac mae ganddi rwydwaith eang o deulu a ffrindiau sy'n byw gerllaw.

Ganwyd plentyn ieuengaf Chantelle cyn pryd a bu'r baban yn yr ysbyty am gyfnod estynedig. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd 'gymorth ardderchog' gan ei Hymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg a chan ei bydwraig. Roedd ei Hymwelydd Iechyd wedi ymweld â Chantelle bob wythnos gan roi'r holl wybodaeth iddi yr oedd angen iddi ei chael a hefyd, cyflawnodd rôl gyfryngol gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Gwelodd

Chantelle yr un Ymwelydd Iechyd bob tro ac roedd yn teimlo'i bod wedi meithrin perthynas barhaus dda gyda hi. O ganlyniad, mae wedi dod i ystyried ei Hymwelydd Iechyd fel ffrind y mae modd iddi alw arni unrhyw bryd.

'Esboniodd yr ymwelydd iechyd bopeth, a wnaeth roi llawer o gysur ac mae hi wedi helpu i leddfu cryn dipyn o'r straen.'

Sylwodd Chantelle bod ansawdd y cymorth a gafodd trwy Ddechrau'n Deg yn uwch na'r hyn a gafodd pan anwyd ei dau blentyn arall, cyn y cyflwynwyd Dechrau'n Deg.

Clywodd Chantelle am nifer o wasanaethau Dechrau'n Deg trwy ei Hymwelydd Iechyd ac mae wedi mynychu rhai sesiynau iaith a chwarae, a fu o fudd mawr iddi yn ei barn hi wrth gynnig cyfleoedd i gyfarfod rhieni eraill a rhoi syniadau iddi ynghylch chwarae a rhyngweithio gyda'i phlant.

Roedd Ymwelydd Iechyd Chantelle wedi sôn wrthi am ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg. Er nad yw ei phlentyn ieuengaf yn ddigon hen i fod yn gymwys i fanteisio ar yr hawl gofal plant eto, mae hi wedi dechrau ei anfon i'r crèche, sydd ar yr un safle â darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg y bydd ei phlentyn yn ei fynychu pan fydd yn ddwy oed.

Ers i'w phlentyn ieuengaf ddechrau mynychu'r crèche, mae Chantelle a ffrind wedi cychwyn busnes trin gwallt, lle y mae hi'n gweithio am dri diwrnod yr wythnos. Mae hi'n teimlo bod y cymorth y mae hi wedi'i gael trwy Ddechrau'n Deg wedi helpu i roi'r hyder iddi sefydlu'r busnes.

'Byddwn i wedi bod ar goll heb y cymorth, ac ni fyddwn i fyth wedi cychwyn y busnes heb Ddechrau'n Deg.'

Roedd gwybod y byddai hawl gofal plant Dechrau'n Deg ar gael wedi helpu i argyhoeddi Chantelle y byddai modd iddi gael yr hyblygrwydd a'r cymorth i neilltuo amser i'r busnes.

Ar ôl genedigaeth ei phlentyn ieuengaf a'r anawsterau iechyd a achoswyd gan yr enedigaeth cyn pryd, roedd Chantelle yn teimlo'n nerfus ac yn bryderus, ond bellach, mae ei hagwedd yn fwy cadarnhaol. Dros y flwyddyn i ddod, mae hi'n edrych ymlaen at sicrhau sylfaen gadarn i'r busnes.

Atodiad B: Canllaw Trafod Buddiolwyr Drafft Dechrau'n Deg Ton 2

I'w ddefnyddio gyda theuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Ton 1 (sampl hydredol) law yn llaw â nodiadau cyfweliadau blaenorol a gyda theuluoedd sy'n cael eu cyfweld am y tro cyntaf yn ystod Ton 2 (Teuluoedd newydd).

Trosolwg

5 munud

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno clywed safbwyntiau teuluoedd am raglen Dechrau'n Deg. Maent wedi gofyn i ni, Ymchwil Arad, i siarad ag amrywiaeth o deuluoedd a ddewiswyd ar hap am eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg megis y gwasanaeth ymwelwyr iechyd a'r gwasanaeth gofal plant. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed pa rannau o Ddechrau'n Deg yr ydych chi wedi'u defnyddio ac a yw'r gwasanaethau hyn wedi gwneud gwahaniaeth i'ch bywyd. Defnyddir adborth gan deuluoedd fel eich teulu chi i helpu i wella gwasanaethau Dechrau'n Deg yn lleol ac yn genedlaethol.

[Ar gyfer sampl hydredol] Mae ein trafodaeth heddiw yn dilyn ein cyfarfod yn 2015, a bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar y gwasanaethau a'r gweithgareddau yr ydych chi wedi manteisio arnynt ers i ni gyfarfod yn flaenorol.

Bydd y drafodaeth yn para tuag awr a bydd eich teulu'n cael £30 am gymryd rhan. Yn ogystal, fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn trafodaeth debyg yn ystod yr haf 2017, pan gynigir £30 i chi unwaith eto i sgwrsio gyda ni am awr. Mae hyn oherwydd y bydd siarad gyda chi eto y flwyddyn nesaf yn ein helpu i gael gwybod am unrhyw wahaniaethau y mae Dechrau'n Deg wedi'u gwneud i'ch teulu gydag amser.

Darllenwch: Mae'ch penderfyniad i gymryd rhan yn yr ymchwil yn un gwirfoddol, ac rydych yn rhydd i dynnu allan o'r ymchwil ar unrhyw adeg. Cedwir yr holl sylwadau a gwybodaeth y byddwch yn eu rhoi i ni yn gyfrinachol ac ni fyddwn yn eu rhannu â thîm Dechrau'n Deg. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw sylwadau mewn unrhyw adroddiadau a

gynhyrchir o ganlyniad i'r gwaith ymchwil, yn sylwadau dienw. Efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni i ysgrifennu astudiaeth achos fer am eich profiadau, ond ni chaiff enwau unrhyw un eu cynnwys mewn adroddiadau ac ni fydd modd adnabod unrhyw un ohonynt. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn datgelu gwybodaeth a ddarparwyd gennych os bernir bod risg y byddwch chi neu eraill yn dioddef niwed difrifol.

Dylai'r ymchwilydd sicrhau bod ffurflen gydsynio yn cael ei llofnodi.

Cyflwyniad

5 munud

1. [Sampl hydredol] A fyddech gystal â dweud wrthyf a fu unrhyw newidiadau i'ch aelwyd ers y tro diwethaf i ni siarad? [Trowch at y nodiadau blaenorol er mwyn cadarnhau'r manylion]

- *Nifer y plant a'u hoedrannau (unrhyw faterion iechyd/ datblygiadol)*
- *Nifer yr oedolion*
- *Os yw hynny'n berthnasol, cyswllt rhiant absennol*
- *Statws cyflogaeth/ hyfforddiant*
- *Statws iechyd y plant/ rhieni (e.e. unrhyw anghenion arbennig) ac a yw hyn yn effeithio ar y teulu o ran manteisio ar wasanaethau/ cyflogaeth/hyfforddiant*
- *Teulu a ffrindiau gerllaw*
- *Defnyddio'r iaith Gymraeg yn y cartref a manteisio ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg*
- *Defnyddio unrhyw ieithoedd eraill yn y cartref/teulu.*

2. [Teuluoedd newydd] A fyddech gystal â sôn wrthyf am eich aelwyd? [trowch at y sgriniwr recriwtio er mwyn cadarnhau'r manylion yn ôl yr angen]

- *Holi sensitif ynghylch*
- *Nifer y plant a'u hoedrannau (unrhyw faterion iechyd/ datblygiadol)*

- *Nifer yr oedolion*
- *Os yw hynny'n berthnasol, cyswllt rhiant absennol*
- *Statws cyflogaeth/ hyfforddiant*
- *Statws iechyd y plant/ rhieni (e.e. unrhyw anghenion arbennig) ac a yw hyn yn effeithio ar y teulu o ran manteisio ar wasanaethau/ cyflogaeth/hyfforddiant*
- *Am ba mor hir y maent wedi bod yn byw yn yr ardal,*
- *Teulu a ffrindiau gerllaw*
- *Defnyddio'r iaith Gymraeg yn y cartref a manteisio ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg (e.e. ysgolion)*
- *Defnyddio unrhyw ieithoedd eraill yn y cartref/teulu?*
- *Cefndir ethnig?*

Ymgysylltu a disgwyliadau o Ddechrau'n Deg

10 munud

Rydw i'n mynd i ofyn rhai cwestiynau nawr am eich defnydd o wasanaethau Dechrau'n Deg

[Sampl hydredol]

3. Faint o wybodaeth am wasanaethau Dechrau'n Deg yr ydych chi wedi'i chael ers i ni siarad y tro diwethaf?

- *ble y maent yn cael gwybodaeth ac ym mha ffurf*
- *A ydynt yn teimlo'n wybodus*
- *A ydych chi wedi cael unrhyw wybodaeth gan Ddechrau'n Deg am eich plentyn yn paratoi ar gyfer dechrau yn yr ysgol (Cyfnod Sylfaen)?*
- *A ydych chi wedi cael unrhyw wybodaeth am unrhyw archwiliadau/asesiadau o ddatblygiad eich plentyn (archwiliad 2 oed / asesiad SOGS a gyflawnir pan fyddant tua 2 oed fel arfer, ond yn gynharach weithiau)? A wnaethant drafod y canlyniadau gyda chi?*

4. Ers i ni siarad y tro diwethaf, pa wasanaethau yr ydych chi a) wedi parhau i fanteisio arnynt b) wedi dechrau manteisio arnynt a c) heb fanteisio arnynt ers i chi gael eich cyfweld y tro diwethaf d) heb fanteisio arnynt eto?

[Trowch at y sgriniwr a'r nodiadau blaenorol er mwyn llywio'r sgwrs]

[Sylwer: efallai na fydd y teulu'n ymwybodol o'r ffaith y cyflogir gweithwyr proffesiynol ehangach gan Ddechrau'n Deg]

- *Gofal plant (meithrin ar gyfer plant rhwng 2 a 3 oed)*
- *Cymorth rhianta – grwpiau neu gyrsiau*
- *Cymorth rhianta – Un-i-un yn y cartref neu mewn canolfan Dechrau'n Deg*
- *Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu – grwpiau neu gyrsiau (e.e. sesiynau IaCh; gweithgareddau SLC a ddarparir mewn lleoliadau mwy anffurfiol)*
- *Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu – cymorth un-i-un (e.e. athro ymgynghorol yn y cartref)*
- *Therapi Iaith a Lleferydd*
- *Cymorth gan Ymwelydd Iechyd (Sylwer: dylai pawb fod yn cael hwn)*
- *Cymorth gan dîm iechyd ehangach trwy gyfrwng Dechrau'n Deg (e.e. Bydwragedd, Dietegydd, Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd). Holwch am bob un a nodwch pa weithiwr(gweithwyr) proffesiynol y manteisiwyd ar eu gwasanaeth:*

Os ydynt wedi **stopio manteisio ar wasanaeth ers Ton 1**, pam?

- *Wedi cwblhau'r cwrs*
- *Nid oes angen y cymorth mwyach*
- *Amser neu leoliad anghyfleus*
- *Anfodlon gyda'r gwasanaeth/nid oedd y plentyn yn mwynhau neu'n cael budd*
- *Rhy brysur*

5. [Os ydynt wedi manteisio ar wasanaethau newydd] Sut glywsoch

chi am y gwasanaeth? Holwch am bob gwasanaeth newydd: (i.

Cymorth iechyd: Ymweliadau iechyd ac unrhyw weithwyr iechyd

proffesiynol eraill (e.e. Therapydd Iaith a Lleferydd, Dietegydd,

Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd) ii. Gofal plant, iii. Iaith a Chwarae

(IaCh) / cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a iv. Cymorth rhianta).

- Holwch:
- Sut y cawsoch chi wybod am bob gwasanaeth? (e.e. Ymwelydd Iechyd, gweithiwr iechyd proffesiynol arall (Meddyg Teulu, bydwraig), ffrindiau/teulu, gweithiwr meithrin ac ati).
- Pa wybodaeth gawsoch chi am bob gwasanaeth; beth oedd eich barn chi amdano?

6. Pam ddewisoch chi fanteisio ar neu beidio manteisio ar wasanaethau newydd Dechrau'n Deg?

- Archwiliwch pam eu bod wedi manteisio/heb fanteisio arnynt. Ar gyfer y rhai nad ydynt wedi manteisio arnynt, gofynnwch a ydynt yn ymwybodol ohonynt ac a fyddent yn dymuno manteisio arnynt.
- Holwch:
- *Oherwydd ei fod ar gael*
- *Help gyda gofal plant*
- *Help gyda datblygiad/ ymddygiad fy mhlentyn/plant*
- *Er mwyn cael rhywfaint o gymorth a chynghor ynghylch rhianta*
- *Er mwyn cyfarfod rhieni eraill*
- *Er mwyn manteisio ar wasanaethau ar gyfer fy mhlentyn/plant*

Awgrymiadau ynghylch pam ddim

- *Lleoliad / Amserau heb fod yn gyfleus*
- *Ddim yn adnabod unrhyw un arall*
- *Ddim yn dymuno gadael fy mhlentyn mewn crèche/ gofal plant*
- *rhy brys/dim amser;*
- *nid oes ei angen arnaf/nid yw'n berthnasol i mi;*
- ofn y byddant yn cael eu barnu gan rieni neu ymarferwyr eraill

- *dim diddordeb;*
- *rhy swil/anhyderus;*
- *ddim yn gwybod rhyw lawer amdano.*

[Teuluoedd newydd – Cwestiynau o ganllaw pynciau Ton 1]

7. Beth ydych chi'n ei wybod, os unrhyw beth, am Ddechrau'n Deg?

- Holwch:
- *Beth mae'n ceisio'i wneud yn eich barn chi (sylwer na fydd nifer yn ymwybodol o'r enw 'Dechrau'n Deg' na'r ffaith bod y gwasanaethau y maent yn eu cael yn cael eu darparu trwy Ddechrau'n Deg efallai)*
- *Pa wasanaethau yr ydych chi'n credu y mae'n eu cynnig ac i bwy (e.e. cyffredinol neu i bobl sy'n cael budd-daliadau penodol, mamau sengl ac ati yn unig)*
- *Pa wybodaeth ysgrifenedig, os o gwbl, a gawsoch chi; beth oedd eich barn amdani? Pwy roddodd hon i chi?*

8. Pa wasanaethau yr ydych chi wedi manteisio arnynt a sut?

[trowch at y sgriniwr i gadarnhau]

Archwiliwch sut y daethant yn ymwybodol o bob gwasanaeth a'u taith rhwng gwasanaethau (*sylwer efallai na fydd nifer yn ymwybodol o'r enw 'Dechrau'n Deg' na'r ffaith bod y gwasanaethau y maent yn eu cael yn cael eu darparu trwy Ddechrau'n Deg*). Holwch am bob gwasanaeth: (i. *Ymweliadau iechyd ac unrhyw weithwyr iechyd proffesiynol eraill (e.e. Therapydd Iaith a Lleferydd, Dietegydd, Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd)* ii. *Gofal plant*, iii. *Iaith a Chwarae (IaCh) / cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu* a iv. *Cymorth rhianta*).

- Holwch:
- *Sut y cawsoch chi wybod am bob gwasanaeth? (e.e. Ymwelydd Iechyd, gweithiwr iechyd proffesiynol arall (Meddyg Teulu, bydwraig), ffrindiau/teulu, gweithiwr meithrin ac ati).*
- *Beth wnaethant ei ddweud wrthyh am Ddechrau'n Deg e.e. pa wasanaethau, sut i fanteisio arnynt?*

- *Yr hyn y mae'n ceisio'i gyflawni yn eich barn chi*
- *Pa mor hir yr ydych chi wedi bod yn manteisio ar wasanaethau Ddechrau'n Deg? (cyson neu ysbeidiol; plant eraill)*
- *Pa wybodaeth gawsoch chi am bob gwasanaeth; beth oedd eich barn chi amdani?*

9. Pam wnaethoch chi fanteisio ar Ddechrau'n Deg?

Ar gyfer pob un, archwiliwch pam y gwnaethant neu pam na wnaethant fanteisio arnynt? Ar gyfer y rhai na wnaethant fanteisio arnynt, holwch a ydynt yn ymwybodol ohonynt ac a fyddent yn dymuno manteisio arnynt.

- Holwch:
- *Oherwydd ei fod ar gael*
- *Help gyda gofal plant*
- *Help gyda datblygiad/ ymddygiad fy mhlentyn/plant*
- *Er mwyn cael rhywfaint o gymorth a chyngor ynghylch rianta*
- *Er mwyn cyfarfod rhieni eraill*
- *Er mwyn manteisio ar wasanaethau ar gyfer fy mhlentyn/plant*

Awgrymiadau ynghylch pam ddim

- *Lleoliad / Amserau heb fod yn gyfleus*
- *Ddim yn adnabod unrhyw un arall*
- *Ddim yn dymuno gadael fy mhlentyn mewn crèche/ gofal plant*
- *rhy brysur/dim amser;*
- *nid oes ei angen arnaf/nid yw'n berthnasol i mi;*
- *ofn y byddant yn cael eu barnu gan rieni neu ymarferwyr eraill*
- *dim diddordeb;*
- *rhy swil/anhyderus;*
- *ddim yn gwybod rhyw lawer amdano.*

Profiadau o Ddechrau'n Deg

10 munud

Rydw i'n mynd i ofyn i chi am eich safbwyntiau am y gwasanaethau yr ydych chi wedi manteisio arnynt trwy Ddechrau'n Deg nawr, a byddaf yn

gofyn i chi feddwl am bob gwasanaeth yr ydych chi wedi manteisio arno ers y cyfweiliad diwethaf.

Gan feddwl am y cymorth gan yr YMWELYDD IECHYD (a'r tîm iechyd ehangach pan fo hynny'n berthnasol e.e. Bydwagedd, Dietegydd, Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd). Holwch a yw'r teulu wedi cael gwasanaethau tîm iechyd ehangach naill ai'n uniongyrchol neu ar ôl iddynt gael eu cyfeirio trwy Ddechrau'n Deg (Sylwer: efallai na fydd y teulu'n ymwybodol o'r ffaith bod gweithwyr proffesiynol ehangach yn cael eu cyflogi gan Ddechrau'n Deg) (Sylwer: mae'r cwestiynau ar gyfer teuluoedd hydredol yn unig mewn cromfachau).

10. Dywedwch wrthyf am y cymorth (diweddar) a gawsoch gan yr ymwelydd iechyd (a'r tîm iechyd ehangach os yw hynny'n berthnasol)

- Pa fathau o bethau yr ydych chi'n eu gwneud gyda'ch YI (gan fod eich plentyn yn hŷn erbyn hyn)? Pa fathau o bethau y byddwch yn eu trafod gyda nhw? A fyddwch chi'n gofyn am eu cyngor?*
- A ydych chi wedi trafod unrhyw asesiadau o gynnydd eich plentyn gyda'ch Ymwelydd Iechyd (asesiad SOGS yn arbennig)? Pa mor ddefnyddiol oedd hyn?*
- Faint o gymorth yr ydych chi'n ei gael nawr (o'i gymharu â'r tro diwethaf y gwnaethom siarad) / faint o gymorth yr ydych yn teimlo y mae ei angen arnoch (nawr o'i gymharu â'r tro diwethaf y gwnaethom siarad)? Pa mor aml y byddwch chi'n cyfarfod nawr?*
- A yw hi'n hawdd cael gafael arnynt? A fyddwch chi'n cysylltu â nhw neu a fyddan nhw yn cysylltu â chi? A fyddant yn cysylltu â chi yn ddigon aml/rhy aml?*
- (A ydych chi'n gweld yr un ymwelydd iechyd o hyd? Os na, pa mor hawdd yw hi i droi at yr un newydd a pha mor wybodus ydynt?)*
- Manylion: Help gyda beth y mae ef/hi wedi gallu ei roi ei chi? Pa fath o gyngor y mae ef/hi wedi'i roi? Beth yw eich barn chi am y*

cymorth? A wnaethoch chi unrhyw beth yn wahanol ar ôl cael cyngor gan yr YI?

11. A oes unrhyw beth yr ydych chi a'ch plentyn yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am y cymorth gan yr ymwelydd ieched (a'r tîm ieched ehangach os yw hynny'n berthnasol)?

- *Lleoliad/amser clinigau babanod / ymweliadau?*
- *Gwybodaeth (a oedd yn ddefnyddiol, perthnasol? A wnaethoch chi ei dilyn?)*
- *Cyfeiriadau at weithwyr proffesiynol eraill*
- *Cyfleusterau a gwasanaethau yn y clinig / canolfan*
- *Cymorth gyda'r iaith Gymraeg*

12. Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi nawr gyda'r cymorth gan yr Ymwelydd ieched (a'r tîm ieched ehangach os yw hynny'n berthnasol)?

[Gofynnwch iddynt roi sgôr o 1-10 am yr Ymweliadau ieched]

- *Archwiliwch y rhesymau dros yr ateb*
- *A oes unrhyw beth y byddai'r Ymwelydd ieched wedi gallu eich helpu yn fwy gydag ef?*

13. Yn eich barn chi, sut mae gwasanaeth yr ymwelydd ieched (a'r tîm ieched ehangach os yw hynny'n berthnasol) wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu?

- *(Cyfeiriwch at sylwadau blaenorol – a yw eu safbwyntiau wedi newid?)*
- *(Holwch er mwyn cael gwybod faint o wahaniaeth nawr o'i gymharu ag ar y cychwyn)*
- *(Holwch er mwyn cael gwybod a yw cymorth blaenorol wedi helpu'r teulu'n barhaus)*

14. A yw'r ymwelydd iechyd wedi'ch cyfeirio at unrhyw wasanaethau tebyg eraill? (E.e. gwasanaethau cymdeithasol, gweithiwr teuluoedd, gweithwyr iechyd proffesiynol eraill).

- *Pa wasanaethau? Rhieni eraill; sefydliad / gweithiwr cymorth arall?*
- *A wnaethoch chi fanteisio ar y gwasanaethau hyn? Pam/ pam ddim?*
- *Beth oedd eich profiadau chi – effeithiau a chanlyniadau?*

Ar gyfer y rhai yr OEDDENT yn manteisio ar Ofal Plant yn barod yn ystod Ton 1, ac y maent WEDI PARHAU i fanteisio arno.

15. Dywedwch fwy wrthyf am eich profiadau o ofal plant yn ddiweddar.

- *A yw'r staff gofal plant yn cyfathrebu â chi am gynnydd eich plentyn yn y ddarpariaeth gofal plant (e.e. galwad ffôn, neges destun, sgwrs ar ddiwedd y sesiwn, ffotograffau, dyddiadur, hysbysfwrdd, Facebook ac ati)*
 - *A ydych chi wedi trafod asesiad SOGS eich plentyn gyda nhw?*
- *Pa fathau o bethau y byddwch yn eu trafod gyda'r staff, (e.e. cwestiynau ynghylch paratoi ar gyfer dechrau yn yr ysgol / Cyfnod Sylfaen)?*
- *Beth yw eich barn am y gofal plant? A yw'ch plentyn yn mwynhau?*
- *Beth fyddwch chi'n ei wneud pan fydd eich plentyn mewn sesiwn gofal plant? Yr un peth bob tro? A fyddai modd i chi wneud hyn fel arall?*
- *A fyddwch yn dod â'ch plentyn i bob sesiwn gofal plant y mae ganddo ef/hi yr hawl i'w mynychu? Os na, pam?*
- *A oes unrhyw beth y mae'ch plentyn yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am y gofal plant?*

16. Yn gyffredinol, pa mor fodlon/anfodlon ydych chi gyda'r gofal plant?

[Gofynnwch iddynt roi sgôr o 1-10 i'r gofal plant?]

- *Archwiliwch y rhesymau dros yr ateb*
- *Sut fyddai modd gwella'r gofal plant yn eich barn chi?*

17. Yn eich barn chi, sut mae'r gwasanaeth gofal plant wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu chi?

- *Cyfeiriwch at y sylwadau blaenorol – a yw eu safbwyntiau wedi newid gydag amser?*
- *Sut mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo datblygiad eu plentyn gydag amser?*

18. A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw ofal plant arall? Sut wnaethoch chi glywed amdanynt?

- *Pa ofal plant? Teulu neu ffrindiau, lleoliadau ffurfiol eraill.*
- *Sut mae hwn yn cymharu â gofal plant Dechrau'n Deg?*
- *Sut wnaethoch chi gael gwybod am y rhain?*
- *Beth oedd eich profiadau – effeithiau a chanlyniadau?*

Ar gyfer TEULUOEDD NEWYDD a'r rhai NAD oeddent yn manteisio ar ofal plant yn ystod Ton 1, ond y maent WEDI DECHRAU nawr.

19. Dywedwch fwy wrthyf am y gofal plant

- *Pryd oedd/mae'r sesiynau gofal plant? A yw hynny'n iawn? Pam?*
- *A gawsoch chi ddigon o wybodaeth cyn i'ch plentyn gychwyn? Sut oeddech yn teimlo am y wybodaeth a gawsoch? A oedd y wybodaeth yn cyfateb â'r hyn yr oedd angen i chi ei chael yn eich barn chi? A gynigiwyd cyfle i chi ymweld â'r lleoliad gofal plant cyn i'ch plentyn gychwyn (e.e. diwrnod agored, ymweliad a gynlluniwyd)? Beth wnaeth y lleoliad ei wneud i helpu'ch plentyn i setlo'n dda?*

- *A yw'r staff gofal plant yn cyfathrebu â chi am gynnydd eich plentyn yn y ddarpariaeth gofal plant (e.e. galwad ffôn, neges destun, sgwrs ar ddiwedd y sesiwn, ffotograffau, dyddiadur, hysbysfwrdd, Facebook ac ati)*
- *Beth yw eich barn am y gofal plant? A yw'ch plentyn yn mwynhau? Pa wahaniaeth y mae mynychu gofal plant wedi ei wneud i chi ac i'ch plentyn?*
- *Beth fyddwch chi'n ei wneud pan fydd eich plentyn mewn sesiwn gofal plant? Yr un peth bob tro? A fyddai modd i chi wneud hyn fel arall?*
- *A fyddwch yn dod â'ch plentyn i bob sesiwn gofal plant y mae ganddo ef/hi yr hawl i'w mynychu? Os na, pam?*

20. A oes unrhyw beth yr ydych chi a'ch plentyn yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am y lleoliad gofal plant?

- Holwch:
 - *Lleoliad/amser y sesiynau gofal plant*
 - *Argaeledd y lleoedd*
 - *Cyfleusterau a gwasanaethau yn y lleoliad gofal plant (e.e. bwyd, lle chwarae, tegau, ac ati)*
 - *Darpariaeth yn y Gymraeg*
 - *Plant eraill*
 - *Y cyfle i riant ymgysylltu â gweithgareddau heb eu plentyn (ac i'r gwrthwyneb)*

21. Yn gyffredinol, pa mor fodlon/ anfodlon ydych chi gyda'r gofal plant?

[Gofynnwch iddynt roi sgôr o 1-10 i'r gofal plant?]

- *Archwiliwch y rhesymau dros yr ateb*
- *A oes unrhyw beth y byddai'r gofal plant wedi gallu eich helpu yn fwy gydag ef?*
- *Sut fyddai modd gwella'r gofal plant yn eich barn chi?*

22. Yn eich barn chi, sut mae'r gwasanaeth gofal plant wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu?

23. A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw ofal plant arall? Sut wnaethoch chi glywed amdanynt?

Holwch:

- Pa ofal plant? Gofal gan berthnasau/ tad-cuod/teidiau a mam-guod/neiniau, gan ffrindiau; Gofal plant ffurfiol, Rhieni eraill; Sefydliad / gweithiwr cymorth arall? Gofal plant 'cofleidiol'?
- Manylion am y rhesymau, y darparwr, y lleoliad ac ati
- Sut mae hwn yn cymharu â gofal plant lechyd Dechrau'n Deg?
- A sicrhawyd eich bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn? A chan bwy? A glywsoch chi am unrhyw rai o'r rhain o ganlyniad i'r ffaith eich bod yn manteisio ar Ddechrau'n Deg?
- A wnaethoch chi fanteisio ar y gwasanaethau hyn? Pam/ pam ddim?
- Beth oedd eich profiadau – effeithiau a chanlyniadau?

Cymorth rhianta neu gyrsiau (*bydd gwahanol gyrsiau mewn gwahanol ardaloedd, e.e. Blynyddoedd Rhyfeddol, Tair P, Rhianta Cadarnhaol, dosbarth cynenedigol, Tylino babanod, cymorth rhianta un-i-un yn y cartref*).

Ar gyfer y rhai yr OEDDENT wedi manteisio ar gymorth rhianta neu gyrsiau yn barod yn ystod Ton 1, ond nid ers hynny.

24. Hoffwn gadarnhau eich bod chi wedi manteisio ar ... [Ymchwilydd i droi at nodiadau blaenorol i weld yr hyn yr oedd y teulu wedi manteisio arno y llynedd a chadarnhau hyn gyda'r teulu] yn flaenorol.

25. A ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth neu unrhyw rai o'r sgiliau neu'r technegau a ddysgoch gan y cymorth/dosbarth rhianta yn ddiweddar?

- Pa fathau o bethau ddysgoch chi?
- A oeddent yn ddefnyddiol am ychydig / am gyfnod pan oedd plentyn o oed penodol yn unig?
- A ydynt yn sgiliau neu'n dechnegau y mae modd i chi eu defnyddio nawr o hyd ac yn y dyfodol?
- A ydych chi'n cofio digon / teimlo'n ddigon hyderus i barhau i ddefnyddio'r sgiliau, y wybodaeth neu'r technegau?

26. Yn eich barn chi, sut mae'r cyrsiau/cymorth rhianta wedi gwneud gwahaniaeth i chi a'ch teulu?

- Pa wahaniaeth wnaeth y cymorth/cyrsiau i'ch sgiliau fel rhiant? A ydych chi'n defnyddio'r sgiliau neu'r cyngor a ddysgoch o hyd?
- Pennu arferion / arferion cysgu
- Bwydo / diddyfnu
- Deall ymddygiad / terfynau ac ati?
- Lleferydd, iaith a chyfathrebu
- [Ar gyfer y rhai a fanteisiodd ar gymorth rhianta ac sy'n adrodd ei fod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt]
 - Beth oedd eich barn am gymorth rhianta [neu enw'r dosbarth/gwasanaeth cyn mynychu?
 - Beth oedd eich barn am y cymorth ar ôl mynychu/cwblhau'r cwrs?
 - Yn eich barn chi, sut allai Dechrau'n Deg hyrwyddo cymorth rhianta fel ei fod yn apelio i nifer fwy o deuluoedd?

27. A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw wasanaethau Rhianta eraill tebyg? Sut glywsoch chi amdanynt?

- Pa wasanaethau? E.e. Ysgolion, rhaglen cymorth i deuluoedd arall, adrannau iechyd, cwnsela ac ati, gofal plant, cyrsiau rhianta, cyrsiau

- Manylion am y rhesymau, darparwr, lleoliad ac ati
- Sut mae hyn yn cymharu gyda darpariaeth Dechrau'n Deg?
- Pam sicrhawyd eich bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn? A chan bwy? A glywsoch chi am unrhyw rai o'r rhain o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi manteisio ar Ddechrau'n Deg?
- A wnaethoch chi fanteisio ar y gwasanaethau hyn? Pam/ pam ddim?
- Beth oedd eich profiadau – effeithiau a chanlyniadau?

Ar gyfer TEULUOEDD NEWYDD a'r rhai sydd wedi manteisio ar gwrs NEWYDD neu DDECHRAU MANTEISIO AR gymorth ers TON 1.

28. Dywedwch fwy wrthyf am y cymorth 'Rhianta' a gafwyd trwy Ddechrau'n Deg

- *Y cwrs(cyrsiau): A wnaethoch chi ddilyn cwrs? A gawsoch chi gymorth 1-i-1 yn y cartref? Pa fath o gwrs(cyrsiau) y gwnaethoch chi eu mynychu/cymorth a gawsoch? Beth oedd yn sôn amdano? A oeddech chi'n adnabod eraill ar y cwrs? Neu a ddaeth rhywun i'r tŷ er mwyn eich cynorthwyo gyda rhianta?*
- *Faint o wybodaeth roddwyd i chi am y cwrs cyn i chi ei fynychu? E.e. a gawsoch eich gwahodd i sesiwn ragflas, bore coffi, neu a wnaeth yr hwylusydd ymweld â chi yn y cartref neu gysylltu â chi i drafod y cwrs cyn y sesiwn gyntaf?*
- *Manylion: Yn fras, pryd wnaethoch chi fynd ar y cwrs neu gael cymorth? Am faint y gwnaeth hwn bara? A wnaethoch chi fynychu pob sesiwn? Os wnaethoch chi fynychu pob sesiwn, beth oedd wedi peri i chi barhau i fynychu? Os wnaethoch chi stopio mynychu sesiynau, pam? A wnaeth yr hwylusydd/staff DD gadw mewn cysylltiad â chi rhwng sesiynau?*
- *Eu profiad: Beth oedd eich barn chi o'r cwrs/cymorth a gafwyd? Beth ddysgoch chi? A ydych chi'n gwneud unrhyw beth yn wahanol ar ôl bod ar y cwrs/cael cymorth? A wnaethoch chi unrhyw ffrindiau newydd trwy fynychu'r cwrs?*

29. Beth ydych chi a/neu'ch plentyn yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi am y cymorth/cwrs Rhianta yr ydych chi wedi manteisio arno?

Holwch:

- *Gwybodaeth a ddarparwyd (a oedd yn ddefnyddiol, yn berthnasol? A wnaethoch chi ei dilyn?)*
- *Staff (cyfeillgar, hawdd cael gafael arnynt, gwybodus)*
- *Lleoliad/amser*
- *Argaeledd y lleoedd*
- *Cyfleusterau a gwasanaethau (e.e. bwyd, lle chwarae, tegau, crèche ac ati)*
- *Rhieni eraill*
- *Plant eraill*
- *Gweithgareddau/ cynnwys y sesiynau/cyrsiau*
- *Darpariaeth yn y Gymraeg*

30. Yn gyffredinol, pa mor fodlon/ anfodlon yr oeddech/ydych chi â'r cymorth RHianta?

Holwch:

- *[Gofynnwch iddynt roi sgôr o 1-10 ar gyfer pob gwasanaeth?]*
- *Archwiliwch y rhesymau dros yr ateb*
- *A oes unrhyw beth y byddai modd i Gymorth rhianta fod wedi rhoi mwy o help i chi gydag ef?*
- *Yn eich barn chi, a fyddai modd gwella'r cymorth Rhianta?*

31. Yn eich barn chi, sut mae'r rhaglenni/cyrsiau rhianta wedi gwneud gwahaniaeth i chi a'ch teulu?

- *Pennu arferion / arferion cysgu*
- *Bwydo / diddyfnu*
- *Deall ymddygiad / terfynau ac ati?*
- *Lleferydd, iaith a chyfathrebu*
- *[Ar gyfer y rhai a fanteisiodd ar gymorth rhianta ac sy'n adrodd ei fod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt]*

- Beth oedd eich barn am gymorth rhianta [neu enw'r dosbarth/gwasanaeth] cyn mynychu?
- Beth oedd eich barn am y cymorth ar ôl mynychu/cwblhau'r cwrs?
- Yn eich barn chi, sut allai Dechrau'n Deg hyrwyddo cymorth rhianta fel ei fod yn apelio i nifer fwy o deuluoedd?

32. A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw wasanaethau Rhianta eraill tebyg? Sut glywsoch chi amdanynt?

- Holwch:
- *Pa wasanaethau? E.e. Ysgolion, rhaglen cymorth i deuluoedd arall, adrannau iechyd, cwnsela ac ati, gofal plant, cyrsiau rhianta, cyrsiau*
- *Manylion am y rhesymau, darparwr, lleoliad ac ati*
- *Sut mae hyn yn cymharu gyda darpariaeth Dechrau'n Deg?*
- *Pam sicrhawyd eich bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn? A chan bwy? A glywsoch chi am unrhyw rai o'r rhain o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi manteisio ar Ddechrau'n Deg?*
- *A wnaethoch chi fanteisio ar y gwasanaethau hyn? Pam/ pam ddim?*
- *Beth oedd eich profiadau – effeithiau a chanlyniadau?*

Lleferydd, iaith a Chyfathrebu (fel arfer, mae'r rhain yn gyfres o sesiynau am tua awr yr wythnos dros ychydig wythnosau, a cheir gwahanol rai ar gyfer gwahanol oeddrannau. Gall fod yn gymorth 1-i-1 yn y cartref gan staff hefyd (e.e. Therapydd iaith a Lleferydd, Ymwelydd Iechyd neu Athro Ymgynghorol.) Gall fod yn weithgareddau lleferydd, iaith a chyfathrebu hefyd, a ddarparir mewn lleoliad mwy anffurfiol).

Gofynnwch a ydynt wedi cael cymorth gan Therapydd iaith a Lleferydd. Ar gyfer y rhai yr OEDDENT wedi manteisio ar wasanaethau SLC yn ystod Ton 1 ac NAD YDYNT YN MANTEISIO ARNO MWYACH.

33. Hoffwn gadarnhau eich bod chi wedi manteisio ar ... [Ymchwilydd i droi at nodiadau blaenorol i weld yr hyn yr oedd y teulu wedi

manteisio arno y llynedd a chadarnhau hyn gyda'r teulu] yn flaenorol.

34. Yn eich barn chi, sut mae'r sesiynau iaith a chwarae / cymorth Lleferydd, iaith a Chyfathrebu wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu?

- *A yw hyn wedi newid gydag amser? Faint o wahaniaeth nawr o'i gymharu ag y llynedd?*
- [Ar gyfer y rhai a fanteisiodd ar SLC ac sy'n adrodd ei fod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt]
 - Beth oedd eich barn am y cymorth SLC cyn mynychu?
 - Beth oedd eich barn am y cymorth SLC ar ôl mynychu/cwblhau'r cwrs?
 - Yn eich barn chi, sut allai Dechrau'n Deg hyrwyddo cymorth SLC fel ei fod yn apelio i niferoedd mwy o deuluoedd?

35. A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw wasanaethau cymorth iaith a Chwarae / Lleferydd, iaith a Chyfathrebu eraill tebyg i hyn? Sut glywsoch chi amdanynt?

- Pa wasanaethau? Manylion am y rhesymau, y darparwr, y lleoliad ac ati
- Sut mae hyn yn cymharu â darpariaeth Dechrau'n Deg?
- Sut glywsoch chi am y gwasanaethau hyn?
- Beth oedd eich profiadau – effeithiau a chanlyniadau?

Ar gyfer TEULUOEDD NEWYDD NAD OEDDENT wedi manteisio ar gymorth SLC yn barod yn ystod Ton 1, ond y maent wedi DECHRAU manteisio arno A'R rhai sy'n PARHAU i fanteisio ar gymorth SLC.

36. Dywedwch fwy wrthyf am y gwasanaethau Lleferydd, iaith a Chyfathrebu / 'Iaith a Chwarae' yr ydych chi wedi'u cael trwy Ddechrau'n Deg

- *A gawsoch chi gymorth 1-i-1 yn y cartref neu mewn man arall?*
A gawsoch chi eich cyfeirio at Therapydd Iaith a Lleferydd?

- *A wnaethoch chi fynychu unrhyw sesiynau grŵp?*
- *A wnaethoch chi ddilyn cwrs? - Pa fath o gwrs(cyrsiau) y gwnaethoch chi ei fynychu/eu mynychu?*
- *Manylion: Pryd aethoch chi? Beth oedd yn sôn amdano? A oeddech chi'n adnabod eraill ar y cwrs? Am faint oedd hwn wedi para? A wnaethoch chi fynychu'r holl sesiynau?*
- *Eu profiad: A oeddech chi wedi ei hoffi? Beth ddysgoch chi? A wnaethoch chi unrhyw beth yn wahanol ar ôl bod ar y cwrs*
- *A gawsoch chi Gwdyn Llyfrau Dechrau'n Deg (Time for Bed Fred, Hungry Caterpillar yn flaenorol) pan oedd eich plentyn yn 2 oed? Os felly, a ydych chi'n trafod y llyfrau neu'n eu darllen gyda'ch plentyn?*

37.[Ar gyfer y rhai sydd wedi DECHRAU manteisio yn unig] A oedd unrhyw beth yr oeddech chi a'ch plentyn yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am y cyrsiau iaith a chwarae / cymorth Lleferydd, iaith a Chyfathrebu y gwnaethoch fanteisio arno?

- Holwch:
 - *Lleoliad/amser*
 - *Argaeledd y lleoedd*
 - *Cyfleusterau a gwasanaethau*
 - *Rhieni eraill*
 - *Plant eraill*
 - *Gweithgareddau/ cynnwys y sesiynau/cyrsiau*
 - *Gwybodaeth (a oedd yn ddefnyddiol, perthnasol? A wnaethoch chi ei dilyn?)*
 - *Darpariaeth yn y Gymraeg*

38.[Ar gyfer y rhai sy'n PARHAU i fanteisio yn unig] A yw'r gwasanaeth yn addas o hyd ar gyfer / yn ymgysylltu â'ch plentyn? [Trowch at nodiadau blaenorol i weld a yw eu barn wedi newid].

- *Gweithgareddau/ cynnwys sesiynau – a yw'r sesiynau'n helpu datblygiad y plentyn, eich dealltwriaeth chi, a yw'n ddigon heriol?*

A yw'r sesiynau'n helpu eich dealltwriaeth chi o leferydd, iaith a chyfathrebu?

39. Yn gyffredinol, pa mor fodlon/ anfodlon oeddech chi/ ydych chi gyda chymorth iaith a Chwarae / Lleferydd, iaith a Chyfathrebu?

- Holwch:
- **[Gofynnwch iddynt roi sgôr o 1-10 i bob gwasanaeth?]**
- *Archwiliwch y rhesymau dros ateb*
- *A oes unrhyw beth y gallai **sesiynau iaith a chwarae / cymorth Lleferydd, iaith a Chyfathrebu** fod wedi rhoi mwy o help i chi gydag ef?*
- *Yn eich barn chi, a fyddai modd gwella'r sesiynau iaith a chwarae / cymorth Lleferydd, iaith a Chyfathrebu?*

40. Yn eich barn chi, sut mae'r sesiynau iaith a chwarae / cymorth Lleferydd, iaith a Chyfathrebu wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu?

- [Ar gyfer y rhai a gafodd fudd gan SLC ac sy'n adrodd ei fod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt]
 - Beth oedd eich barn am y cymorth SLC cyn mynychu?
 - Beth oedd eich barn am y cymorth SLC ar ôl mynychu/cwblhau'r cwrs?
 - Yn eich barn chi, sut allai Dechrau'n Deg hyrwyddo cymorth SLC fel ei fod yn apelio i niferoedd mwy o deuluoedd?

41. A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw wasanaethau cymorth iaith a Chwarae / Lleferydd, iaith a Chyfathrebu eraill tebyg i hyn? Sut glywsoch chi amdanynt?

- *Pa wasanaethau? Manylion am y rhesymau, y darparwr, y lleoliad ac ati*
- *Sut mae hyn yn cymharu â darpariaeth Dechrau'n Deg?*
- *Sut glywsoch chi am y gwasanaethau hyn?*
- *Beth oedd eich profiadau – effeithiau a chanlyniadau?*

42. A gynigiwyd darpariaeth i chi trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer unrhyw rai o wasanaethau Dechrau'n Deg?

- Holwch ar gyfer pob gwasanaeth (Do/Naddo)
 - Gofal plant;
 - Cymorth rianta;
 - Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu;
 - Therapi Iaith a Lleferydd;
 - Cymorth gan Ymwelydd Iechyd;
 - Cymorth gan dîm iechyd ehangach trwy Ddechrau'n Deg (e.e. Bydwagedd, Dietegydd, Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd).
- *Do – Sut cynigiwyd y dewis i chi? A gafodd ei gynnig ymlaen llaw gan y staff neu a gafodd ei gynnig ar ôl i chi ofyn amdano?*
- *Naddo – a fydddech wedi dymuno cael cynnig y gwasanaeth hwn? A fyddai hyn wedi bod o ddiddordeb i chi?*

43. A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg trwy Ddechrau'n Deg?

- Holwch ar gyfer pob gwasanaeth (Ydw/Nac ydw)
 - Gofal plant;
 - Cymorth rianta;
 - Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu;
 - Therapi Iaith a Lleferydd;
 - Cymorth gan Ymwelydd Iechyd;
 - Cymorth gan dîm iechyd ehangach trwy Ddechrau'n Deg (e.e. Bydwagedd, Dietegydd, Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd).
- Os na, pam?

44. A yw Dechrau'n Deg wedi darparu darpariaeth ddigonol trwy gyfrwng y Gymraeg?

- Holwch ar gyfer pob gwasanaeth (Ydy/Nac ydy)
 - Gofal plant;

- Cymorth rhianta;
- Cymorth Lleferydd, iaith a Chyfathrebu;
- Therapi iaith a Lleferydd;
- Cymorth gan Ymwelydd Iechyd;
- Cymorth gan dîm iechyd ehangach trwy Ddechrau'n Deg (e.e. Bydwagedd, Dietegydd, Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd).
- A oedd unrhyw wasanaethau neu gymorth heb fod ar gael?
- Pe byddai mwy o wasanaethau cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog ar gael, a fydddech chi wedi bod yn debygol o'u defnyddio? [Archwiliwch pa wasanaethau y mae galw amdanynt]

Effeithiau a chanlyniadau

20 munud

Gan feddwl am yr holl wasanaethau Dechrau'n Deg yr ydych chi wedi manteisio arnynt, pa wahaniaethau yr ydych chi wedi sylwi arnynt yn eich plentyn chi, sydd o ganlyniad i'ch cyswllt â Dechrau'n Deg yn eich barn chi? Sylwer: Dylai'r cyfwelydd ofyn a yw Dechrau'n Deg wedi cael: Effaith gadarnhaol; Dim gwahaniaeth; Effaith negyddol; Amherthnasol. Dylai'r cyfwelydd holi am enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol neu negyddol ers i'r teulu ddechrau manteisio ar Ddechrau'n Deg.

45. Gan feddwl am yr holl wasanaethau yr ydych chi wedi manteisio arnynt, pa wahaniaeth y mae Dechrau'n Deg wedi ei wneud i'ch plentyn chi yn gyffredinol?

- [Effaith gadarnhaol; Dim effaith; Effaith negyddol; Amherthnasol]

46. I ba raddau y mae Gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i leferydd, iaith a chyfathrebu eich plentyn o ran:

- Dysgu a defnyddio geiriau newydd yn Saesneg
- Dysgu a defnyddio geiriau newydd yn Gymraeg
- Siarad yn fwy clir
- Bod yn fwy siaradus

- [Effaith gadarnhaol; Dim effaith; Effaith negyddol; Amherthnasol]

47. I ba raddau y mae Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth o ran pa mor barod yw'ch plentyn ar gyfer yr ysgol o ran:

- Darllen neu fwy o ddiddordeb mewn edrych ar lyfrau
- Gallu gwrando ar straeon yn well
- Gwella'u gallu i ganolbwyntio
- Cyfrif neu adnabod rhifau
- Canu neu adnabod rhigymau
- Adnabod llythrennau neu wybod y wyddor
- Dal a/neu ddefnyddio pensil

- [Effaith gadarnhaol; Dim effaith; Effaith negyddol; Amherthnasol]

48. I ba raddau y mae Gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i sgiliau ymarferol eich plentyn o ran:

- Defnyddio cyllell a fforc a chwpan
- Gwisgo
- Tacluso
- Dechrau defnyddio'r toiled
- Brwsio'u dannedd
- Arfer cysgu

- [Effaith gadarnhaol; Dim effaith; Effaith negyddol; Amherthnasol]

49. I ba raddau y mae Gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i gynnydd eich plentyn gyda'u sgiliau cymdeithasol a'u hymddygiad o ran:

- Cymdeithasu / chwarae gyda phlant eraill
- Rhyngweithio gydag oedolion
- Pyliau o dymer / rheoli dicter
- Cymryd tro neu rannu pethau
- Delio â sefyllfaoedd heriol (cydnerthedd)
- Hapusrwydd
- Hyder

- [Effaith gadarnhaol; Dim effaith; Effaith negyddol; Amherthnasol]

50. I ba raddau y mae Gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i iechyd eich plentyn o ran?

- Adnabod unrhyw faterion iechyd
- Troi at weithwyr iechyd proffesiynol eraill
- Gwelliannau i iechyd neu les
- [Effaith gadarnhaol; Dim effaith; Effaith negyddol; Amherthnasol]

Os yw hyn yn berthnasol

51. A ydych chi wedi sylwi ar wahaniaeth yn natblygiad eich plant sydd wedi manteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg a'r rhai nad ydynt wedi manteisio arnynt?

- *Holwch am y rhesymau am bob ateb (datblygiad lleferydd ac iaith; sgiliau llythrennedd a rhifedd; datblygiad personol; sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad)*

Gan ystyried yr holl wasanaethau Dechrau'n Deg yr ydych chi wedi manteisio arnynt, pa wahaniaethau yr ydych chi wedi sylwi arnynt ynoch chi a'ch teulu, sydd o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi cael cyswllt â Dechrau'n Deg yn eich barn chi?

52. Gan ystyried yr holl wasanaethau yr ydych chi wedi manteisio arnynt, pa wahaniaeth y mae Dechrau'n Deg wedi'i wneud i chi yn gyffredinol fel rhiant?

- [Effaith gadarnhaol; Dim effaith; Effaith negyddol; Amherthnasol]

53. I ba raddau y mae gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i'ch dull gweithredu wrth rianta, o ran:

- Cyfathrebu â'ch plentyn
- Cynorthwyo dysgu eich plentyn (e.e. darllen gyda'ch plentyn)
- Rhoi syniadau i chi am weithgareddau i'w gwneud gyda'ch plentyn
- Datblygu sgiliau rianta ymarferol (dysgu defnyddio'r toiled/arferion amser cysgu/golchi)
- Sicrhau bod eich cartref yn ddiogel
- Rheoli ymddygiad

- Diet ac arferion amser bwyd eich plentyn
- Bwydo ar y fron
- Diddyfnu
- [Effaith gadarnhaol; Dim effaith; Effaith negyddol; Amherthnasol]

54. I ba raddau y mae gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i'ch lles personol o ran:

- Hyder yn eich sgiliau rhianta chi
- Eich gallu i reoli sefyllfaoedd sy'n peri straen
- Teimlo'ch bod yn cael cymorth da
- Cael amser i ymlacio
- Cael amser ar gyfer hyfforddiant a/neu addysg
- Fy ngalluogi i gael swydd
- Cymdeithasu â rhieni eraill
- Byw mewn ffordd iachach (e.e. bwyta bwyd iachach, gwneud mwy o ymarfer corff, stopio ysmegu)
- Lles gwell
- [Effaith gadarnhaol; Dim effaith; Effaith negyddol; Amherthnasol]

55. A oes unrhyw fath arall o gymorth yr ydych chi'n teimlo y gallai Dechrau'n Deg ei gynnig? A fydddech chi'n dymuno manteisio ar fwy o ddarpariaeth?

- Holwch:
 - *Unrhyw wasanaethau eraill / cyfleoedd i gyfarfod rhieni eraill*
 - *Holwch y rhesymau dros ateb*
 - *Pa wasanaeth/au*
 - *Pa leoliad/ amser*
 - *Faint o sesiynau/cyrsiau ychwanegol ac ati?*
 - *Iaith*

56. A fydddech chi'n argymhell rhaglen gwasanaethau Dechrau'n Deg i ffrind?

- *Byddwn/Na fyddwn/Ansicr*

- *Holwch am resymau dros ateb*
- *Pa wasanaethau a pham?*

57. Os na fyddai Dechrau'n Deg ar gael, pa wahaniaeth y byddai hyn yn ei wneud i chi, eich plentyn a'ch teulu yn eich barn chi?

- Holwch:
- *Holwch am resymau am ateb*
- *A fydddech chi wedi manteisio ar wasanaethau eraill? Os felly, pa rai?*
- *Ymddygiad/ datblygiad y plentyn/ perthnasoedd (fel y soniwyd uchod)*
- *Eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau?*
- *A oes unrhyw beth na fyddai modd i chi fod wedi ei wneud (e.e. gweithio, gwella sgiliau)?*

Casgliad

5 munud

Gan feddwl am y 12 mis nesaf, hoffwn ofyn i chi feddwl am yr hyn yr ydych yn gobeithio y bydd eich teulu yn ei gael gan Ddechrau'n Deg.

58. Pa fudd yr ydych chi'n gobeithio y bydd eich plant a'ch teulu yn ei gael o fanteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg dros y 12 mis nesaf?

- Holwch am unrhyw ddisgwyliadau penodol ar gyfer y plentyn ac ar eu cyfer nhw neu'r teulu cyfan

59. A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am Ddechrau'n Deg heddiw?

Rhestr gyfeirio

- Diolch am gymryd rhan.
- Sicrhau y llofnodir y ffurflen gydsynio
- Cadarnhau'r manylion cyswllt er mwyn trefnu'r drafodaeth nesaf gyda'r teulu

- **Cadarnhau eu bod yn fodlon i ni gysylltu â nhw er mwyn cyfarfod am y tro olaf ym mis Mai/Mehefin 2017.**